

nmc
Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022–2023 a Chynllun Strategol 2023–2025

Y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022–2023 a Chynllun Strategol 2023–2025

Adroddiad Blynyddol 2022–2023 a Chynllun Strategol 2023–2025 a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Erthygl 50(2) o Orchymyn Nyrso a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd gan y Gorchymyn Nyrso a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2008

Cyfrifon a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Erthygl 52(7) o Orchymyn Nyrso a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Nyrso a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2008

Gorchymynwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu

17 Gorffennaf 2023



© **Hawlfraint y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2023**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle datgenir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn nmc.org.uk.

Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn gael eu hanfon at y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, 23 Portland Place, Llundain, W1B 1PZ.

ISBN 978-1-5286-4234-7

EO2921917 07/23

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan HH Cymdeithion cyfyngedig ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.

Contents

Ein rôl	6
Adolygiad perfformiad 2022-2023	11
Cynllun strategol ar gyfer 2023-2025	54
Adolygiad Ariannol	57
Adroddiad cydnabyddiaeth ariannol	63
Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd mewn perthynas â'r cyfrifon	82
Datganiad llywodraethu blynyddol	85
Adroddiad yr archwilydd annibynnol i ymddiriedolwyr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth	111
Tystysgrif ac Adroddiad y rheolwr ac archwilydd cyffredinol i ymddiriedolwyr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r senedd	117
Datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	124

Rhagair

Roedd 2022-2023 yn flwyddyn hynod heriol i iechyd a gofal cymdeithasol ar draws pedair gwlad y DU. Felly, fe wnaethom ganolbwyntio ar gyflawni camau gweithredu allweddol a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol a oedd yn darparu gofal yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Ein prif flaenoriaeth sefydliadol oedd, ac o hyd yw, **lleihau nifer yr achosion addasrwydd i ymarfer sydd gennym ar agor yn gyflym ac yn ddiogel.**

Mae hyn yn hanfodol bwysig i bawb yr effeithir arnynt. Yn ystod 2022-2023, lleihawyd ein llwyth achosion o 6,469 o achosion ar 31 Mawrth 2022 i 5,577 o achosion erbyn diwedd mis Mawrth 2023. Er ei fod yn fyr o'n targed o gyfanswm llwyth achosion o 5,000 erbyn mis Mawrth 2023, mae hyn yn ostyngiad o 14 y cant, ac rydym yn hyderus y byddwn yn parhau â'r duedd ar i lawr hwn i 2023-2024.

Gyda'r **gweithlu** iechyd a gofal cymdeithasol dan bwysau sylweddol, rhaid i ni barhau i **chwarae ein rhan i leddfu'r pwysau hwnnw a chefnogi gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol** i ddarparu gofal diogel, effeithiol a charedig i bobl a chymunedau. Y llynedd roedd hyn yn cynnwys: adolygu ein gofynion iaith Saesneg i wneud yn siŵr bod pobl â'r lefel gywir o hyfedredd Saesneg yn gallu gweithio'n ddiogel yn y DU; ehangu nifer y canolfannau archwilio clinigol strwythuredig gwrthrychol (OSCE) a chynyddu'r gallu profi yn sylweddol; gosod safonau newydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n edrych i'r dyfodol ar gyfer cymwysterau ôl-gofrestru; a diweddarau ein safonau addysg cyn cofrestru ar ôl i'r DU adael yr UE.

Fe wnaethom hefyd barhau i gynnal cofrestr dros dro Covid-19 ar ôl i'r Llywodraeth ofyn i ni ei chadw ar agor am ddwy flynedd arall.

Yn ystod y streiciau a gynhaliwyd, fe wnaethom amlygu hawl gweithwyr proffesiynol i gymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol cyfreithlon, tra'n eu helpu i gynnal safonau gofal drwy bwysleisio pwysigrwydd y Cod (safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol ar gyfer nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio) ac adnoddau eraill.

Mae **gwella diogelwch mewn iechyd a gofal cymdeithasol** wedi bod yn flaenoriaeth arall a bydd yn parhau i fod. I'r perwyl hwn, fe wnaethom gefnogi gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr i ailddilysu; cyflwyno dulliau newydd o sicrhau ansawdd addysg; targedu ein gweithgarwch allgymorth a gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo gwelliannau.

Yn ystod 2022, nododd adolygiad Ockenden ac adroddiad Dwyrain Caint fethiannau echrydus, trasig a hirsefydlog mewn gwasanaethau mamolaeth. Mae ein meddyliau'n parhau i fod gyda'r menywod, babanod a theuluoedd sydd wedi dioddef o ganlyniad. Rydym wedi bod yn cydweithio ag ymddiriedolaethau, sefydliadau addysg uwch a rheoleiddwyr eraill i fynd i'r afael â phryderon am ddiogelwch gwasanaethau mamolaeth yn Lloegr ac i sicrhau gwelliannau cynaliadwy ar draws y pedair gwlad.

Fe wnaethom barhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu fframwaith cyfreithiol newydd a fydd yn **moderneiddio sut rydym yn rheoleiddio**. Bydd y manteision i bobl yn cynnwys cael cofrestr gliriach sy'n haws ei deall; gallu gweithredu'n gyflymach i amddiffyn y cyhoedd os na all rhywun fodloni'r safonau hyfedredd ac ymddygiad gofynnol, a sicrwydd ansawdd addysg cryfach a mwy cymesur.

Rhaid i ni fod yn **sefydliad sy'n addas ar gyfer y dyfodol** gyda'r galluoedd, y prosesau a'r adnoddau cywir yn eu lle i gyflawni ein huchelgeisiau o ddiogelu'r cyhoedd a gwella iechyd a llesiant pawb drwy gefnogi gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r camau rydym wedi'u cymryd i wella'r ffordd rydym yn gweithio, tra'n cadw mewn cof ein bod yn gwario arian mor effeithiol â phosibl.

Yn tanlinellu hyn oll mae ein huchelgais i fabwysiadu ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ym mhopeth a wnawn. Y llynedd fe wnaethom gymryd camau i symud ymlaen yn fwy arwyddocaol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) o fewn ein sefydliad ein hunain, gan gynnwys cyhoeddi ein cynllun EDI ac ymchwil Uchelgeisiol dros Newid. Drwy fynd i'r afael â'r heriau hyn yn fewnol, rydym yn gallu defnyddio ein rôl arwain a'n pwerau rheoleiddio yn well i fynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghydraddoldeb yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, sydd yn ei dro yn effeithio'n negyddol ar ganlyniadau iechyd pobl a chymunedau.

Diolch i bawb a helpodd i gyflawni popeth a gyflawnwyd gennym y llynedd, gan gynnwys cydweithwyr, aelodau'r Cyngor, gweithwyr proffesiynol cofrestredig, partneriaid, a'n Fforwm Llais y Cyhoedd, am eu ffocws di-baid ar sicrhau'r gofal diogel, effeithiol a charedig y mae gan bawb hawl disgwyl ei gael.

Syr David Warren

Cadeirydd
10 Gorffennaf
2023

Andrea Sutcliffe

Prif Weithredwr
a Chofrestrydd
10 Gorffennaf
2023

Ein rôl

Ni yw'r rheolydd annibynnol ar gyfer nyrsys a bydwagedd yn y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr.

Mae ein hamcanion wedi'u nodi yng Ngorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (fel y'i diwygiwyd).

Nod trosfwaol y Cyngor yw diogelu'r cyhoedd drwy:

- a. diogelu, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a llesiant y cyhoedd
- b. hybu a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau a reoleiddir o dan y Gorchymyn
- c. hybu a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau'r proffesiwn hwnnw.

Ein cyfrifoldebau rheoleiddio yw:

- **cynnal y gofrestr** o nyrsys a bydwagedd sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer cofrestru yn y DU, a chymdeithion nyrsio sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer cofrestru yn Lloegr
- gosod y **gofynion ar gyfer yr addysg broffesiynol** sy'n cefnogi pobl i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen i gael mynediad i'n cofrestr, neu anodi arni

- llunio arfer y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr drwy **ddatblygu a hyrwyddo safonau** gan gynnwys ein Cod, a hyrwyddo dysgu gydol oes drwy ailddilysu
- **ymchwilio ac, os oes angen, cymryd camau** pan godir pryderon difrifol am addasrwydd nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i ymarfer.

Ein corff llywodraethu yw ein Cyngor, sy'n cynnwys chwe pherson lleyg a chwe gweithiwr proffesiynol ar ein cofrestr. Mae ein gwaith yn cael ei oruchwylio gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n adolygu gwaith rheolyddion proffesiynau iechyd a gofal. Rydym yn atebol i'r Senedd drwy'r Cyfrin Gyngor. Rydym hefyd yn elusen gofrestredig ac yn ceisio sicrhau bod ein holl waith yn darparu budd cyhoeddus.

Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb. Fel rheoleiddiwr annibynnol dros 788,000 o weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu hyn

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Yn gyntaf, rydym yn hyrwyddo safonau addysg a phroffesiynol uchel ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Yn ail, rydym yn cynnal y gofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, rydym yn ymchwilio i bryderon am nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio - rhywbeth sy'n effeithio ar leiafrif bach iawn o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn. Rydym yn credu mewn ystyried y cyd-destun y mae digwyddiadau yn digwydd ynddo a rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â phryderon, ond byddwn bob amser yn cymryd camau pan fo angen.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau ac arweiniad sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaeoddd pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau ymarferol a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydym hefyd yn cefnogi pobl sy'n ymwneud â'n hymchwiliadau, ac rydym yn cynyddu ein hamlygrwydd fel bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u grymuso i lunio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn ein galluogi i **ddylanwadu** ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi cynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydym yn defnyddio ein llais i siarad i fyny dros amgylchedd gwaith iach a chynhwysol ar gyfer ein proffesiynau.

Mae ein pum thema strategol yn arwain sut rydym yn blaenoriaethu ac yn cyflwyno ein gwaith fesul cam, yn ogystal â buddsoddiad newydd mewn pobl ac adnoddau eraill. Nhw yw:

1. Gwella ac arloesi
2. Cymorth ragweithiol i'n proffesiynau
3. Yn fwy gweladwy ac yn fwy gwybodus
4. Ymgysylltu a grymuso'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a phartneriaid
5. Mwy o fewnwelediad a dylanwad

Yn sail i'r themâu hyn, ein nod yw alinio ein galluoedd, ein seilwaith a'n diwylliant i ddod yn sefydliad sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

Mae ein gwerthoedd yn sail i bopeth a wnawn. Maen nhw'n llunio sut rydym yn meddwl ac yn gweithredu.

Rydym yn deg

Rydym yn trin pawb yn deg. Mae tegwch wrth wraidd ein rôl fel rheoleiddiwr a chyflogwr tryloyw y gellir ymddiried ynddo.

Rydym yn garedig

Rydym yn ymddwyn yn garedig ac mewn ffordd sy'n gwerthfawrogi pobl, eu mewnwelediadau, eu sefyllfaoedd a'u profiadau.

Rydym yn gydweithredol

Rydym yn gwerthfawrogi ein perthnasoedd (o fewn a thu allan i'r NMC) ac yn cydnabod ein bod ar ein gorau pan fyddwn yn gweithio'n dda gydag eraill.

Rydym yn uchelgeisiol

Rydym yn ymfalchïo yn ein gwaith. Rydym yn agored i ffyrdd newydd o weithio a byddwn bob amser yn ceisio gwneud ein gorau dros y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, y cyhoedd a wasanaethwn a'n gilydd.

Ein strategaeth ar dudalen

Diben

Hyrwyddo a chynnal safonau proffesiynol uchel mewn nyrsio a bydwreigiaeth - diogelu'r cyhoedd, ennyn hyder y cyhoedd.

Gweledigaeth

Nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig, gan wella iechyd a llesiant pawb.

Ein rôl 2020-25

Rheoleiddio

- **Cofrestr** gywir a thryloyw
- **Safonau** addysg proffesiynol cadarn
- Sicrhau **rhaglenni addysg**
- Ymateb yn deg i **bryderon addasrwydd i ymarfer (FtP)**.

Cefnogi

- Hyrwyddo **dealltwriaeth** - ein proffesiynau a'n rôl
- Darparwch **offer ymarferol** - helpu i ymwreiddio safonau
- Cymorth **emosiynol/ymarferol** - pobl sy'n ymwneud â'n prosesau.

Dylanwadu

- Hyrwyddo **amgylcheddau gwaith proffesiynol** cadarnhaol a chynhwysol
- Rhannu **data a mewnwelediad** i nodi risgiau o niwed a mynd i'r afael â heriau'r gweithlu
- Annog **arloesi rheoleiddiol**.

Gwerthoedd

Teg Caredig Cydweithredol Uchelgeisiol

Themâu 2020-25

Gwella ac arloesi | Cymorth ragweithiol
Gweladwy a mwy gwybodus | Ymgysylltu
a grymuso | Mewnwelediad a dylanwad

Adolygiad perfformiad 2022-2023

Mae ein cynllun corfforaethol ar gyfer 2022-2025 yn nodi 22 o ymrwymadau a fydd yn ein helpu i wireddu ein gweledigaeth o ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, caredig ac effeithiol sy'n gwella iechyd a llesiant pawb. Ar y tudalennau canlynol rydym yn adrodd ar ein cynnydd yn ôl yr ymrwymadau hyn yn ystod 2022-2023.



Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Mae gennym gyfrifoldeb fel rheoleiddiwr a chyflogwr i wneud popeth o fewn ein gallu i fynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghydraddoldeb ac i hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant. Mae ein cynllun EDI 2022-2025 yn nodi sut y byddwn yn integreiddio EDI ar draws ein holl waith i ddarparu profiadau a chanlyniadau tecach i'n cydweithwyr, y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr a'r cyhoedd y maent yn eu gwasanaethu.

Fe wnaethom ddechrau gweithredu ein cynllun EDI ym mis Mai 2022. Gan fod ein gweithgarwch EDI wedi'i ymwreiddio ar draws ein holl waith, mae cynnydd wedi'i integreiddio drwy'r adroddiad ac wedi'i nodi yn y blychau hyn.

Cynnal cofrestr gywir a sicrhau addasrwydd i ymarfer


Ein cofrestr

Er mwyn ymarfer fel nyrs neu fydwraig yn y DU, neu gydymaith nyrsio yn Lloegr, rhaid i weithwyr proffesiynol ymuno â'n cofrestr. Mae hyn yn amddiffyn y cyhoedd trwy sicrhau mai dim ond y rhai sy'n gallu arddangos ein safonau ar gyfer gofal diogel, caredig ac effeithiol sy'n gallu ymarfer.

Ar 31 Mawrth 2023, nifer y nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio ar y gofrestr barhaol oedd 788,638. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 4 y cant (cyfaint 30,351) ers mis Mawrth 2022, a dyma'r nifer uchaf erioed o weithwyr proffesiynol ar ein cofrestr.

Rydym yn adolygu ansawdd a chynnwys ein data a'n gwybodaeth yn barhaus. Pan fydd data gwell neu wybodaeth ychwanegol ar gael, byddwn yn diweddarau ein gwybodaeth a gyhoeddwyd yn flaenorol yn ôl-weithredol. Mae hyn yn golygu, wrth gymharu data yn ein hadroddiadau diweddaraf yn ôl rhai o'n cyhoeddiadau blaenorol, efallai y byddwch yn gweld newidiadau bach mewn rhywfaint o ddata.

Nifer y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr barhaol yn ôl math o gofrestriad ar 31 Mawrth 2023



 Cyfanswm y gofrestr **788,638**

Nifer y gweithwyr proffesiynol cofrestredig yn ôl gwlad neu ranbarth y cofrestriad cychwynnol ar 31 Mawrth 2023



Undeb Ewropeaidd/
Ardal Economaidd Ewropeaidd 

28,082

Y tu allan i'r DU/UE/AEE 

136,116

 Cyfanswm y gofrestr **788,638**

Yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2023, ymunodd 52,148 o weithwyr proffesiynol â'r gofrestr barhaol am y tro cyntaf, i fyny o 48,430 yn 2021-2022. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai hyn a oedd yn ymuno am y tro cyntaf (ychydig dros hanner) wedi'u hyfforddi yn y DU ac ychydig llai na hanner wedi'u hyfforddi y tu allan i'r DU.

- Hyfforddodd 27,142 yn y DU (2021-2022: 25,024).
- Hyfforddodd 651 yn yr Undeb Ewropeaidd/Ardal Economaidd Ewropeaidd (UE/AEE) (2021-2022: 680).
- Hyfforddodd 24,355 y tu allan i'r DU neu'r UE/AEE (2021-2022: 22,726).

Roedd nifer y bobl a adawodd y gofrestr yn llai o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda 26,755 o weithwyr proffesiynol yn gadael yn 2022-2023, o gymharu â 27,133 o weithwyr proffesiynol yn 2021-2022. Rydym yn cyhoeddi adroddiad data cofrestru ar **ein gwefan**, sy'n cynnwys mwy o ddata am gyfansoddiad y gofrestr.

Mae ein prosesau cofrestru'n sicrhau y gall gweithwyr proffesiynol ddarparu gofal diogel, caredig ac effeithiol pan ydynt yn ymuno â'n cofrestr. Rhaid i'r prosesau hyn fod yn gymesur ac yn effeithlon er mwyn sicrhau bod pawb sy'n gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol yn gallu ymuno â'n cofrestr mewn modd amserol. Ar adeg pan fo'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol dan bwysau sylweddol mae hynny wedi bod yn bwysicach nag erioed. Mae ein perfformiad cofrestru cryf yn 2022-2023 wedi cefnogi'r nod hwnnw.

- Cwblhawyd 99 y cant (2021-2022: 99.6 y cant) o geisiadau cofrestru cychwynol y DU o fewn un diwrnod, gan ragori ar ein targed o 97 y cant.

- Lle mae pryder wedi'i godi, mae rhai ceisiadau'n cymryd mwy o amser i'w prosesu. Ein targed yw cwblhau 95 y cant o'r achosion hyn o fewn 60 diwrnod, yn 2022-2023 fe wnaethom fethu'r targed hwn o drwch blewyn gyda 94.5 y cant (2021-2022: 96.2 y cant).
- Cwblhawyd 99.9 y cant o geisiadau cofrestru rhyngwladol (gan weithwyr proffesiynol a hyfforddwyd y tu allan i'r DU) o fewn ein nod o 30 diwrnod, gan ragori ar ein targed o 90 y cant (2021-2022: 99.7 y cant o fewn 30 diwrnod).

Ymrwymiad corfforaethol:

Cau cofrestr brys Covid-19

Ym mis Mawrth 2020, fe wnaethom greu cofrestr dros dro yn cynnwys grwpiau o weithwyr proffesiynol yr oeddem yn eu hystyried yn addas, yn briodol ac yn brofiadol i weithio i gefnogi argyfwng Covid-19. Ym mis Medi 2022, gofynnodd y Llywodraeth i ni gadw'r gofrestr dros dro ar agor am ddwy flynedd arall i helpu i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o ofal dewisol Covid-19. Mewn ymateb, fe wnaethom adolygu ein trefniadau a gwneud newidiadau i sicrhau ein bod yn cynnal y gofrestr yn ddiogel ac yn deg. Mae hyn er mwyn sicrhau bod pobl yn parhau i dderbyn gofal o ansawdd uchel a bod gweithwyr proffesiynol yn gallu diweddarau eu sgiliau a'u gwybodaeth. Mae rhagor o wybodaeth am yr amodau ar gael ar ein **gwefan**.

Fe wnaethom gysylltu â'r holl weithwyr proffesiynol ar y gofrestr dros dro ym mis Chwefror 2023 fel rhan o'r gwaith o roi'r newidiadau ar waith, a ddaeth wedyn i rym ar 21 Mawrth 2023. Fe wnaethom egluro'r holl amodau ar gyfer parhau i aros ar y gofrestr dros dro a chafodd gweithwyr proffesiynol eu tynnu oddi ar y gofrestr dros dro os yn briodol.

O ganlyniad i'r newidiadau, ar 21 Mawrth, tynnwyd 10,379 o weithwyr proffesiynol o'r gofrestr dros dro nad oeddent yn ymarfer neu nad oeddent yn symud ymlaen â'u cais i ymuno â'r gofrestr o'r tu allan i'r DU. Roedd hyn yn golygu bod 2,030 o weithwyr proffesiynol yn aros ar y gofrestr dros dro ar y dyddiad hwnnw.

Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan 1,992 o weithwyr proffesiynol gofrestrriad dros dro. O'r rhain, roedd 1,820 yn nyrsys, 137 yn fydwragedd a 35 wedi'u cofrestru'n ddeuol. Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb ar y gofrestr dros dro am eu cyfraniadau amhrisiadwy. Rydym yn parhau i annog gweithwyr proffesiynol ar y gofrestr dros dro i ymuno â'r gofrestr barhaol.

Ymrwymiad corfforaethol:

Cynyddu gallu profi OSCE ac archwilio opsiynau ar gyfer modelau darparu amgen

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â heriau'r gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth yn y DU, mae cyflogwyr iechyd a gofal yn parhau i ganolbwyntio ar recriwtio gweithwyr proffesiynol nyrsio a bydwreigiaeth o'r tu allan i'r DU. Mae hyn yn golygu bod mwy o weithwyr proffesiynol sydd wedi hyfforddi y tu allan i'r DU yn gwneud cais i ymuno â'n cofrestr o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Fel rhan o'r broses ymgeisio, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu darparu gofal diogel, caredig ac effeithiol, rydym yn asesu eu sgiliau a'u gwybodaeth drwy ein Prawf Cymhwysedd dwy ran. Mae'r prawf hwn hefyd yn cael ei sefyll gan y rhai sy'n dymuno ailymuno â'n cofrestr ar ôl cyfnod hir i ffwrdd o ymarfer. Mae adborth trwy gydol y flwyddyn am ansawdd y Prawf ac am y deunyddiau paratoadol ategol rydym wedi'u darparu wedi bod yn gadarnhaol.

Er mwyn sicrhau y gallem fodloni'r galw cynyddol, a helpu mwy o weithwyr proffesiynol i ymuno â'n cofrestr yn gyflym ac yn ddiogel, fe wnaethom weithio gyda'n pum partner cyflawni i gynyddu capasiti elfen ymarferol y prawf, a elwir yn archwiliad clinigol strwythuredig gwrthrychol (OSCE).

Cymerwyd 46,940 o OSCEs yn 2022-2023 o gymharu â 29,687 yn y flwyddyn flaenorol, gan gwmpasu pob maes nyrsio a bydwreigiaeth. Mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o 3,911 y mis o gymharu â 2,474 y mis ar gyfer 2021-2022 (pan nad oedd ond tair canolfan OSCE).

Er mwyn helpu i fonitro gweithgarwch recriwtio a sicrhau ein bod yn cynyddu capasiti mor effeithiol â phosibl, rydym yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol, megis yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, GIG Lloegr a Gwella, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, yn ogystal â gwrando ar adborth gan gyflogwyr ac ymgeiswyr. Ers i ganolfannau OSCE Leeds a Northumbria agor yn 2022, rydym wedi eu helpu i sefydlu a chynyddu eu gallu i brofi. Byddwn yn parhau i gynyddu capasiti profi o fis

Fe wnaethom hefyd ymrwymo i archwilio modelau darparu amgen yn ystod 2022-2023. Bydd hwn yn gyfle pwysig a fydd yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol o amser ac adnoddau. Fel rhan o flaenoriaethu busnes, fe wnaethom benderfynu ei fod yn well canolbwyntio adnoddau ar wella ein model cyflawni presennol, a fydd yn dod â buddion mwy di-oed, uniongyrchol ac arwyddocaol i ymgeiswyr, cyflogwyr, ac yn y pen draw, y cyhoedd y maent yn gofalu amdanynt.

Pryderon ynghylch y prawf cyfrifiadurol

Mae'r prawf cyfrifiadurol yn ffurfio rhan gyntaf y prawf cymhwysedd dwy ran a gymerir gan weithwyr proffesiynol a hyfforddwyd yn rhyngwladol (yr ail ran yw'r OSCE). Mae'r CBT fel arfer yn cael ei sefyll yng ngwlad enedigol yr ymgeisydd. Mae sefydliad o'r enw Pearson VUE yn gweithredu'r rhaglen CBT ar ran yr NMC. Ar ddiwedd 2022-2023, fe wnaethon nhw ein rhybuddio am ddata afreolaidd yn un o'i ganolfannau prawf y mae trydydd parti yn berchen arno ac yn ei weithredu (Yunnik Technologies Ltd) yn Ibadan, Nigeria.

Rhoddodd Pearson VUE y gorau i brofi yn y ganolfan hon ar unwaith.

Agorodd y ganolfan brawf yn 2019 ac mae cyfanswm o 1969 o bobl wedi sefyll un prawf CBT neu fwy yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae 513 o bobl ar ein cofrestr (tua phump y cant o'r holl weithwyr proffesiynol ar ein cofrestr a gymhwysodd yn Nigeria) tra bod y bobl sy'n weddill ar gamau amrywiol o'n proses ymgeisio, gan gynnwys rhai sydd bellach yn byw yn y DU.

Rydym wedi hysbysu'r 513 o bobl ar ein cofrestr ein bod wedi agor achosion mewn perthynas â nhw i ystyried a allai fod honiad bod eu cofnod ar y gofrestr yn dwyllodrus neu'n anghywir. Rydym hefyd wedi ysgrifennu at dros 1,400 o bobl yn y broses ymgeisio nad ydynt eto ar ein cofrestr i egluro ein bod yn ymchwilio i'w profion. Ni fydd y grŵp hwn o ymgeiswyr yn gallu ymuno â'r gofrestr hyd nes y byddwn wedi cynnal dadansoddiad pellach o'r sefyllfa.

Er mwyn sicrhau ein bod yn dod i gasgliadau rhesymol a gwrthrychol, rydym wedi penodi arbenigwr data annibynnol i ddarparu dadansoddi a chraffu pellach i ni o'r data sy'n ymwneud â phrofion a gynhaliwyd yng nghanolfan brawf Yunnik Technologies.

Mae'n bwysig nodi, ar adeg ysgrifennu nad ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch unrhyw un a safodd eu prawf yng nghanolfan brawf Yunnik Technologies.

Ein prif bryder yw cynnal cywirdeb y gofrestr er mwyn amddiffyn y cyhoedd. Ar yr un pryd, mae'n hollbwysig ein bod yn ymdrin ag unrhyw ymchwiliadau am unigolion yn wrthrychol ac yn dryloyw, gan osgoi unrhyw wahaniaethu annheg.

After careful consideration and to ensure the future integrity of the CBT test, we have also suspended testing at all Pearson VUE PVTTC test sites globally, due to lower levels of security controls at this type of test centre. This suspension will remain in place unless and until we can be satisfied that controls can be strengthened to a sufficient level. This decision affects 49 test centres. Testing remains available at 746 Pearson VUE PPC and PVTTC Select test centres globally.

Rydym yn ymwybodol bod nyrsys a bydwragedd o dramor a nyrsys a bydwragedd du yn aml yn wynebu hiliaeth, gwahaniaethu a rhagfarn yn eu gweithle ac mewn cymdeithas. Er bod y mater hwn yn effeithio ar nifer fach o nyrsys a bydwragedd ar ein cofrestr, rydym yn pryderu y gallai'r ffordd y gall eu cydweithwyr a'r cyhoedd ymateb i'r digwyddiad hwn effeithio ar lawer mwy. Rydym yn ymgysylltu â gwasanaethau iechyd a gofal, cyflogwyr, undebau llafur, Cymdeithas Elusennol Nyrsys Nigeria a grwpiau a rhwydweithiau eraill i sicrhau bod pobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Ar ôl ystyried yn ofalus ac i sicrhau cywirdeb y prawf CBT wrth symud ymlaen, rydym hefyd wedi atal profion yn holl safleoedd prawf PVTTC Pearson VUE yn fyd-eang, oherwydd lefelau is o reolaethau diogelwch yn y math hwn o ganolfan prawf. Bydd yr ataliad hwn yn parhau yn ei le oni bai a hyd nes y gallwn fod yn fodlon y gellir cryfhau rheolaethau i lefel ddigonol. Mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar 49 o ganolfannau prawf. Mae profion ar gael o hyd yn 746 o ganolfannau prawf Pearson VUE PPC a PVTTC Select yn fyd-eang.

Rydym yn gweithio'n agos gyda Pearson VUE i roi rheolaethau monitro ychwanegol ar waith gan gynnwys dadansoddi ac adrodd parhaus ynghylch data fforensig.

Ymrwymiad corfforaethol:

Adolygu ein gofynion iaith Saesneg

Mae cyfathrebu clir ac effeithiol yn allweddol i sicrhau gofal diogel, caredig ac effeithiol i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n hanfodol felly bod pawb sy'n ymuno â'n cofrestr yn gallu dangos sgiliau iaith Saesneg da. Mae'n rhaid i'n proses ar gyfer asesu cymhwysedd fod yn deg ac yn gymesur, fel bod pawb sy'n gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol yn gallu ymuno â'n cofrestr os dymunant, ni waeth ble y cawsant eu hyfforddi na sut y daethant yn gymwys yn y Saesneg.

Yn dilyn ymgynghoriad helaeth ar ein gofynion iaith Saesneg yn ystod haf 2022, cyflwynwyd newidiadau gennym o 8 Chwefror 2023 fel bod ein prosesau mor deg a chymesur â phosibl a bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn hyderus y byddant yn derbyn gofal diogel, caredig ac effeithiol. Mae manylion y newidiadau a wnaethom i'w gweld **yma**.

Mae'r arwyddion cynnar yn dangos bod y newidiadau hyn yn cael effaith gadarnhaol a byddwn yn adrodd i'n Cyngor ym mis Mawrth 2024 ar effaith lawn y newidiadau.



Asesiad o effaith ein gofynion iaith Saesneg ar gydraddoldeb

Fe wnaethom gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i werthuso effaith ein gofynion iaith Saesneg a newidiadau polisi arfaethedig ar wahanol grwpiau. Datblygwyd hwn mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol rhyngwladol ac ymgeiswyr.

Ni welsom dystiolaeth bod ein gofynion wedi cael unrhyw effaith negyddol anghymesur ar unrhyw grŵp. Fe ganfuom eu bod yn fodd cymesur o gael sicrwydd bod pawb sy'n ymuno â'r gofrestr yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn Saesneg. Fe ganfuom hefyd fod y newidiadau i'n gofynion yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol ar ymgeiswyr, yn arbennig y rheini o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sy'n ffurfio cyfran sylweddol o ymgeiswyr rhyngwladol ac sy'n fwy tebygol o fod wedi hyfforddi yn Saesneg mewn gwledydd lle nad yw Saesneg yn cael eisiarad gan y mfwyafrif.

Nid yw asesu effaith yn dod i ben gyda chyflwyniad y newidiadau polisi. Rydym wedi ymrwmo i fonitro effaith y rhain wrth iddynt gael eu gweithredu a byddwn yn defnyddio'r data hyn i ailedrych ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'i adolygu.

Ein canolfan gyswllt

Mae ein canolfan gyswllt yn cefnogi nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ag ymholiadau sydd ganddynt am eu cofrestriad, gan helpu pobl i ymuno, ail-ymuno neu aros ar y gofrestr yn gyflymach ac yn fwy effeithlon. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod gennym gofrestr gyfredol o weithwyr proffesiynol a fydd yn darparu gofal diogel, caredig ac effeithiol i bobl a'u teuluoedd.

Ym mis Rhagfyr 2022, fe wnaethom lansio llinell gymorth atgyfeirio newydd i gefnogi pobl â phryder ynghylch addasrwydd i ymarfer. Mae ein hymdrinwyr galwadau ymroddedig yn gwrandao ar bobl, ac yn helpu i egluro mwy am bwy ydym ni, sut y gallwn helpu ac yn bwysicaf oll, pa gymorth y gallwn ei gynnig. Os yw rhywun yn barod i wneud atgyfeiriad, gallwn wedyn eu harwain i roi popeth sydd ei angen arnom i wneud y penderfyniad cywir mor gyflym a diogel â phosibl.

Ystadegau ein canolfan gyswllt ar gyfer 2022-2023

190,754

Galwadau a dderbyniwyd

Derbyniwyd 190,754 o alwadau yn ystod 2022-2023 (217,373 yn 2021-2022).

93.5%

Galwadau wedi'u hateb

Yn 2022-2023 fe wnaethom ateb 93.5 y cant o alwadau (2021-2022: 88 y cant), gan ragori ar ein targed o 90 y cant.

Mae'r gostyngiad hwn mewn galwadau a negeseuon e-bost o gymharu â 2021-2022 i'w briodoli i:

- llacio'r pandemig Covid-19: yn flaenorol roedd hyn wedi arwain at lefelau uwch o gyswllt oherwydd ymholiadau am newidiadau i'n prosesau, megis creu'r gofrestr dros dro ac estyniadau ail-ddilysu
- y gwelliannau i'n prosesau cofrestru a'r wybodaeth ar ein gwefan, sy'n golygu bod llai o angen i bobl gysylltu â ni.

53,814

Ymatebion e-bost

Ymatebwyd i 53,814 o negeseuon e-bost yn ystod 2022-2023 (57,490 yn 2021-2022).

3.9

Dyddiau i ymateb i e-byst

Yr amser ymateb cyfartalog i e-byst oedd 3.9 diwrnod gwaith (4.7 diwrnod gwaith yn 2021-2022).

96%

Adroddodd ymatebwyr yr arolwg garedigrwyd

Ar gyfartaledd ar gyfer y flwyddyn, dywedodd 96 y cant o'r bobl a gysylltodd â'r ganolfan gyswllt ac a atebodd ein harolwg ein bod yn eu trin yn garedig. Mae hwn yn fesur newydd a gyflwynwyd gennym ar gyfer 2022-2023.

Ail-ddilysu

Mae pob gweithiwr proffesiynol ar ein cofrestr yn arddangos eu bod yn parhau i fod yn ddiogel ac yn effeithiol i ymarfer trwy ailddilysu bob tair blynedd. Mae ailddilysu yn hyrwyddo dysgu gydol oes drwy ei gwneud yn ofynnol i weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol fyfyrion ar eu hymarfer a sut mae'r Cod yn berthnasol i'w gwaith. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y gofal y maent yn ei ddarparu i bobl a'u teuluoedd yn parhau i ddatblygu a chryfhau trwy gydol gyrfa gweithiwr proffesiynol. I gefnogi gweithwyr proffesiynol, ym mis Tachwedd 2022, fe wnaethom ysgrifennu at yr holl weithwyr proffesiynol ar ein cofrestr i'w hatgoffa bod angen ystyried ein safonau hyfedredd wedi'u diweddarau wrth ailddilysu.

Mae gwelliannau rydym wedi'u gwneud yn golygu y gallwn eleni, am y tro cyntaf, adrodd ar nifer y gweithwyr proffesiynol a ail-ddilysodd ar ôl eu dyddiad dyledus, er enghraifft i gynnwys y rhai y rhoddwyd estyniad iddynt. Mae hyn yn golygu bod y cyfraddau ail-ddilysu a adroddwn yn adlewyrchiad cywirach o'r gweithwyr proffesiynol a lwyddodd i ail-ddilysu yn ystod y flwyddyn, oherwydd o'r blaen, ni chafodd y rhai a ail-ddilyswyd gydag estyniad eu cynnwys yn ein ffigurau.

Yn 2022-2023, ail-ddilyswyd 227,351 o weithwyr proffesiynol yn llwyddiannus ac mae hyn yn cyfateb i gyfradd ail-ddilysu o 94 y cant. Mae hyn yn uwch na mewn blynyddoedd blaenorol, lle'r oedd pwysau'r pandemig Covid-19 yn golygu bod angen cymorth ychwanegol ar rai gweithwyr proffesiynol i gwblhau eu hailddilysu, a gwelsom gyfraddau o 89.6 y cant yn 2021-2022 ac 80.7 y cant yn 2020-2021. Mae ffigurau eleni yn dod â chyfraddau ailddilysu yn ôl yn unol â lefelau cyn-bandemig (lle roedd y gyfradd yn amrywio rhwng 92 a 94 y cant).

Gan edrych ar draws y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth a hefyd ar draws pedair gwlad y DU, roedd cyfraddau ailddilysu yn gyson.

Ceir rhagor o ddata ailddilysu a thueddiadau yn ein hadroddiad data Ailddilysu a thablau data ar wahân ar gyfer 2022-2023.

Addasrwydd i ymarfer

Un ffordd rydym yn rheoleiddio gweithwyr proffesiynol ac yn cynnal diogelwch y cyhoedd yw ymchwilio i bryderon am nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio - rhywbeth sy'n effeithio ar leiafrif bach iawn o'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr bob blwyddyn. Rydym yn pennu a yw eu sgiliau, eu gwybodaeth, eu haddysg neu eu hymddygiad yn disgyn islaw'r safonau sydd eu hangen i ddarparu gofal diogel, effeithiol a charedig. Os ydynt, yna byddwn yn cymryd camau i gadw'r cyhoedd yn ddiogel ac atal rhywbeth rhag mynd o'i le eto.

Byddwn bob amser yn cymryd camau os oes angen (gan gynnwys tynnu pobl oddi ar ein cofrestr yn yr achosion mwyaf difrifol). Ond y rhan fwyaf o'r amser y ffordd orau o gadw pobl yn ddiogel yw dysgu o ddigwyddiadau ac atal pethau tebyg rhag digwydd eto yn y dyfodol.

Wrth benderfynu a oes risg, rydym yn ystyried y cyd-destun y digwyddodd digwyddiad ynddo, ac unrhyw gamau y gallai gweithwyr proffesiynol fod wedi'u cymryd i gryfhau eu hymarfer ers i'r digwyddiad ddigwydd.

Rydym yn gweithredu proses sy'n caniatáu i bobl ddweud wrthym beth ddigwyddodd ar unwaith ac sy'n annog gweithwyr proffesiynol, aelodau'r cyhoedd a sefydliadau cyflogi i ymgysylltu â ni i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y penderfyniadau cywir cyn gynted â phosibl.

Addaswydd i ymarfer mewn niferoedd: 2022-2023

Sgrinio

Pan ydym yn derbyn pryderon am addaswydd rhywun i ymarfer, rydym yn gwirio a ydynt ar ein cofrestr ac yn asesu a oes angen ymchwiliad llawn i'r pryderon.

Cawsom
5,068
bryderon newydd
(2021-2022: 5,291)

Fe ddaethom i
benderfyniadau ar
6,131
achosion
(2021-2022: 4,923)

Penderfynasom
1,492
achosion gofynnol
ymchwiliad llawn
(2021-2022: 1,080)

Penderfynnem
4,639
nid oedd angen achosion
ymchwiliad llawn
(2021-2022: 3,843)

Gorchmynion interim

Lle bo angen, ar unrhyw adeg, gall paneli Addaswydd i Ymarfer gymryd camau brys, dros dro i ddiogelu'r cyhoedd wrth i ni ymchwilio i'r pryderon a godwyd. Gosodwyd.

Fe wnaeth
paneli
Addaswydd i
Ymarfer orfodi:

Gorchmynion
atal dros dro
interim mewn
324
achosion
(2021-2022: 240)

Gorchmynion
amodau
ymarfer
interim mewn
364
achosion
(2021-2022: 264)

Archwilwyr achos

Lle bo angen, rydym yn ymchwilio'n llawn i'r pryderon a godir am addaswydd rhywun i ymarfer.

Ar ddiwedd yr ymchwiliad bydd ein harchwilwyr achos yn penderfynu a oes angen unrhyw gamau nesaf i amddiffyn y cyhoedd. Gall archwilwyr achos benderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau pellach os byddant yn dod i'r casgliad nad oes angen camau rheoleiddio ar gyfer y pryderon neu os yw'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi cymryd camau digonol i wella eu hymarfer.

Cwblhawyd
1,210
ymchwiliadau
(2021-2022: 1,582)

Penderfynodd
ein harchwilwyr
achos:

Peidio â
chymryd
unrhyw gamau
pellach mewn
411
achosion
(2021-2022: 739)

Rhoi cyngor, rhoi
rhybudd, neu gytuno
ar ymrwymadau yn
133
achosion
(2021-2022: 102)

Cyfeirio
666
achosion
am feirniadaeth
(2021-2022: 741)

Dyfarnu

Ar ôl ymchwiliad llawn ac os bydd archwilwyr achos yn penderfynu bod achos i'w ateb, caiff achosion eu hadolygu wedyn gan banel Addaswydd i Ymarfer mewn cyfarfod neu wrandawriad. Mae gan paneli amrywiaeth o benderfyniadau y gallant eu gwneud i amddiffyn y cyhoedd.

Fe wnaeth paneli
Addaswydd i Ymarfer
553
benderfyniadau
(2021-2022: 414)
lle penderfynon
nhw:

Tynnwch y person
o y gofrestr yn
191
achosion
(2021-2022: 109)

Atal y person o y gofrestr
dros dro i mewn
155 achosion
(2021-2022: 124)
Gosod amodau
o orchmynion ymarfer yn
65 achosion
(2021-2022: 61)

Cyhoeddi rhybuddion yn
31 achosion
(2021-2022: 37)
Cyhoeddiadau yn
108 achosion
(2021-2022: 83)
Arhosodd y symud ymlaen i mewn
3 achosion
(2021-2022: 0)

Mae atal achos yn bŵer prin a ddefnyddir gan y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer mewn amgylchiadau eithriadol, lle mae'n penderfynu y byddai caniatáu i achos barhau yn gyfystyr â chamddefnydd o'r broses ac y byddai'n annheg ar y gweithwyr proffesiynol dan sylw. Roedd yr achosion a ataliwyd a nodir yma yn ymwneud ag achosion cysylltiedig.

Fel ffordd arall o ddod ag achosion i ben, mewn amgylchiadau arbennig, gall gweithwyr proffesiynol wneud cais i dynnu eu henw o'r gofrestr yn wirfoddol heb i banel adolygu eu hachos. Yn 2022-2023 caniatawyd 60 o geisiadau dileu gwirfoddol (2021-2022: 46). Fe wnaethom ddiwygio'r broses dynnu'n wirfoddol ym mis Ebrill 2023 i 'dynnu yn ôl cytundeb' er mwyn creu mwy o hyblygrwydd i bobl sy'n ymwneud ag achos. Un newid yw, mewn rhai amgylchiadau, y gall gweithwyr proffesiynol nawr wneud cais i gael eu tynnu oddi ar y gofrestr ar unrhyw gam o'r broses addasrwydd i ymarfer, yn hytrach na dim ond ar ôl cam yr archwiliwr achos.

Cyhoeddir dadansoddiad ystadegol manwl o'n perfformiad yn 2022-2023 yn ein Hadroddiad Addasrwydd i Ymarfer Blynyddol.

Ymrwymiad corfforaethol:

Lleihau ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer a gwneud gwelliannau i'r ffordd rydym yn rheoleiddio.

Ers dechrau 2019-2020, rydym wedi bod yn rheoli llwyth achosion uchel, a ddyblodd o ran nifer rhwng mis Mawrth 2019 a mis Mawrth 2022. Nid cynnydd mewn atgyfeiriadau oedd i gyfrif am y cynnydd hwn, ond yn hytrach oherwydd heriau wrth symud achosion yn eu blaenau mewn modd amserol. yn rhannol oherwydd effaith y pandemig. Mae hyn wedi golygu bod pobl yn aros yn hirach i ni wneud penderfyniadau. Gwyddom yr effaith y mae hyn yn ei chael ar bobl, a dyna pam mai lleihau ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer yn ddiogel ac yn gyflym yw ein prif flaenoriaeth gorfforaethol.

Yn ystod 2022-2023, lleihawyd ein llwyth achosion o 6,469 o achosion ar 31 Mawrth 2022 i 5,577 o achosion ar ddiwedd mis Mawrth 2023. Mae hyn yn fyr o'n targed i leihau'r llwyth achosion i 5,000 erbyn mis Mawrth 2023 ond mae'n ostyngiad o 14 y cant. Er bod ein llwyth achosion yn parhau i fod yn uchel, gyda phobl yn cael eu heffeithio gan oedi, dyma'r gostyngiad parhaus cyntaf yn y llwyth achosion ers 2019, ac rydym wedi sefydlu tuedd ar i lawr yr ydym yn hyderus y byddwn yn parhau i mewn i 2023-2024.

Tabl yn dangos llwythi achosion:

Blwyddyn	Atgyfeiriadau a dderbyniwyd	Achosion a gwblhawyd	Llwyth achosion cau diwedd y flwyddyn	Newid blynyddol yn y llwyth achosion	
				Gwirioneddol	Canran
2019-2020	5,704	4,358	4,506	+1,363	+43
2020-2021	5,547	3,701	6,357	+1,851	+41
2021-2022	5,291	5,170	6,469	+112	+2
2022-2023	5,068	5,832	5,577	-892	-14

Gwelliannau a wnaethom yn ystod 2022-2023

Fe wnaethom ail-lunio ein rhaglen wella Addasrwydd i Ymarfer yn haf 2022 i ganolbwyntio ar nifer llai o newidiadau mwy effeithiol, tra'n sicrhau ein bod yn cynnal dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Fe wnaethom hefyd roi ffocws o'r newydd ar reoli achosion o ansawdd a chymorth agos i'n timau gwaith achos i'w helpu i ddatblygu achosion. Mae'r gwelliannau a amlinellir yma wedi ysgogi'r gostyngiad yn y llwyth achosion ac wedi ein gosod mewn sefyllfa i barhau i leihau'r llwyth achosion yn ddiogel ac yn gyflym yn 2023-2024.

Cam cyntaf ein proses addasrwydd i ymarfer yw Sgrinio ac ar 31 Mawrth 2022 ein llwyth achosion bryd hynny oedd 3,469, sef dros 50 y cant o gyfanswm ein llwyth achosion.

Yn haf 2022 fe wnaethom gynyddu'r gallu i wneud penderfyniadau yn ein timau sgrinio ac o ganlyniad cynyddodd ein lefelau allbwn. Roedd gweithgareddau gwella eraill yn golygu ein bod wedi gallu lleihau lefel yr adnoddau gwneud penderfyniadau ym mis Ionawr 2023 a chynnal niferoedd uchel o benderfyniadau.

O ganlyniad, roedd ein llwyth achosion sgrinio yn sefyll ar 2,341 ar 31 Mawrth 2023, gostyngiad o 33 y cant o achosion bryd hynny.

Mae diwygiadau a wnaed i'n canllawiau yn 2021-2022 bellach yn cael effaith gynyddol gadarnhaol gan ein bod yn gallu datrys mwy o achosion ar adeg sgrinio. Mae hyn yn golygu nad yw camau diweddarach y broses addasrwydd i ymarfer yn cael eu llethu o ganlyniad i'n cynhyrchiant uwch yn ystod camau cynnar ein proses.

Mae canolbwyntio ar y person yn parhau i fod yn allweddol i'n gwaith sgrinio ac ym mis Rhagfyr 2022 lanswyd ein llinell gymorth atgyfeirio fel man cyswllt cyntaf i'r rhai sydd am godi pryder gyda ni. Rydym nawr yn rhoi mwy o wybodaeth i bobl am ein proses a'r hyn rydym yn ei wneud, gyda'r nod o gael mwy o fanylion ymlaen llaw gan bobl a, lle bo'n briodol, cyfeirio pobl at sefydliadau eraill sydd mewn gwell sefyllfa i helpu.

Ar bob cam o'r broses addasrwydd i ymarfer, mae gennym bwyslais o'r newydd ar flaenoriaethu ein hachosion hynaf a'r rhai mwyaf peryglus. I gefnogi hyn, rydym wedi rhoi ystod o offer rheoli achosion rhagweithiol ar waith.

Yn ystod y cam ymchwilio, mae'r ffocws ar achosion hŷn a'r amser i ailsefydlu arferion rheoli da wedi golygu bod niferoedd allbwn wedi bod yn is.

Cam olaf ein proses yw dyfarnu ac ar 31 Mawrth 2022 ein llwyth achosion bryd hynny oedd 879, sef dros 13 y cant o'n holl achosion addasrwydd i ymarfer. Mae gwaith yn parhau i gynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein gwrandawiadau rhithwir. Dechreuon ni newid i lwyfan fideo-gynadledda gwahanol ar gyfer ein rhyngweithio â phartïon achos ac mae hyn wedi arwain at lai o oedi technegol. Mae Microsoft Teams bellach yn cael ei ddefnyddio fel mater o drefn ar gyfer gwrandawiadau nad ydynt yn rhai sylweddol, megis gwrandawiadau Gorchymyn Interim, a 'chyfarfodydd' sylweddol (penderfyniadau a wneir gan ddefnyddio papurau yn hytrach na chynnal gwrandawriad). Fe wnaethom ddechrau'r newid ar gyfer gwrandawiadau sylweddol ym mis Mawrth 2023.

Fe wnaethom gomisiynu cymorth allanol i adolygu ein ffyrdd o weithredu yn ystod y cam dyfarnu i sicrhau ein bod yn gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon, a fydd yn nodi cyfleoedd i gynyddu nifer y gwrandawiadau sy'n dod i ben y tro cyntaf. Mae cyfleoedd sylweddol i wella yma ac mae'n bwysig ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y rheini yn 2023-2024 fel nad yw ein llwyth achosion yn cynyddu ar gam olaf y broses.

O ran ein holl broses addasrwydd i ymarfer, fe wnaethom ddechrau gweithio gydag arbenigwyr allanol ym maes gwella prosesau i nodi cyfleoedd ar gyfer newid wedi'i dargedu. Ym mis Mawrth 2023 fe wnaethom ddechrau dylunio dull newydd o reoli achosion, gan ein helpu i symud i broses symlach sy'n ein galluogi i wneud y penderfyniad cywir cyn gynted â phosibl.

Ein dangosyddion perfformiad allweddol

**Cau 80 y cant o achosion o fewn 15 mis o'u derbyn:
ar gyfartaledd caewyd 61 y cant o achosion o fewn 15 mis
(2021–2022: 62 y cant).**

Ni chyflawnwyd y mesur hwn gennym yn 2022–2023. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl gweld perfformiad gwell yn y metrig hwn wrth i ni barhau i leihau ein llwyth achosion ar draws y broses ac, yn benodol, wrth sgrinio, drwy ein gwelliannau sgrinio yn 2023–2024.

**Gosod 80 y cant o orchmynion interim o fewn 28 diwrnod
o'u derbyn. Fe wnaethom orffen y flwyddyn gyda 65 y cant
o orchmynion interim wedi'u gosod o fewn 28 diwrnod
(2021–2022: 77 y cant).**

Fe wnaethom fethu'r targed hwn ar gyfer 2022–2023 oherwydd nifer o ffactorau a amlinellir isod.

- Ffocws o'r newydd wrth sgrinio ar achosion risg uwch a oedd wedi'u gohirio neu heb eu hadolygu am gyfnod o amser, yn rhannol oherwydd goruchwyliaeth annigonol gan reolwyr a phroblemau parhaus ynghylch swyddi gwag. Fe achosodd hyn i nifer o'r achosion hŷn hynny symud ymlaen, gyda gorchmynion interim yn cael eu gosod ar rai. Fodd bynnag, gosodwyd y gorchmynion interim hyn y tu allan i'n targed DPA.
- Cynnydd yn nifer y gwrandawiadau gorchymyn interim newydd yr oedd eu hangen, a oedd wedi mynd heibio i'r capasiti a oedd ar gael i ni.
- Paneli'n gohirio ceisiadau gorchymyn interim er mwyn tegwch i'r gweithiwr proffesiynol dan sylw, er mwyn caniatáu mwy o amser i'r gweithiwr proffesiynol baratoi ei achos.

Golwg ar 2023–2024

Ein ffocws ar gyfer 2023–2024 yw gwella ein perfformiad gweithredol craidd a pharhau ag ystod o fesurau i leihau'r llwyth achosion yn ddiogel, yn gyflym ac mewn ffyrdd sy'n cynyddu hyder y cyhoedd.

Erbyn 31 Mawrth 2024, byddwn yn lleihau ein llwyth achosion yn ddiogel ac yn gyflym i 4,000 o achosion drwy gyflawni'r gweithgareddau canlynol:

- datblygu ein hymagwedd at waith achos, gan gynnwys gwelliannau i oruchwyliaeth rheolwyr ac uwchgyfeirio materion sy'n achosi oedi yn rhagweithiol
- optimeiddio ein prosesau gwaith achos allweddol, gan ddefnyddio arbenigedd allanol i symleiddio a chyflymu ein gwaith tra'n cynnal ansawdd
- profi a threialu ffyrdd newydd o weithio, gan gynnwys symud tuag at gael perchnogion achosion unigol fel ein bod yn darparu gwasanaeth mwy cyson fel rhan o'n dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer ein proses addasrwydd i ymarfer.

Chwythu'r chwiban i'r NMC fel person rhagnodedig

Mae'r NMC yn 'berson rhagnodedig' yn ôl y gyfraith. Mae hyn yn golygu y gall nyrsys, bydwragedd, cymdeithion nyrsio, myfyrwyr neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n nodi camweddau yn eu gweithleoedd neu leoliadau ymarfer godi pryderon gyda ni. Mae chwythu'r chwiban yn helpu gweithle i fod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol, i allu dysgu o ddigwyddiadau, atal pryderon yn y dyfodol ac felly amddiffyn y cyhoedd.

Mae ein polisi'n nodi chwe maen prawf a ddefnyddiwn i benderfynu a ddylid ymdrin â'r wybodaeth a gawn fel chwythu'r chwiban. Yn 2022–2023 cawsom 137 o ddatgeliadau a oedd yn bodloni ein meini prawf ar gyfer datgeliadau y credwn yn rhesymol eu bod yn achosion o chwythu'r chwiban (2021–2022: 152). Y themâu mwyaf cyffredin o ddatgelu a wnaed eleni oedd: ymddygiad a thrais; diogelwch a gofal cleifion; anonestrwydd.

Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi adroddiad ar y cyd â rheoleiddwyr eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ar sut yr ymdrinir â datgeliadau chwythu'r chwiban. Mae'r adroddiad datgeliadau Chwythu'r Chwiban ar y cyd 2021–2022 i'w weld ar ein gwefan **yma**. Cyhoeddir yr adroddiad ar y cyd ar gyfer 2022–2023 yn ddiweddarach eleni.

Gwasanaethau mamolaeth

Yn ystod 2022, nododd dau adroddiad fethiannau sylweddol mewn gwasanaethau mamolaeth yn Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Amwythig a Telford ac Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Prifysgol Ysbytai Dwyrain Caint. Mae ein meddyliau gyda'r menywod, eu babanod a'u teuluoedd sydd wedi cael eu heffeithio mor ofnadwy gan y digwyddiadau ofnadwy hyn.

Yn ystod 2022-2023, fe wnaethom ystyried canfyddiadau'r adroddiadau'n ofalus iawn i weld pa gamau y mae angen i ni eu cymryd fel rheoleiddiwr bydwagedd, a lle gallwn weithio gyda rheoleiddwyr a phartneriaid eraill i wella diogelwch yr amgylcheddau y mae bydwagedd yn ymarfer ynddynt.

Cyflwynwyd safonau hyfedredd newydd ar gyfer bydwagedd gennym yn 2019. Mae'r rhain yn seiliedig ar dystiolaeth fyd-eang o arfer da ac wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â dysgu o ymchwiliadau blaenorol. Maent yn cefnogi bydwagedd i ddarparu'r gofal mwyaf diogel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i fenywod a babanod ac yn hyrwyddo gofal bydwreigiaeth barchus ac ymatebol ar gyfer ein poblogaeth amrywiol. Mae hyn yn cynnwys gwybod pan fydd pethau'n mynd o chwith a sicrhau bod y camau cywir yn cael eu cymryd mewn ymateb.

Rydym wedi adolygu ein safonau yn ôl canfyddiadau'r adroddiadau hyn ac wedi dod i'r casgliad yr aethpwyd i'r afael yn drylwyr â'r diffygion mewn gwybodaeth a sgiliau a nodwyd yn yr adroddiadau.

Byddwn yn comisiynu adolygiad allanol, annibynnol pellach o'r safonau yn dilyn cyhoeddi'r adolygiad o wasanaethau mamolaeth yn Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Prifysgol Nottingham.

Yn y cyfamser, rydym wedi parhau i gefnogi gweithwyr proffesiynol a sefydliadau i ddeall a gweithredu ein safonau fel eu bod yn gallu darparu gofal diogel ac effeithiol i fenywod, babanod a'u teuluoedd.

Rhestrir rhai enghreifftiau o waith a wnaed isod.

- Rydym wedi ysgrifennu at weithwyr proffesiynol yn amlinellu ein disgwyliadau y dylent adolygu'r safonau fel rhan o'u proses ailddilysu ac wedi mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn eu gwybodaeth fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus.
- Rydym wedi cynnal adolygiad eithriadol o'r rhaglen bydwreigiaeth yn Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Amwythig a Telford i roi sicrwydd o'r amgylchedd dysgu ymarfer i fyfyrwyr.
- Rydym wedi cynnwys safon newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr bydwreigiaeth gael profiadau lleoliadau gyda mwy nag un darparwr gwasanaethau mamolaeth er mwyn sicrhau bod bydwagedd dan hyfforddiant yn cael profiad o amrywiaeth eang o dimau a lleoliadau.

Gosod safonau addysg a phroffesiynol cadarn

Rydym yn gosod y safonau ar gyfer ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth yn y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Rydym yn adolygu ac yn cynnal y safonau hyn i sicrhau eu bod yn ei gwneud yn ofynnol i weithwyr proffesiynol ddarparu gofal diogel, caredig ac effeithiol i bobl a'u teuluoedd. Rhaid i weithwyr proffesiynol arddangos eu bod yn bodloni'r safonau hyn ar adeg mynediad i'r gofrestr, a phob tair blynedd rhaid iddynt ddangos eu bod yn parhau i'w cyrraedd drwy ailddilysu yn ôl ein safonau.

Rydym hefyd yn gosod safonau addysg, y mae'n rhaid i bob sefydliad addysg cymeradwy eu dilyn. Mae'r safonau addysg hyn yn cefnogi myfyrwyr i ennill y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu gofal diogel, caredig ac effeithiol.

Ymrwymiad corfforaethol:

Cyflwyno set newydd o safonau ôl-gofrestru uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar ymarfer nyrsio cymunedol.

Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddwyd ein safonau ôl-gofrestru newydd ar gyfer nyrsio iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol (SCPHN) a chymwysterau nyrsio cymunedol arbenigol (SPQ). Bydd y rhain yn helpu i ddarparu gofal modern, diogel, caredig ac effeithiol i bobl yn nes at eu cartrefi ac mewn cymunedau.

Mae'r safonau uchelgeisiol hyn yn gosod disgwyliadau clir o'r wybodaeth, y medrau a'r ymddygiadau sy'n ofynnol gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn rolau arbenigol yn y gymuned, fel ymwelwyr iechyd,

nyrsys ysgol a nyrsys iechyd meddwl cymunedol. Bydd y safonau'n paratoi gweithwyr proffesiynol y dyfodol â'r wybodaeth, y sgiliau a'r priodoldebau angenrheidiol i wella iechyd pobl, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ar draws y cymunedau a'r poblogaethau amrywiol y maent yn gofalu amdanynt.

Daeth y safonau i rym ar 1 Medi 2022, ac erbyn Medi 2024, rhaid i bob darparwr addysg ôl-gofrestru gael rhaglenni newydd wedi'u cymeradwyo yn ôl y safonau newydd. Er mwyn cefnogi gweithrediad effeithiol, rydym yn cysylltu â darparwyr addysg a'u partneriaid lleoliadau ymarfer ar draws pedair gwlad y DU, gan gynnwys gyda grwpiau arloeswyr prentisiaethau sy'n darparu llwybrau hyblyg i raglenni ôl-gofrestru, gan ehangu mynediad i fyfyrwyr amrywiol.

Mae'r safonau newydd uchelgeisiol hyn wedi cael derbyniad cadarnhaol, sy'n dangos cryfder ein dull cydgynhyrchu.

Gwella ac arloesi

7. Lleihau ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer a gwneud gwelliannau i'r ffordd rydym yn rheoleiddio er mwyn sicrhau ein bod yn prosesu achosion mewn modd amserol, diogel, cymesur ac effeithlon.
8. Gweithio gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gyflawni rhaglen sylweddol o ddiwygio rheoleiddiol i ddileu rhwystrau cyfreithiol sy'n cyfyngu ar welliannau yn y ffordd rydym yn rheoleiddio.
9. Mynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghydraddoldeb a hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant i wneud yn siŵr bod ein prosesau'n deg i bawb.
10. Parhau i sicrhau bod capasiti OSCE yn ateb y galw ac archwilio ffyrdd o wella mynediad.
11. Cyflawni newid polisi a deddfwriaethol er mwyn galluogi dulliau newydd o gofrestru'n rhyngwladol, gan gynnwys adolygiad pellach o ganllawiau iaith Saesneg, er mwyn sicrhau eu bod yn deg.
12. Cynnal cofrestr brys Covid-19.

Yn fwy gweladwy ac yn fwy gwybodus

13. Meithrin ymddiriedaeth mewn rheoleiddio proffesiynol drwy ymgyrchoedd wedi'u targedu i adeiladu ymwybyddiaeth o bwy ydym ni, beth rydym yn ei wneud, a beth rydym yn sefyll drosto.
14. Ehangu ein hallgymorth cenedlaethol a lleol i ymgorffori rheoleiddio, cymorth a dylanwad ar lefel leol.

Grymuso ac ymgysylltu

15. Creu gwefan fodern a hygyrch sydd yn portreadu ein gwerthoedd yn effeithiol, yn darparu ein gwasanaethau craidd, ac yn gwella ein cyfathrebu ac ymgysylltu.

Mwy o fewnwelediad a dylanwad

16. Gwella ein mewnwelediad a'i ddefnyddio i wella ein heffaith a'n dylanwad rheoleiddiol yn y sector.

Sefydliad sy'n addas ar gyfer y dyfodol

17. Cyflawni ein Cynllun Pobl sy'n cefnogi ein cydweithwyr i gael eu cynnwys, eu cadw a'u cefnogi i gyflawni ein strategaeth.
18. Gwella'r ffordd rydym wedi'n strwythuro fel y gallwn gyflawni ein strategaeth.
19. Diweddarau systemau digidol sy'n cefnogi sut rydym yn rheoleiddio i wella'r profiad i gwsmeriaid a chydweithwyr.
20. Cyflwyno TG gyfoes drwy ein rhaglen gwella technoleg a busnes craidd i wella ein heffeithlonrwydd.
21. Creu manau gwaith modern sy'n cefnogi lles a chydweithio.
22. Gweithredu cynllun cynaliadwyedd ac amgylcheddol yr NMC.

Ymrwymiad newydd ar gyfer 2023-2024

Gweithredu safonau newydd y Gymraeg.



Adolygiad Ariannol

Incwm a gwariant

Cyfanswm ein hincwm ar gyfer 2022-2023 oedd £102.9 miliwn (2021-2022: £100.4 miliwn) a chyfanswm y gwariant oedd £98.1 miliwn (2021-2022: £92.9 miliwn). Mae hyn wedi arwain at warged incwm net dros wariant o £4.8 miliwn (2021-2022: gwaged o £7.5 miliwn) cyn y golled ar ein buddsoddiadau a'r symudiad net ar yr enillion actiwaraid a'r addasiad uchafswm asedau ar y cynllun pensiwn buddion diffiniedig. Ar ôl y symudiadau hynny, arhosodd cyfanswm ein cronfeydd yr un fath â'r flwyddyn flaenorol (2021-2022: cynnydd o £7.0 miliwn).

Roeddem wedi cynllunio ar gyfer diffyg o £10.1 miliwn yn 2022-2023. Mae'r sefyllfa adennill costau yn bennaf oherwydd incwm llawer iachach a gwariant is ar draws ein busnes craidd a rhai o'n prosiectau. Roedd ein gwariant ar raglenni a phrosiectau yn is nag a ragwelwyd oherwydd amseriad cyflawni, gyda rhai costau wedi'u gohirio i'r blynyddoedd i ddod. Yn ogystal, fe wnaethom hefyd adolygu ac addasu'r cyfnod rydym yn dibrisio ein prosiectau TG drosto. Mae hyn yn golygu bod dibrisiant yr asedau mawr hyn - fel ein cofrestr a'n system rheoli achosion - yn cyfateb yn well i'w hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig. Fe wnaeth yr addasiad o dair i ddeng mlynedd leihau dibrisiant am y flwyddyn o £3.8m ond nid yw'n effeithio ar lefel ein cronfeydd rhydd neu arian parod.

Roedd incwm o ffioedd cofrestru a ffioedd ymgeisio yn £100.4 miliwn, yn unol â'n cyllideb a chynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2021-2022: £96.8 miliwn). Sbardunwyd hyn gan y ffaith bod nifer y nyrsys, bydrwagedd a chymdeithion nyrsio ar ein cofrestr barhaol wedi cynyddu 4.0

y cant, i 788,638, a chan y cynnydd mewn ceisiadau gan weithwyr proffesiynol rhyngwladol. Mae parhad y ddau gynnydd hyn yn y dyfodol yn parhau i fod yn ansicr yng nghydestun proffil oedran cynyddol ar gyfer y gofrestr a'r ansefydlogrwydd cyffredinol yn nifer y ceisiadau rhyngwladol. Ni fydd parhad y gofrestr dros dro, tan fis Medi 2024, yn effeithio ar ein hincwm ffioedd gan nad yw'r gweithwyr proffesiynol ar y gofrestr dros dro yn talu ffi.

Mae ein 'hincwm arall' yn cynnwys £0.1 miliwn (2021-2022: £0.1 miliwn) gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC), sy'n ein hadalau am gostau sefydlu a chynnal y gofrestr dros dro; derbyniwyd 'incwm grant' o £0.2 miliwn (2021-2022: £2.6 miliwn) hefyd gan y DHSC ar gyfer y costau sy'n gysylltiedig â chynyddu capasiti Archwiliadau Clinigol Strwythuredig Gwrthrychol (OSCE), gan sicrhau darpariaeth ddigonol, amserol i ddiwallu'r cynnydd yn nifer y ymgeiswyr rhyngwladol sy'n ceisio sefyll y Prawf Cymhwysedd. Trosglwyddwyd y rhan fwyaf o'r cyllid hwn, oddeutu £0.2 miliwn (2021-2022: £2.4 miliwn), gennym yn uniongyrchol i ganolfannau darparu OSCE yn y prifysgolion sy'n darparu'r profion.

Roedd cyfanswm ein gwariant o £98.1 miliwn £8.6 miliwn (8.0 y cant) yn is nag yr oeddem wedi'i gyllidebu ond cynyddodd £5.2 miliwn o gymharu â 2021-2022, pan barhaodd ein gweithgareddau a'n costau i gael eu cyfyngu gan y pandemig Covid-19. Deilliodd y tanwariant yn ôl y gyllideb yn 2022-2023 o sawl ffactor gan gynnwys llithriad mewn recriwtio i lenwi swyddi gwag a rhywfaint o ohirio gwariant ar brosiectau a rhaglenni.

Mae Nodyn 5 i'r datganiadau ariannol yn nodi ein costau a ddyrannwyd yn llawn ar gyfer pob gweithgaredd elusennol fel sy'n ofynnol gan y Datganiad Elusennau o Arferion Cymeradwy (SORP). Mae hyn yn gwahanu costau uniongyrchol pob gweithgaredd ochr yn ochr â'r costau cymorth cysylltiedig sydd wedi'u dyrannu gan ddefnyddio cyfrif pennau neu orbenion. Mae'r sylwebaeth sy'n dilyn yn seiliedig ar y golofn cost uniongyrchol cyn dyrannu costau cynnal.

Roedd costau uniongyrchol addasrwydd i ymarfer yn £48.0 miliwn, cynnydd sylweddol ar £42.4 miliwn yn 2021-2022. Mae hyn wedi'i ysgogi gan fuddsoddiad ychwanegol yn y maes hwn sydd ei angen i leihau ein llwyth achosion yn gyflym ac yn ddiogel.

Mae hyn yn amddiffyn y cyhoedd drwy gyflawni mwy o benderfyniadau mwy amserol a chymesur, ac yn lleihau'r gofid i'r rhai dan sylw, ac mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i ni. Mae hefyd yn creu galwadau ariannol sylweddol wrth i ni symud i leihau'r llwyth achosion ymhellach. Dyma'r sbardun allweddol y tu ôl i'n buddsoddiad pellach arfaethedig mewn addasrwydd i ymarfer yn ystod 2023-2024 a 2024-2025. Mae heriau recriwtio yn y ddwy flynedd ddiwethaf wedi golygu bod buddsoddi yn y maes hwn wedi bod yn arafach na'r disgwyl ac mae rhai costau wedi'u gohirio tan flynyddoedd diweddarach. O ganlyniad, rydym wedi cyllidebu'n ddangosol ar gyfer diffygion yn y ddwy flynedd nesaf wrth i ni weithio i leihau'r llwyth achosion i lefelau cyn-bandemig. Mae hyn yn bosibl oherwydd ein lefel o gronfeydd rhydd wrth gefn, y mae elfen ohonynt wedi'i neilltuo i ariannu'r buddsoddi sydd ei angen.

Roedd costau uniongyrchol cynnal y gofrestr yn £5.5 miliwn yn 2022-2023 (2021-2022: £8.3 miliwn).

Y costau cymorth cyffredinol (gan gynnwys cyfleusterau, cyllid, pobl a thechnoleg) oedd £32.3 miliwn (2021-2022: £31.0 miliwn).

Pensiynau

Mae gan yr NMC ddau gynllun pensiwn: cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio, a gaewyd i newydd-ddyfodiaid ym mis Tachwedd 2013 ac a gaewyd i gronni buddion yn y dyfodol o 1 Gorffennaf 2021; a cynllun pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio, y mae pob cyflogai newydd yn cael ei gofrestru'n awtomatig iddo.

Mae cyfraniadau'r NMC i'r cynllun cyfraniadau diffiniedig yn cael eu gwario yn y flwyddyn y maent yn ddyledus. Mae asedau'r cynllun pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio i'w priodoli i gyflogeion unigol ac nid ydynt, felly, wedi'u dangos yn ein cyfrifon.

O ran y cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio, at ddibenion ein cyfrifon ac yn unol â FRS 102, caiff ei asedau eu hailbrisio i werth y farchnad, ac mae actiwariaid annibynnol yn diweddarau eu hamcangyfrif o werth y rhwymedigaeth bob blwyddyn. Amcangyfrifir y rhwymedigaeth fel gwerth presennol gostyngol y buddion pensiwn sy'n ddyledus i aelodau'r cynllun. Mae amcangyfrif y rhwymedigaeth yn dibynnu ar nifer o dybiaethau actiwaraidd safonol gan gynnwys cyfraddau marwolaethau disgwylidig, chwyddiant ac arenillion ar fondiau corfforaethol dros nifer o flynyddoedd i'r dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn, gostyngodd gwerth marchnad asedau'r cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio o £26.1 miliwn, a gostyngodd y rhwymedigaeth o £35.6 miliwn, gan arwain at y cynllun yn dangos gwarged net o £15.3 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.

Am nifer o flynyddoedd hyd at a chan gynnwys 2020-2021 y sefyllfa net ar y cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio a ddangosir yn ein balans oedd diffyg, sef y gwahaniaeth rhwng gwerth asedau'r cynllun a gwerth uwch y rhwymedigaeth pensiwn. Fodd bynnag, mae prisiadau FR S102 ar 31 Mawrth 2022 a 2023 wedi dangos gwarged gyda gwerth asedau'r cynllun yn uwch na'r rhwymedigaeth amcangyfrifedig. Mae cyngor cyfreithiol wedi cadarnhau bod yr NMC yn adennill y gwarged o'r cynllun pensiwn yn bosibilrwydd anghysbell iawn. Dim ond ar ôl i holl rwymedigaethau'r cynllun gael eu rhyddhau y gallai ddigwydd. Mae FRS 102 yn nodi "bydd endid yn cydnabod gwarged cynllun fel ased cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio dim ond i'r graddau y mae'n gallu adennill y gwarged". O ganlyniad eleni, fel y llynedd, mae addasiad nenfwd asedau wedi'i gymhwyso i ddod â'r sefyllfa net i naill ai gwarged neu ddiffyg ar y fantolen.

Dim ond at ddibenion ein cyfrifon y mae'r driniaeth hon o'r gwarged. Mae'r ymddiriedolwyr pensiwn, sy'n annibynnol ar yr NMC, yn cadw rheolaeth dros asedau'r cynllun ac unrhyw warged, sut bynnag y'i cyfrifir, sy'n ymwneud â nhw.

Yn ystod 2022-2023 cwblhawyd adolygiad tair blynedd o'r cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio hefyd gan ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn yn seiliedig ar ei sefyllfa ar 31 Mawrth 2022.

Cyflawnwyd hyn gan yr actiwari a adroddodd i'r ymddiriedolwyr ac roedd at ddiben diffinio a oes angen i'r NMC gyfrannu taliadau adennill i'r cynllun o hyd i sicrhau bod ganddo ddigon o arian i fodloni rhwymedigaethau disgwylidig. Yn ôl y gofyn, gwnaed hyn yn unol â safonau actiwaraid a'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn hytrach nag yn unol â gofynion FRS 102 a ddefnyddir ar gyfer y cyfrifon.

Roedd canlyniad y prisiad hwn hefyd yn dangos gwarged hyd yn oed o dan ragdybiaethau gofalus iawn a luniwyd i sicrhau bod gan y cynllun 'ddibyniaeth isel' ar y cyflogwr.

O ganlyniad i'r adolygiad tair blynedd hwn sydd hefyd yn dangos gwarged, mae'r ymddiriedolwyr pensiwn annibynnol wedi cytuno â ni nad oes angen taliadau cynllun adfer mwyach. O dan y cynllun adfer blaenorol y cytunwyd arno ag ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn, fe wnaethom dalu £1.9 miliwn yn 2022-2023. Bydd y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu yn yr adolygiad tair blynedd nesaf ar 31 Mawrth 2025.

Buddsoddiadau

Mae nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn talu eu ffi gofrestru naill ai'n flynyddol neu'n chwarterol ymlaen llaw. Ynghyd â'n cronfeydd rhydd wrth gefn, mae hyn yn golygu bod gennym falansau arian parod sylweddol.

Yn ystod 2020-2021 symudwyd i roi polisi buddsoddi'r Cyngor ar waith, a nododd gronfa o £30 miliwn i'w fuddsoddi yn y marchnadoedd stoc yn y tymor hir. Yn 2022-2023 fe wnaethom ychwanegu £3 miliwn ychwanegol at y buddsoddiad hwnnw, sydd â chyfradd enillion targed ar gyfer y gronfa hirdymor o dri y cant uwchlaw mesur chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) (CPI+3 y cant) net o costau rheoli buddsoddiadau.

Er ein bod yn cydnabod bod buddsoddi mewn ecwitiâu, cronfeydd a bondiau yn peri risg, drwy fuddsoddi drwy reolwyr buddsoddi arbenigol - y mae ein Pwyllgor Buddsoddi yn goruchwyllo a chraffu ar eu perfformiad - rydym yn disgwyl y bydd buddsoddi o'r fath yn sicrhau enillion uwch na chwyddiant dros y tymor hir a thrwy hynny helpu i osgoi neu liniaru'r angen i gynyddu ein ffioedd.

Yn 2022-2023, roedd incwm difidend a llog o'r portffolio, sy'n cael ei ail-fuddsoddi, yn £0.9 miliwn (2021-2022: £0.7 miliwn), gyda cholled heb ei gwireddu ar fuddsoddiadau o £1.9 miliwn (2021-2022: £1.0 miliwn ennill) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r datganiad o weithgareddau ariannol yn dangos costau rheoli buddsoddiadau o £0.16 miliwn (2021-2022: £0.16 miliwn). Cyfanswm gwerth y gronfa fuddsoddi ar ddiwedd y flwyddyn yw £34.7 miliwn.

Mae hyn yr un fath â'r cyfanswm o £34.7 miliwn rydym wedi'i fuddsoddi ers y dechrau ym mis Gorffennaf 2020, sef £33.0 miliwn o gyfalaf wedi'i fuddsoddi ac £1.7 miliwn o incwm difidend a llog wedi'i ailfuddsoddi.

Fel y dengys y golled nas gwireddwyd, mae perfformiad eleni wedi bod yn siomedig o gymharu â chyfnodau blaenorol, gan adlewyrchu amodau marchnad anodd iawn. O ystyried chwyddiant uchel diweddar, byddai angen cyfradd twf blynyddol o 9.4 y cant ers cychwyn ein portffolio i gyflawni ein cyfradd adennill darged hirdymor o CPI+3 y cant hyd at fis Mawrth 2023. Ein cyfradd twf blynyddol gwirioneddol yw 3.6 y cant. Serch hynny, gyda disgwyl i chwyddiant ostwng yn y tymor agos, mae gobaith rhesymol o hyd o allu cyflawni ein targed twf hirdymor yn y blynyddoedd i ddod.

Rydym yn adolygu ac yn diweddarau ein polisi buddsoddi yn rheolaidd, gan gynnwys ei ddimensiynau moesegol a chynaliadwyedd. Mae ein polisi buddsoddi cyfredol ar gael ar ein gwefan.

Y llog a enillwyd ar ein hadneuron banc yn ystod y flwyddyn oedd £1.2 miliwn (2021-2022: £0.2 miliwn). Mae'r cynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol oherwydd bod cyfraddau llog wedi bod yn sylweddol uwch yn 2022-23 nag yr oeddent yn 2021-2022.

Cronfeydd wrth gefn

Ein polisi cronfeydd wrth gefn yw cynnal cronfeydd rhydd wrth gefn o fewn yr ystod darged. Mae cronfeydd rhydd wrth gefn yn gronfeydd sydd ar gael i'w gwario'n rhydd, felly nid ydynt yn cynnwys cronfeydd cyfyngedig, asedau sefydlog diriaethol, asedau sefydlog anniriaethol a symiau a ddynodwyd ar gyfer gwariant hanfodol yn y dyfodol. Rydym hefyd yn pennu lefel isaf ar gyfer y balans arian parod a buddsoddiadau cyfanredol a ragwelwyd dros y flwyddyn ariannol i ddod. Mae'r Cyngor yn adolygu'r ystod darged o gronfeydd rhydd wrth gefn a'r balans isafswm arian parod a buddsoddiadau o leiaf unwaith y flwyddyn.

Pennir y lefel isaf darged o gronfeydd wrth gefn rhydd i sicrhau ein cynaliadwyedd, gan ystyried diogelwch ein ffrwd incwm, ein balansau arian parod a buddsoddi, ac asesiad o effaith ariannol bosibl y risgiau a wynebwr gan yr NMC. Pennir lefel uchaf targed y cronfeydd wrth gefn rhydd i sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol, gan gydbwyso buddiannau'r gweithiwr proffesiynol ar ein cofrestr sy'n ein hariannu drwy'r ffioedd y maent yn eu talu, a'r cyhoedd sy'n elwa o'n gwaith.

Ym mis Mawrth 2023, adolygodd y Cyngor y sefyllfa ddiweddaraf o ran y polisi cronfeydd wrth gefn a chytunwyd y dylai'r ystod darged o gronfeydd wrth gefn rhydd barhau i fod yn sero i £25 miliwn, ac y dylai'r balans arian parod a buddsoddiadau lleiaf posibl aros yn £20 miliwn.


Cyfanswm ein cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2023 oedd £76.8 miliwn (2022: £76.3 miliwn) ac roedd cronfeydd wrth gefn rhydd yn £44.5 miliwn (2022: £47.6 miliwn). Er bod cronfeydd wrth gefn rhydd yn sylweddol uwch na phen uchaf yr ystod darged, mae hyn yn adlewyrchu'r angen i ddarparu ar gyfer oddeutu £40 miliwn o fuddsoddiad a gynlluniwyd dros y tair blynedd nesaf. Bydd y buddsoddiad arfaethedig hwn, mewn seilwaith technoleg a llety wedi'i foderneiddio, yn gwella ein gwasanaeth yn uniongyrchol i'r cyhoedd ac i'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr. Bydd hefyd yn cynhyrchu arbedion ariannol blynyddol sylweddol a llai o effeithiau amgylcheddol. Bydd hyn trwy ôl troed llety llai a mwy cynaliadwy yn amgylcheddol yn ogystal ag effeithlonrwydd prosesau sylweddol wrth i ni wella ein rheolaeth achosion. Mae'r lefelau cryf o gronfeydd wrth gefn hefyd yn cefnogi'r sefyllfa o fusnes parhaus a nodir yn nodyn 1a i'r cyfrifon.

Syr David Warren

Cadeirydd
10 Gorffennaf
2023

Andrea Sutcliffe

Prif Weithredwr
a Chofrestrydd
10 Gorffennaf
2023



Adroddiad cydnabyddiaeth ariannol

**Cylch gwaith y Pwyllgor
Cydnabyddiaeth Ariannol yw sicrhau
bod systemau priodol ar waith ar
gyfer taliadau a chynllunio olyniaeth
yn yr NMC.**

Er mwyn cyflawni'r cylch gorchwyl hwn, mae'r Pwyllgor yn ystyried yr adolygiad blynyddol o gyflogau cyflogeion, yn ogystal â chynnydd yn ôl y Cynllun Pobl, unrhyw newidiadau sylweddol i'r strwythur tâl a graddio cyflogeion neu gynlluniau pensiwn.

Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo pecynnau gwobrwyo ar gyfer y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a Chyfarwyddwyr Gweithredol pan gânt eu penodi, codiadau cyflog blynyddol ac yn adolygu eu perfformiad yn flynyddol, yn ogystal â bod â throsolwg o gynllunio olyniaeth Gweithredol.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwyllo prosesau penodi'r Cyngor ac yn argymhell i'r Cyngor unrhyw newidiadau i'r lwfansau a delir i'r Cadeirydd, aelodau'r Cyngor, Swyddogion Cyswllt ac aelodau Partner.

Wrth wneud penderfyniadau ar gydnabyddiaeth ariannol, mae'r Pwyllgor yn ystyried amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys meincnodi sector a fforddiadwyedd cyffredinol. Eleni mae'r penderfyniadau hynny wedi'u gwneud yng nghyd-destun costau byw cynyddol, yn ogystal â dyfarniadau cyflog ar gyfer gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol a'r sector cyhoeddus ehangach, a'r angen i sicrhau bod ein hymagwedd at gyflog yn denu ac yn cadw cydweithwyr yn deg ac yn effeithiol. Mae'r penderfyniadau hyn wedi'u gwneud gan ddefnyddio data meincnodi a mewnwelediad gan ymgynghorwyr gwobrwyo.

Roedd meysydd blaenoriaeth eraill y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn yn cynnwys ystyried y diweddariadau ar y Cynllun Pobl ac adolygu effeithiolrwydd y cynllun Aelodau Cyswllt.

Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) yn archwilio agweddau ariannol yr adroddiad hwn.

Lwfansau a threuliau'r Cyngor

Y Cyngor yw corff llywodraethu'r NMC ac mae ganddo'r awdurdod gwneud penderfyniadau terfynol fel y disgrifir yn y datganiad llywodraethu blynyddol. Aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr yr elusen.

O dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu'r lwfansau i'w talu i Gadeirydd y Cyngor, aelodau'r Cyngor, Aelodau Cyswllt ac aelodau Partner (aelodau o bwyllgorau nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor).

Er mwyn rheoli gwrthdaro buddiannau, mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer Panel Annibynnol sy'n cynnwys arbenigwyr allanol i asesu lefel briodol y lwfansau. Mae'r Cyngor wedi cytuno y bydd naill ai'n derbyn neu'n gostwng lefel y lwfans a argymhellir gan y Panel ond ni fydd yn ei gynyddu. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am oruchwyllo sefydlu'r Panel Annibynnol ac adolygu ei ganfyddiadau i'w hystyried gan y Cyngor.

Fel yr adroddwyd yn Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol 2021-2022, ystyriodd y Cyngor ganfyddiadau'r Panel Annibynnol diweddaraf ar 6 Gorffennaf 2022. Wrth wneud ei argymhellion, roedd y Panel wedi ystyried ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys lefelau lwfans ar gyfer sefydliadau cymharol, fforddiadwyedd

cyffredinol a thâl i weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, yn ogystal â nodi nad oedd lwfansau wedi cynyddu ers 2017. Roedd y Panel wedi bod yn arbennig o ymwybodol o'r pwysau ar weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol oherwydd effaith pandemig Covid-19.

Yn unol ag argymhellion y Panel, ar 6 Gorffennaf 2022 cytunodd y Cyngor ar y canlynol.

- Cynnydd o dri y cant i lwfans blynyddol aelodau'r Cyngor (o £14,724 i £15,166), cyfradd ddyddiol aelod Partner (o £286 i £295) a lwfans blynyddol Aelod Cyswllt (o £10,296 i £10,605). Cytunodd y Cyngor y dylid ôl-ddyddio newidiadau i lwfansau i Ebrill 2022.
- Gellir talu lwfans ychwanegol i Gadeiryddion Pwyllgorau rhwng £0 a £2,500 - dylai hyn fod yn ôl disgrisiwn Cadeirydd y Cyngor ar sail cyfrifoldeb a'r amser a dreulir yn cyflawni'r rôl.

O ystyried y gallai rôl Cadeirydd y Pwyllgor ddenu lwfans ychwanegol, ym mis Rhagfyr 2022, cytunodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ar newidiadau arfaethedig i'r broses benodi. Cytunodd y Pwyllgor hefyd ar broses i gefnogi'r Cadeirydd i bennu unrhyw lwfansau ychwanegol. Cytunwyd y byddai unrhyw lwfansau ychwanegol yn cael eu talu o 2023-2024 ymlaen, felly ni thalwyd unrhyw lwfansau ychwanegol yn 2022-2023.

Y lwfansau a dalwyd i aelodau'r Cyngor ac Aelodau Cyswllt yn 2022-2023 oedd £261,237 (2021-2022: £239,542). Ni wnaed unrhyw daliadau all-gontract i unrhyw aelod o'r Cyngor, Aelod Cyswllt neu Bartner yn 2021-2022.

Gwneir taliadau lwfans i aelodau'r Cyngor, Aelodau Cyswllt ac aelodau Partner drwy'r gyflogres, gyda didyniadau ar gyfer treth incwm ac Yswiriant Gwladol. Caiff treuliau a dynnir yn uniongyrchol wrth gyflawni dyletswyddau eu had-dalu yn unol â pholisi Teithio, Llety a Threuliau'r Cyngor.

Mae treuliau yn cynnwys teithio, llety, prydau bwyd a chynhaliaeth, a maent yn cael eu tynnu pan fo aelodau yn cyflawni eu dyletswyddau. Mae'r treuliau a dderbynnir gan aelodau'n amrywio'n fawr oherwydd costau teithio a llety ar gyfer mynychu cyfarfodydd o gartrefi ledled y DU, gan gynnwys teithio o Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhannau o Loegr sy'n golygu bod angen aros dros nos. Maent hefyd yn amrywio oherwydd bod rhai aelodau'n ymgymryd â mwy o weithgareddau sy'n gofyn am deithio, tra bod eraill yn ymgymryd â mwy o weithgareddau y gellir eu cyflawni'n rhithwir. Lle cynhelir unrhyw gyfarfodydd yn Llundain, ystyrir treuliau yn fuddiant trethadwy mewn nwyddau. Mae'r NMC yn talu'r dreth incwm a'r Yswiriant Gwladol sy'n codi drwy gytundeb setliad TWE gyda CThEM. Mae'r holl dreuliau a dynnir gan aelodau ac Aelodau Cyswllt wedi'u cynnwys yn Nhabl 1.

Pan fydd cyfarfodydd y Cyngor yn Llundain, mae aelodau'n mynychu prydau min nos gydag aelodau o'r Weithrediaeth ac ystyrir bod y prydau hynny'n fuddiant trethadwy mewn nwyddau. Mae'r NMC yn talu'r dreth incwm sy'n codi drwy gytundeb setliad TWE gyda CThEM. Dangosir gwerth y buddiant yn gros, gan gynnwys y dreth incwm y gellir ei phriodoli.

Y dull a ddefnyddir i asesu perfformiad

Mae'r Cyngor yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun yn rheolaidd. Mae ganddo hefyd bolisi a phroses y cytunwyd arnynt ar waith ar gyfer adolygu perfformiad aelodau'r Cyngor, Aelodau Cyswllt a Phartneriaid. Cynhelir adolygiad perfformiad Cadeirydd y Cyngor gan yr Is-Gadeiryddion ac mae'n cynnwys hunanasesiad gan y Cadeirydd, asesiad cymheiriaid gan gydweithwyr yn y Cyngor a mewnbwn gan y Pwyllgor Gwaith. Mae proses debyg ar waith ar gyfer aelodau unigol y Cyngor ac aelodau Cyswllt dan arweiniad y Cadeirydd, a chan Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer aelodau Partner.

Amrywiaeth aelodau ein Cyngor, Aelodau Cyswllt ac aelodau Partner

Rhywedd

14 Benyw
6 Gwryw

(2021-2022: 14 Benyw, 6 Gwryw)

Dangosir data amrywiaeth, ar 31 Mawrth 2023, ar gyfer ein haelodau Cyngor, Aelodau Cyswllt ac aelodau Partner isod. Roedd cyfanswm o 12 aelod o'r Cyngor, dau Aelod Cyswllt a chwe aelod Partner (31 Mawrth 2022: 11 aelod o'r Cyngor (un swydd wag), dau Aelod Cyswllt, saith aelod Partner).

Ethnigrwydd

15 Gwyn Prydeinig
1 Affricanaidd
1 Du Caribiaidd
1 Indiaidd
1 Gwyddeleg
1 Gwyn Prydeinig/Gwyddelig

(2021-2022: 16 Gwyn Prydeinig, 2 Du Affricanaidd, 1 Du Caribiaidd, 1 Gwyn Prydeinig/Gwyddelig)

Anabledd

18 Dim anabledd
1 Anabledd a ddatganwyd
1 Gwell ganddynt beidio â dweud

(2021-2022: 18 Dim anabledd, 1 Anabledd a ddatganwyd, 1 Gwell ganddynt beidio â dweud)

Mwy o ddata EDI ar aelodau'r Cyngor, mae Aelodau Cyswllt a Phartneriaid i'w gweld yn ein **tablau data EDI**.

Tabl 1

**Lwfansau a threuliau'r Cyngor
(archwiliwyd gan y Swyddfa
Archwilio Genedlaethol)**

	2022-2023				2021-2022			
	Lwfans (bandiau £5,000) £'000	Treuliau trethadwy (i'r £100 agosaf)	Cyfanswm y gydnabyddiaeth (bandiau £5,000) £'000	Treuliau eraill (i'r £100 agosaf)	Lwfans (bandiau £5,000) £'000	Treuliau trethadwy (i'r £100 agosaf)	Cyfanswm y gydnabyddiaeth (bandiau £5,000) £'000	Treuliau eraill (i'r £100 agosaf)
Syr David Warren (Cadeirydd) (o 21 Mehefin 2021)	75-80	1,000	75-80	1,700	60-65	100	60-65	0
Yr Athro Karen Cox (Dirprwy Gadeirydd (Gweithredol) rhwng 5 Hydref 2020 a 20 Mehefin 2021) ¹	15-20	4,000	15-20	300	10-15	300	15-20	0
Syr Hugh Bayley	15-20	1,800	15-20	600	10-15	600	15-20	0
Justine Craig (rhwng 1 Mai 2021 a 31 Rhagfyr 2021)	0	0	0	0	5-10	0	5-10	0
Claire Johnston	15-20	2,700	15-20	300	10-15	400	15-20	0
Eileen McEaney MBE	15-20	7,800	20-25	0	10-15	600	15-20	0
Dr Margaret McGuire OBE (o 1 Mai 2022)	10-15	7,400	20-25	400	0	0	0	0
Robert Parry (i 30 Ebrill 2021)	0	0	0	0	0-5	0	0-5	0
Marta Phillips OBE	15-20	1,300	15-20	300	10-15	100	10-15	0
Derek Pretty	15-20	5,300	20-25	800	10-15	500	15-20	0
Anna Walker CB	15-20	700	15-20	300	10-15	0	10-15	0
Ruth Walker MBE	15-20	9,500	20-25	700	10-15	1,400	15-20	0
Sue Whelan Tracy	15-20	3,200	15-20	0	10-15	1,700	15-20	0
Dr Lynne Wiggins OBE	15-20	2,500	15-20	300	10-15	1,200	15-20	0
Aelodau Cyswllt								
Jabulani Chikore (o 1 Mawrth 2023)	0-5	0	0-5	0	0	0	0	0
Tracey MacCormack (tan 31 Rhagfyr 2022)	5-10	400	5-10	300	10-15	0	10-15	100
Dr Gloria Rowland MBE (tan 31 Rhagfyr 2022)	5-10	400	5-10	200	10-15	0	10-15	0
Navjot Kaur Virk (o 1 Mawrth 2023)	0-5	500	0-5	0	0	0	0	0
Cyfansymiau	261.2	48,700	309.9	6,100	239.5	6,900	246.4	100

1. Gwrthododd yr Athro Karen Cox dderbyn unrhyw lwfans ychwanegol yn ystod y cyfnod y bu'n Gadeirydd Dros Dro y Cyngor (5 Hydref 2020-21 Mehefin 2021).
2. Yn 2021-2022, ad-dalwyd un aelod newydd o'r Cyngor am yr amser a dreuliodd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cynefino cyn i'w chyfnod ffurfiol yn y swydd ddechrau. Mae'r taliadau hyn wedi'u cynnwys yng nghyfanswm y lwfansau ar gyfer yr unigolyn. Gwnaed taliadau gan ddefnyddio cyfraddau dyddiol cyfatebol o £409 ar gyfer aelodau'r Cyngor a £286 ar gyfer Aelodau Cyswllt.
3. Cyfansymiau yn amodol ar dalgrynnu.

Cydnabyddiaeth ariannol yr uwch dîm rheoli ac asesu perfformiad

Y Weithrediaeth yw'r uwch dîm rheoli ac mae'n cynnwys y Prif Weithredwr a Chofrestrydd (Prif Weithredwr) a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol, gan gynnwys y rheini mewn rolau dros dro neu interim. Mae pob Cyfarwyddwr Gweithredol yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr. Nid oes unrhyw Gyfarwyddwyr Gweithredol yn aelodau o'r Cyngor nac yn ymddiriedolwyr yr NMC. Datgelir manylion taliadau cydnabyddiaeth ariannol yn llawn ar gyfer yr holl unigolion hyn yn nhabl 2.

Y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yw'r unig gyflogai a benodir yn uniongyrchol gan y Cyngor ac sy'n atebol iddo. Mae'r Cyngor wedi dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr i'r graddau a ddisgrifir yn y Cynllun Dirprwyo (Atodiad 1 i'r Rheolau Sefydlog, paragraffau 6-11) ac a adlewyrchir yn y datganiad llywodraethu blynyddol yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Asesiad perfformiad y Weithrediaeth

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn adolygu perfformiad holl aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn flynyddol. Mae'r Pwyllgor yn adolygu adroddiadau gan y Cadeirydd ar berfformiad y Prif Weithredwr a Chofrestrydd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn adolygu adroddiadau gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd ar berfformiad y Cyfarwyddwyr Gweithredol.

Cydnabyddiaeth Ariannol y Weithrediaeth

Mae cydnabyddiaeth ariannol y Weithrediaeth yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn flynyddol yn unol â fframwaith tâl y Weithrediaeth a gafodd ei gymeradwyo yn 2016 a'i ddiweddarau yn 2020 i adlewyrchu'r strwythur sefydliadol newydd a rolau'r Cyfarwyddwr Gweithredol o fewn hyn.

Cytunwyd ar gydnabyddiaeth ariannol y Weithrediaeth ar gyfer 2022-2023 gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ym mis Chwefror 2022. Yn unol â chynghor gan gynghorwyr tâl gweithredol annibynnol, daeth y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol i'r casgliad y dylai'r Weithrediaeth dderbyn dyfarniad cyflog o ddau y cant ar gyfer 2022-2023. Roedd hwn yn ddyfarniad cyflog is nag ar gyfer cyflogeion eraill, sef tri y cant. Cytunodd y Pwyllgor ar gais y Prif Weithredwr a Chofrestrydd i beidio â chael codiad cyflog.

Penodwyd Andrea Sutcliffe yn Brif Weithredwr a Chofrestrydd yr NMC ar 14 Ionawr 2019. Roedd ei phe cyn cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer 2022-2023 yn cynnwys cyflog sylfaenol o £175,000, cyfraniadau cyflogwr i gynllun pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio yr NMC o £14,000 a buddion mewn nwyddau o £818, sy'n arwain at ffigwr cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol o £189,818.

Nodir cydnabyddiaeth ariannol y tîm Gweithredol yn nhabl 2. Talwyd cyfanswm o £1.313 miliwn i'r tîm Gweithredol (gan gynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol interim a Chyfarwyddwyr Gweithredol dros dro) yn 2022-2023 (2021-2022 £1.615 miliwn).

Pan yw cyfarfodydd y Cyngor yn Llundain, mae aelodau o'r tîm Gweithredol yn mynychu prydau gyda'r nos gyda'r Cyngor ac ystyrir bod y prydau hynny'n fuddiant trethadwy mewn nwyddau. Mae'r NMC yn talu'r dreth incwm sy'n codi drwy gytundeb setliad TWE gyda CThEM, a dangosir gwerth y buddiant yn gros gan gynnwys y dreth incwm y gellir ei phriodoli. Nid yw'r tîm Gweithredol yn derbyn unrhyw fuddion trethadwy eraill. Yn unol â'r cyfyngiadau a'r prosesau a amlinellir yn ein Polisi Treuliau ar gyfer Staff a Gweithwyr Eraill, gall aelodau Gweithredol hawlio costau teithio, llety a chynhaliadau wrth ymgymryd â theithiau busnes.

Nid yw'r NMC yn gweithredu unrhyw drefniadau tâl neu fonws ar sail perfformiad. Felly ni dderbyniodd yr un o'r Pwyllgor Gwaith unrhyw fonysau perfformiad.

Mae contract cyflogaeth Andrea Sutcliffe yn ei gwneud yn ofynnol i'r naill barti neu'r llall roi chwe mis o rybudd i derfynu'r contract. Ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol y cyfnod yw tri mis.

Tabl 2

Cydnabyddiaeth ariannol y tîm gweithredol (archwiliwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol)

	2022-2023					2021-2022				
	Cyflog (bandiau £5,000) £'000	Treuliau trethadwy (i'r £100 agosaf)	Buddion pensiwn (i'r £'000 agosaf)	Cyfanswm y gydnabyddi -aeth (bandiau £5,000) £'000	Treuliau eraill (i'r £100 agosaf)	Cyflog (bandiau £5,000) £'000	Treuliau trethadwy (i'r £100 agosaf)	Buddion pensiwn (i'r £'000 agosaf)	Cyfanswm y gydnabyddi -aeth (bandiau £5,000) £'000	Treuliau eraill (i'r £100 agosaf)
Andrea Sutcliffe Prif Weithredwr a Chofrestrydd	175-180	800	14,000	185-190	3,100	175-180	100	14,000	185-190	1,100
Ruth Bailey ¹ Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl ac Effeithiolrwydd Sefydliadol (rhannu swydd) o 7 Tachwedd 2022	35-40 FYE 85-90	200	1,000	35-40	0	0	0	0	0	0
Lise-Anne Boissiere ¹ Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl ac Effeithiolrwydd Sefydliadol (rhannu swydd) o 7 Tachwedd 2022	35-40 FYE 85-90	100	5,000	40-45	300	0	0	0	0	0
Emma Broadbent ² Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio Proffesiynol 2020-2021 Cyfarwyddwr Gweithredol Ebrill 2021-23 Ionawr 2022 Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl ac Effeithiolrwydd Sefydliadol Dros Dro rhwng 24 Ionawr 2022 a 30 Medi 2022	75-80 FYE 150-155	300	11,000	85-90	200	150-155	100	21,000	170-175	0
Sam Foster Cyfarwyddwr Gweithredol Ymarfer Proffesiynol o 27 Mawrth 2023	0-5 FYE 175-180	100	0	0-5	0	0	0	0	0	0
Andrew Gillies Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau a Gwasanaethau Technoleg hyd at 31 Gorffennaf 2021	0	0	0	0	0	45-50 FYE 130-135	0	6,000	50-55	0
Helen Herniman Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro rhwng 21 Gorffennaf a 31 Awst 2021. Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau a Gwasanaethau Technoleg o 1 Medi 2021	155-160 FYE 150-155	800	22,000	175-180	1,000	95-100 FYE 135-140	100	9,000	105-110	200
Lesley Maslen Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio Proffesiynol o 8 Awst 2022	95-100 FYE 150-155	500	14,000	110-115	600	0	0	0	0	0
Matthew McClelland ³ Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Mewnwelediad	140-145	700	35,000	175-180	1,500	140-145	100	32,000	175-180	1,200
Ngozika Francesca Okosi ^{2&4} Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl ac Effeithiolrwydd Sefydliadol rhwng 19 Hydref 2020 a 28 Chwefror 2022	0	0	0	0	0	305-310	0	10,000	315-320	0
Tom Scott Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio Proffesiynol Rhwng 8 Chwefror 2021 a 6 Mai 2022	15-20 FYE 135-140	0	2,000	15-20	500	135-140	100	19,000	155-160	1,300
Jennifer Simnett Cyfarwyddwr Gweithredol Interim Pobl ac Effeithiolrwydd Sefydliadol rhwng 05 Medi 2022 a 31 Rhagfyr 2022	45-50 FYE 150-155	300	0	45-50	0	0	0	0	0	0

2022-2023

2021-2022

	Cyflog (bandiau £5,000) £'000	Treuliau trethadwy (i'r £100 agosaf)	Buddion pensiwn (i'r £'000 agosaf)	Cyfanswm y gydnabyddi -aeth (bandiau £5,000) £'000	Treuliau eraill (i'r £100 agosaf)	Cyflog (bandiau £5,000) £'000	Treuliau trethadwy (i'r £100 agosaf)	Buddion pensiwn (i'r £'000 agosaf)	Cyfanswm y gydnabyddi -aeth (bandiau £5,000) £'000	Treuliau eraill (i'r £100 agosaf)
Miles Wallace ⁵ Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu ac Ymgysylltu Dros Dro o 13 Rhagfyr 2021	120-125	700	12,000	135-140	1,900	95-100 FYE 120-125	100	8,000	100-105	0
Geraldine Walters Cyfarwyddwr Gweithredol Ymarfer Proffesiynol hyd at 2 Rhagfyr 2022	115-120 FYE 165-170	400	9,000	125-130	2,100	160-165	100	13,000	175-180	800
Edward Welsh Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu ac Ymgysylltu	130-135 FYE 150-155	200	17,000	150-155	0	145-150	0	19,000	165-170	0
Cyfansymiau	1,166	5,331	141,103	1,313	11,200	1,463	726	150,671	1,615	4,600

- Mae Ruth Bailey a Lise-Anne Boissiere wedi rhannu swydd Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl ac Effeithiolrwydd Sefydliadol ers ymuno â'r NMC ar 7 Tachwedd 2022, gyda'r ddau yn gweithio 0.6FTE. Mae Lise-Anne Boissiere ar secondiad o'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau tan 6 Tachwedd 2025.
- Am y rhesymau a amlinellwyd yn adroddiad y llynedd, cafodd Tom Scott ei benodi'n Gyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio Proffesiynol dros dro i gyflenwi yn ystod absenoldeb Emma Broadbent. Ar ôl dychwelyd, parhaodd Emma Broadbent fel Cyfarwyddwr Gweithredol heb bortffolio, gan oruchwylio rhaglen newid, tra parhaodd Tom Scott fel Cyfarwyddwr Gweithredol dros dro dros Reoleiddio Proffesiynol. Cymerodd Emma Broadbent rôl Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Pobl ac Effeithiolrwydd Sefydliadol i gyflenwi am absenoldeb Ngozika Francesca Okosi o 24 Ionawr 2022 a parhaodd yn y rôl hon ar ôl ymadawiad Ngozika Francesca Okosi ar 28 Chwefror 2022.
- Mae Matthew McClelland yn aelod gohiriedig o'r cynllun â buddion wedi'u diffinio, a dangosir manylion gwerth ei fuddion pensiwn yn 2022-2023, gan gynnwys 50 y cant (£15,402) o daliad trosiannol y cytunwyd arno o £30,804 pan ddaw'r cynllun â buddion wedi'u diffinio i ben i groniadau yn y dyfodol, yn nhabl 2. Gwnaed y taliad trosiannol fel chyfraniad i'r cynllun pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio a chytunodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth y gellid gwneud 50 y cant o'r taliad yn 2021-2022 a 50 y cant yn 2022-2023. Mae buddion pensiwn Matthew McClelland a ddangosir uchod yn cynrychioli chyfraniadau cyflogwr i'r cynllun pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio.
- Ngozika Francesca Okosi oedd Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl ac Effeithiolrwydd Sefydliadol tan 28 Chwefror 2022, pan adawodd yr NMC. Mae ei chydabyddiaeth ariannol o £305-310k yn cynnwys cyflog o £135-140k ar gyfer y cyfnod 01 Ebrill 2021 i 28 Chwefror 2022 a phhecyn ymadael o £170-180k. Mae ei phhecyn ymadael hefyd wedi'i ddatgelu yn nhabl 4.
- Penodwyd Miles Wallace yn Gyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu ac Ymgysylltu Dros Dro o 13 Rhagfyr 2021 i gyflenwi dros gyfnod o absenoldeb Edward Welsh oherwydd salwch. Dychwelodd Edward i'w waith ym mis Rhagfyr 2022 ar ôl dychwelyd yn raddol i'r gwaith.
- Lle mae bandiau cyflog yn uwch na'r hyn sy'n cyfateb mewn blwyddyn lawn, mae oherwydd codiadau tâl wedi'u hôl-ddyddio neu werthu dyddiau gwyliau blynyddol.
- Mae cyfarwyddwyr presennol yn aelodau o'r cynllun pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio, ac eithrio Sam Foster, a ymunodd â'r NMC ar 27 Mawrth 2023 ac nad yw wedi ymuno â'r cynllun nac wedi'i gofrestru'n awtomatig eto; Ruth Bailey, sydd wedi optio allan; a Lise-Anne Boissiere, y mae ei phensiwn gyda'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. Gwerth eu buddion pensiwn yw chyfraniadau'r cyflogwr a wneir gan yr NMC i'w cronfeydd pensiwn.
- Cyfansymiau yn amodol ar dalgrynnu.

Cydnabyddiaeth Ariannol y Weithrediaeth ar gyfer 2023–2024

Ystyriodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol y Weithrediaeth ar gyfer 2023–2024 ym mis Chwefror 2023. Llywiwyd ystyriaeth y Pwyllgor gan dystiolaeth feincnodi allanol a fforddiadwyedd cyffredinol. Fe wnaeth y Pwyllgor y penderfyniadau a ganlyn:

- Cymeradwyodd y Pwyllgor gynnydd o bedwar y cant ar gyfer pob Cyfarwyddwr Gweithredol, gan gynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol dros dro a Chyfarwyddwyr Gweithredol interim, o 1 Ebrill 2023, a oedd ychydig yn is na'r pump y cant a argymhellwyd ar gyfer cyflogeion.
- Cytunodd y Pwyllgor i godiad ychwanegol ar gyfer y Prif Weithredwr a Chofrestrydd gan fod eu cyflog wedi disgyn y tu ôl i gyfradd y farchnad ar gyfer y rôl gan fod y deiliad wedi gwrthod ei gynnydd blynyddol ers pedair blynedd yn flaenorol. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i godiad ychwanegol ar gyfer y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Mewnwelediad i sicrhau bod eu cyflog yn unol â'r holl Gyfarwyddwyr Gweithredol eraill.
- Cytunodd y Pwyllgor i alinio hawliau gwyliau blynyddol yr holl staff. Yn ystod 2022–2023, roedd gan dri aelod o'r tîm Gweithredol hawl i dri deg tri diwrnod o wyliau blynyddol; o'i gymharu â gweddill y sefydliad a'r tîm Gweithredol oedd â hawl i dri deg diwrnod. Wrth alinio eu hawl i wyliau blynyddol â gweddill y sefydliad, fel cytundeb iawndal ar gyfer y tri unigolyn hyn, cytunodd y Pwyllgor i roi taliad pontio untro o gyfradd ddyddiol yr unigolyn am 3 diwrnod.

Ymrwymadau oddi ar y gyflogres a phecynnau ymadael

Yn unol â gofynion Trysorlys EF, rhaid cyhoeddi gwybodaeth am ymrwymadau cyflogres uchel a/ neu uwch oddi ar y gyflogres ar ddiwedd y flwyddyn, a nifer a chost pecynnau ymadael y cytunwyd arnynt ac a dalwyd yn ystod y flwyddyn a'r flwyddyn flaenorol. Nid oes yr un o'r Cyngor na'r Tîm Gweithredol wedi'u cyflogi oddi ar y gyflogres. Asesir yr holl ymrwymadau oddi ar y gyflogres gan ddefnyddio statws cyflogaeth y Llywodraeth ar gyfer cyfrifiannell treth i nodi'r dull cywir o ymrwymo.

Tabl 3**Ymrwymadau oddi ar y gyflogres****Swyddi oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2023, am fwy na £245 y diwrnod ac sy'n parhau mwy na chwe mis**

Nifer yr ymrwymadau presennol ar 31 Mawrth 2023	0
Of which:	
O'r rhain:	0
Nifer sydd wedi bodoli ers llai na blwyddyn ar adeg adrodd	0
Nifer sydd wedi bodoli ers rhwng un flwyddyn a dwy ar adeg adrodd	0
Nifer sydd wedi bodoli ers rhwng dwy a thair blynedd ar adeg adrodd	0

Nifer sydd wedi bodoli ers rhwng tair a phedair blynedd ar adeg adrodd

Ar gyfer pob swydd newydd oddi ar y gyflogres, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, am fwy na £245 y diwrnod ac sy'n parhau mwy na chwe mis.	2
O'r rhain:	
Nifer a aseswyd o fewn IR35	1
Nifer yr aseswyd ei fod y tu allan i IR35	1
Nifer a gyflogwyd yn uniongyrchol ac sydd ar y gyflogres	0
Nifer yr ymrwymadau a ailaseswyd at ddibenion cysondeb/sicrwydd yn ystod y flwyddyn	1
Nifer yr ymrwymadau a welodd newid i statws IR35 yn dilyn yr adolygiad cysondeb	1

Tabl 4**Pecynnau ymadael (archwiliwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol)**

Band cost pecyn ymadael	Nifer y diswyddiadau gorfodol		Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt		Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul band cost		Nifer yr ymadawiadau lle gwnaed taliadau arbennig	
	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022
Less than £10,000	5	2	-	-	5	2	-	-
£10,001 - £25,000	2	1	2	-	4	1	1	-
£25,001 - £50,000	1	1	-	-	1	1	-	-
£50,001 - £100,000	1	-	-	2	1	2	-	1
£100,000 - £150,000	-	-	-	-	-	-	-	-
Greater than £150,000	-	-	-	1	-	1	-	1
Cyfanswm pecynnau ymadael	9	4	2	3	11	7	1	2
Cyfanswm y gost £	137,761	63,280	39,641	316,906	177,402	380,186	23,500	182,804

Fel y nodwyd yn nhabl 4, gwnaed un taliad arbennig i gydweithiwr a oedd yn gadael y sefydliad yn 2022-2023. Mae taliadau arbennig yn cyfeirio at daliadau diswyddo arbennig a delir i gyflogeion ac eraill sydd uwchlaw'r gofynion statudol neu gontractiol arferol wrth adael cyflogaeth, p'un a ydynt yn ymddiswyddo, yn cael eu diswyddo neu'n cyrraedd terfyniad contract y cytunwyd arno. Yn unol â threfniadau llywodraethu a gymeradwywyd gan y Cyngor, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am gymeradwyo taliadau o'r fath yn unol â meini prawf y cytunwyd arnynt gan y Cyngor.

Ar sail y wybodaeth a ddarparwyd gan y Pwyllgor Gwaith, roedd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn fodlon, o dan yr amgylchiadau eithriadol a gyflwynwyd, bod cyfiawnhad dros gymeradwyo a bod modd ei amddiffyn.

Cydnabyddiaeth Ariannol ac asesiad perfformiad cyflogeion eraill

Mae gan bob cyflogai gyfnod prawf o chwe mis ar ddechrau cyflogaeth a chyfnod rhybudd o un i dri mis, yn dibynnu ar eu gradd.

Adolygir cydnabyddiaeth ariannol pob cyflogai yn flynyddol gan ystyried ystod o wybodaeth gan gynnwys trosiant cyflogeion, gweithgarwch recriwtio a thueddiadau cadw, data meincnodi a fforddiadwyedd cyffredinol. Yn seiliedig ar y wybodaeth hon, cymeradwyodd y Cyngor gynnydd cyfradd safonol o dri y cant mewn cyflog ar gyfer yr holl gyflogeion cymwys o 1 Ebrill 2022.

Ym mis Tachwedd 2022 cytunodd y Cyngor i wneud taliad untro i bob cyflogai cymwys (ac eithrio swyddogion gweithredol) i fynd i'r afael â'r cynnydd cyflym mewn costau byw. Roedd hyn yn cyfateb i daliad anghyfunol o £750.

Ar gyfer 2022-2023, cymeradwyodd y Cyngor gynnydd cyfradd safonol o bump y cant mewn cyflog ar gyfer yr holl gyflogeion cymwys o 1 Ebrill 2023. Mae'r cynnydd hwn hefyd wedi'i gymhwysu i isafswm ac uchafswm gwerthoedd pob un o'r graddau cyflog staff a gyflwynwyd yn Hydref 2019. Cymeradwyodd y Cyngor y buddsoddiad hwn gan fod tystiolaeth gan ymgynghorwyr meincnodi a gwobrwyo wedi cadarnhau bod ein hystodau cyflog wedi disgyn y tu ôl i sefydliadau cymharol.

Fel rhan o'r Cynllun Pobl a'r prosiect cyfanswm gwobrau, rydym hefyd wedi cynnal adolygiad o'n holl wobrau gan ddefnyddio ymgynghorwyr allanol. Yn dilyn eu hargymhellion, rydym yn rhoi rhai newidiadau ar waith i'n graddfeydd cyflog presennol gan gynnwys culhau'r ystodau a chyflwyno methodoleg datblygiad cyflog i gyflogeion symud drwy eu hystod cyflog sy'n cael ei chyflawni drwy gyflwyno cynyddrannau cyflog. Bydd hyn yn sicrhau bod hyd yn oed pen isaf ein hystodau cyflog yn parhau'n gystadleuol i'r farchnad allanol, yn mynd i'r afael â phryderon presennol cydweithwyr ynghylch diffyg datblygiad cyflog ac yn lleihau'r posibilrwydd y bydd unrhyw faterion cyflog cyfartal yn codi yn y dyfodol. Bydd y gwaith hwn yn costio 2.3 y cant ychwanegol o'r gyllideb gyflog gyfredol i'w weithredu ym mis Ebrill 2023.

Roedd ein proses adolygu perfformiad a datblygiad yn gweithredu fel mewn blynyddoedd blaenorol, ag amcanion blynyddol wedi'u pennu ar gyfer y flwyddyn i ddod ym mis Mai ag adolygiad ac arfarniad canol blwyddyn ar ddiwedd y flwyddyn. Nid yw'r broses hon yn gysylltiedig â chyflog ar hyn o bryd, ond rydym yn bwriadu eu cysylltu â chyflogau o fis Ebrill 2024.

Ym mis Hydref 2022, fe wnaethom gydnabod UNSAIN fel yr undeb llafur y byddwn yn ymgysylltu ag ef ar faterion y cytunwyd arnynt, gan gynnwys cyflog, telerau ac amodau cyflogaeth a ffyrdd o weithio.

Trefniadau pensiwn

Hyd at 30 Mehefin 2021, roedd gennym ddau gynllun pensiwn gweithredol: cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio a chynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio.

Roedd cyflogeion a ymunodd â'r NMC cyn mis Tachwedd 2013 yn gallu ymuno â'r cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio. Caewyd y cynllun i gyflogeion a oedd yn ymuno â'r NMC ar ôl 1 Tachwedd 2013. Ar 23 Mawrth 2021, yn dilyn ymgynghoriad, cymeradwyodd y Cyngor gau'r cynllun â buddion wedi'u diffinio i gronni buddion yn y dyfodol o 1 Gorffennaf 2021. Cyflawnodd hyn yr amcanion o gysoni buddion i bob cydweithiwr, gan leihau amlygiad yr NMC i risg ariannol a galluogi costau i gael eu hailgyfeirio i wariant arall.

Mae ein cynllun pensiwn gweithredol presennol yn gynllun pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio.

Gall cyflogeion ddewis cyfrannu at y cynllun hwn drwy aberthu cyflog. Mae cyflogeion yn y cynllun yn cyfrannu o leiaf un y cant o'u cyflog, sy'n cael ei gyfateb wrth i'r NMC gyfrannu wyth y cant (2021-2022: wyth y cant). O 1 Ebrill 2021fe wnaeth yr NMC gyfateb cyfraniadau ychwanegol gan gyflogeion hyd at uchafswm cyfraniad cyflogwr o 14 y cant. I dderbyn cyfraniad cyflogwr o 14 y cant, byddai angen i gyflogai gyfrannu o leiaf saith y cant. Rydym yn annog ac yn cefnogi cydweithwyr i fyfyrion ar y ffordd orau o gynllunio ar gyfer eu hymddeoliad a sicrhau eu bod yn manteisio'n llawn ar ein cynllun pensiwn. Ar 31 Mawrth 2023, roedd 1,022 o gyflogeion (94.2 y cant) yn aelodau o'r cynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio (31 Mawrth 2022: 990, 92.9 y cant).

Ceir rhagor o wybodaeth am daliadau a phensiynau yn nodiadau 9 a 19 i'r cyfrifon.

Strwythur graddio a gwahaniaethau cyflog yr NMC

Tabl 5

Cyflogeion yn ôl gradd a rhywedd ar 31 Mawrth 2023

Lefel Cyflog	Gwryw		Benyw	
	Canran y cydweithwyr	Nifer y cydweithwyr	Canran y cydweithwyr	Nifer y cydweithwyr
1-4	12.3	133	34.4	373
5-7	15.1	163	26.3	285
8-11	3.7	40	7.5	81
Cyfarwyddwyr Gweithredol, gan gynnwys interim/dros dro	0.3	3	0.4	4
Prif Weithredwr a Chofrestrydd (CE ac R)	0.0	0	0.1	1
Cyfanswm y cyflogeion	31.3	339	68.7	744

Tabl 6

Cyflogeion yn ôl gradd ac ethnigrwydd ar 31 Mawrth 2023

Lefel Cyflog	Gwyn		BME		Heb ei ddatgelu neu well ganddynt beidio ag ateb	
	Canran y cydweithwyr	Nifer y cydweithwyr	Canran y cydweithwyr	Nifer y cydweithwyr	Canran y cydweithwyr	Nifer y cydweithwyr
1-4	15.9	172	24.7	268	6.1	66
5-7	23.5	254	13.1	142	4.8	52
8-11	8.5	92	1.9	21	0.7	8
Cyfarwyddwr Gweithredol, gan gynnwys interim/dros dro	0.5	5	0	0	0.2	2
CE ac R	0.1	1	0	0	0	0
Cyfanswm y cyflogeion	48.4	524	39.8	431	11.8	128

Datgeliadau tâl teg (archwiliwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol)

Mae cydnabyddiaeth yn y cyfrifiad canlynol yn seiliedig ar gyflog cyfatebol llawn amser blynyddol, yr holl staff (heb gynnwys staff contractwyr ac asiantaethau) megis ar y dyddiad adrodd. Nid yw'n cynnwys gwyliau blynyddol a thâl, cyfraniadau pensiwn cyflogwr, treuliau trethadwy na gwerth trosglwyddo cyfatebol i arian pensiynau.

Y cyflogai parhaol sy'n cael y tâl uchaf yn yr NMC ar 31 Mawrth 2023 yw'r Cyfarwyddwr Gweithredol Ymarfer Proffesiynol, Sam Foster, ac rydym wedi defnyddio ei chyflog fel cymharydd wrth gyfrifo'r gwahaniaeth i daliadau chwartel isaf, canolrif a chwartel uchaf cyflogeion yr NMC.

- Roedd y cyflog uchaf yn 2022-2023 (Sam Foster: £176,000) £1,000 yn fwy na'r cyflog uchaf yn 2021-2022 (Andrea Sutcliffe, Prif Weithredwr a Chofrestrydd: £175,000). Wrth gymryd cyflogeion yr endid yn ei gyfanrwydd (ac eithrio'r cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf), roedd y newid mewn cyflog cyfartalog o 2022-2023 i 2021-2022 yn gynydd o 5.17 y cant oherwydd y cynnydd mewn cyflog ar gyfer yr holl gyflogeion cymwys - fel rhan o'r Adolygiad cyflog Ebrill 2022, lle roedd y cynnydd cyfartalog yn 4.3 y cant - a'r galw cynyddol am gyflogau gan ymgeiswyr allanol oherwydd y farchnad recriwtio fwy cystadleuol. Ni dderbyniodd unrhyw gyflogeion dâl perfformiad na bonysau yn y flwyddyn ariannol gyfredol na'r flwyddyn ariannol flaenorol. Ar 31 Mawrth 2023, ystod y gydnabyddiaeth ariannol yn yr

NMC oedd £20,395 i £176,000 (ar 31 Mawrth 2022: £19,000-£175,000).

- Yn 2022-2023, roedd cydnabyddiaeth ariannol Sam Foster 4.37 gwaith yn fwy na chydnabyddiaeth ganolrifol cyflogeion yr NMC, sef £40,238. Yn 2021-2022, roedd cydnabyddiaeth ariannol Andrea Sutcliffe 4.76 gwaith yn fwy na chydnabyddiaeth ganolrifol cyflogeion yr NMC, sef £36,792. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 0.39 yn y bwlch cyflog canolrifol flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'r cyflog cydnabyddiaeth canolrifol wedi cynyddu ers 2021-2022 o ganlyniad i'r adolygiad cyflog blynyddol a chynnydd dilyniant y cytunwyd arno ym mis Ebrill 2022.
- Yn 2022-2023, roedd cydnabyddiaeth ariannol Sam Foster 5.68 gwaith yn fwy na chydnabyddiaeth ariannol chwartel isaf cyflogeion yr NMC, sef £31,000. Yn 2021-2022, roedd tâl Andrea Sutcliffe 5.85 gwaith yn fwy na chydnabyddiaeth ariannol chwartel isaf cyflogeion yr NMC, sef £29,910. Mae hyn yn ostyngiad o 0.17 yn y bwlch taliadau chwartel isaf flwyddyn ar ôl blwyddyn. Roedd hyn oherwydd y ffocws ar ein cyflogeion ar y cyflogau isaf yn derbyn y cynnydd mwyaf yn adolygiad cyflog blynyddol Ebrill 2022.
- Yn 2022-2023, roedd cydnabyddiaeth ariannol Sam Foster 3.07 gwaith yn fwy na chydnabyddiaeth ariannol chwartel uchaf cyflogeion yr NMC, sef £57,481. Yn 2021-2022, roedd cydnabyddiaeth ariannol Andrea Sutcliffe 3.18 gwaith yn fwy na chydnabyddiaeth ariannol chwartel uchaf cyflogeion yr NMC, sef £55,000. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 0.11 ym bwlch cydnabyddiaeth y chwartel

uchaf flwyddyn ar ôl blwyddyn. Cynyddodd cyflog cydnabyddiaeth ariannol y chwarter uchaf ers 2021-2022 wrth i gyfran y gweithwyr ar raddau uwch gynyddu.

Adrodd ar y bwlch cyflog

Ers 2017, mae deddfwriaeth wedi ei gwneud yn ofynnol i ni gyhoeddi ein data bwlch cyflog rhwng y rhywiau; yn ogystal, ers 2020 rydym hefyd wedi cyhoeddi ein data bwlch cyflog ethnigrwydd ac anabledd yn wirfoddol.

Mae'r data hyn yn rhoi mewnwelediad i ble mae angen i ni wella er mwyn cynnig cyfleoedd cyflogaeth cynhwysol waeth beth fo'u rhyw, ethnigrwydd ac anabledd. Rydym wedi defnyddio'r un fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer cyfrifiadau cyflog rhwng y rhywiau i gyfrifo ein bylchau cyflog ethnigrwydd ac anabledd.

Dangosir ein data bwlch cyflog ar gyfer 2023 yn y tabl isod gyda data 2022 i'w gymharu. Mae copi o'n canlyniadau ar gyfer 2022 hefyd i'w weld yn **Adroddiad Bwlch Cyflog 2022**.

Bwlch cyflog	Ar 5 Ebrill 2023	Ar 5 Ebrill 2022	Cyfrataledd y DU ar gyfer 2022 ¹
Rhywedd - Cymedr	8.1%	6.2%	11.8%
Rhyw - Canolrif	14.6%	12.7%	11.8%
Ethnigrwydd - Cymedr	27.5%	25.5%	Dim digon o ddatganiadau i gyfrifo ffigurau cywir.
Ethnigrwydd – Canolrif	39.7%	27.1%	
Anabledd - Cymedr	-6.1%	-4.4%	
Anabledd - Canolrif	-7.8%	-11.8%	

Mae ein data bwlch cyflog yn dweud wrthym ein bod yn 2022-2023 wedi penodi mwy o fenywod a chydweithwyr o gefndir lleiafrifoedd ethnig mewn rolau gradd is heb gynyddu cynrychiolaeth menywod a chydweithwyr o gefndir ethnig lleiafrifol mewn rolau uwch ac mae hyn wedi ehangu ein bylchau cyflog rhywedd ac ethnigrwydd. Bydd naratif manwl ar fylchau cyflog yr NMC ar gyfer 2023 a'r camau y bwriadwn eu cymryd i fynd i'r afael â nhw yn cael ei chyhoeddi yn ein hadroddiadau ar fylchau cyflog. Bydd y rhain yn cael eu hystyried gan y Cyngor ym mis Medi 2023, cyn eu cyhoeddi.

Mae 2022-2023 wedi gweld mentrau fel datblygu rhaglen hyfforddiant rheoli gynhwysfawr ag EDI wedi'i ymwreiddio drwyddi draw, hyfforddiant recriwtio cynhwysol, system recriwtio ddienw newydd ac ailfodelu ein cyflogau a'n gwobrau. Bydd hyn yn gosod y sylfeini i gau'r bylchau hyn. Rydym hefyd yn adnewyddu ein Cynllun Pobl i sicrhau bod aliniad cryfach rhwng ein hymrwymadau i leihau ein bylchau cyflog a'n blaenoriaethau gwella sy'n ymwneud â phobl.

¹ [Adrodd ar gyflog ethnigrwydd: canllawiau i gyflogwyr - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk)

Bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Ein bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau ar 5 Ebrill 2022 oedd 6.2 y cant. Ar 5 Ebrill 2023 roedd hyn wedi cynyddu i 8.1 y cant. Mae hyn o ganlyniad i dwf sefydliadol a recriwtio yn 2022-2023 sydd wedi gweld cynnydd cyffredinol yng nghyfran y cydweithwyr benywaidd mewn rolau gradd is.

Lansiwyd ein Cynllun Pobl ym mis Ebrill 2022 a chyhoeddwyd ein Cynllun EDI ym mis Medi 2022, ac roedd y ddau yn nodi sut y byddwn yn gwella ein prosesau lle mae tystiolaeth o ragfarn neu ganlyniadau anghyfartal. Mae hyn yn cynnwys ymgorffori EDI yn ein rhaglen datblygu Rheolaeth a ffocws ar recriwtio cynhwysol. Yn hydref 2022 fe wnaethom lansio polisi gweithio hybrid. Gan ddefnyddio mewnwelediadau o'n data rydym yn gwybod bod mwyafrif y rhieni a gofalwyr yn fenywod. Mae'r polisi gweithio hybrid yn galluogi cydweithwyr i weithio mewn ffordd fwy hyblyg a fydd, gobeithio, yn cefnogi dilyniant gyrfa.

Bwlch cyflog ethnigrwydd

Ein bwlch cyflog cymedrig o ran ethnigrwydd (a gyfrifwyd yn unol â chanllawiau BEIS i gyflogwyr a gyhoeddwyd yn ddiweddar²) ar 5 Ebrill 2022 oedd 25.5 y cant. Mae ein ffigurau ar gyfer 2023 yn dangos bod hyn wedi cynyddu i 27.5 y cant.

Mae ein dadansoddiad yn dangos, wrth i ni dyfu fel sefydliad, ein bod wedi recriwtio mwy o ymgeiswyr o gefndir Du a lleiafrifoedd ethnig i rolau yn ein graddau is heb gynyddu cynrychiolaeth mewn rolau uwch, gan felly gynyddu ein bwlch cyflog.

Rydym wedi ymrwmo i gymryd camau ystyrlon ac eisoes wedi cymryd rhai camau pwysig yn seiliedig ar yr hyn rydym wedi'i ddysgu. Un cam gweithredu o'r fath yw drwy ein rhaglen fentora Codi Gyda'n Gilydd. Mae Codi Gyda'n Gilydd wedi'i gynllunio i adeiladu diwylliant sy'n annog cydweithio, tegwch a chynwysoldeb i alluogi pob cydweithiwr i wireddu ei botensial. Mae'n creu cyfle i gydweithwyr dderbyn cymorth mentora, a thrwy hynny eu galluogi i symud ymlaen yn eu gyrfaedd a chyflawni twf proffesiynol. Nod y rhaglen yw cefnogi cydweithwyr i ddeall pwysigrwydd ymgorffori amrywiaeth a chynhwysiant mewn prosesau a ffyrdd o weithio. Mae hefyd yn anelu at arfogi ein harweinwyr a rheolwyr â'r gallu i wella profiad cydweithwyr a bod yn atebol am gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Mae'r rhaglen bellach yn ei thrydedd flwyddyn ac mae nifer y cyfranogwyr wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae 41 y cant o'r menteion ac 11 y cant o fentoriaid ar raglen 2022-2023 wedi symud i secondiad mewnol neu ddyrchafiad. Rydym hefyd wedi rhoi system olrhain ymgeiswyr recriwtio newydd ar waith sy'n ein galluogi i nodi'n well lle gallai rhwystrau a meysydd i'w gwella fodoli yn ein proses recriwtio bresennol. Mae hyn wedi'i gefnogi drwy ddatblygu hyfforddiant recriwtio cynhwysol a hyfforddiant wedi'i dargedu sydd ar ddod a chymorth i gydweithwyr ar adeiladu eu gyrfa a chwblhau ceisiadau am swydd.

² [Adrodd ar gyflog ethnigrwydd: canllawiau i gyflogwyr - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk)

Bwlch cyflog anabledl

309 Ein bwlch cyflog anabledl cymedrig ar 5 Ebrill 2022 oedd -4.4 y cant, ac ar 5 Ebrill 2023, mae'n -6.1 y cant. Mae hyn yn golygu bod cydweithwyr a ddywedodd wrthym eu bod yn anabl ar gyfartaledd yn cael mwy o dâl na phobl nad ydynt wedi gwneud hynny. Rydym yn cydnabod y gallai tangofnodi anabledl yn y gweithlu fod yn achos y bwlch cyflog anabledl gwrthgyfartal yma, gan fod ein data'n dangos bod pobl yn ein chwarterel cyflog uchaf bron ddwywaith yn fwy tebygol o ddweud wrthym eu bod yn anabl na'u cydweithwyr yn ein chwarterel talu gwaelod.


Nid yw 21 y cant o'n cydweithwyr ar y cyflogau isaf wedi rhannu unrhyw ddata monitro ynghylch a ydynt yn anabl ai peidio, o gymharu ag 8 y cant o'n cydweithwyr ar y cyflogau uchaf. Rydym wedi cymryd camau, gyda chymorth ein rhwydwaith Workaround, i gynyddu nifer y cydweithwyr sy'n rhannu data monitro amrywiaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar anabledl. Mae hyn wedi cynyddu cyfran y cydweithwyr sydd wedi dweud wrthym eu bod yn anabl o 7.7 y cant i 9.8 y cant. Byddwn yn parhau i gymryd camau i sicrhau bod pob cydweithiwr yn teimlo'n hyderus i rannu'r wybodaeth hon.

Syr David Warren

Cadeirydd
10 Gorffennaf
2023

Andrea Sutcliffe

Prif Weithredwr
a Chofrestrydd
10 Gorffennaf
2023



**Datganiad o
gyfrifoldebau'r
Cyngor a'r Prif
Weithredwr a
Chofrestrydd
mewn perthynas
â'r cyfrifon**

Mae Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 yn ei gwneud yn ofynnol i gyfrifon blynyddol gael eu paratoi a'u harchwilio. Y Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd (fel Swyddog Cyfrifyddu) sy'n gyfrifol am baratoi a chymeradwyo'r cyfrifon.

Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi yn dilyn penderfyniad a dderbynir gan y Cyfrin Gyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol â'r Datganiad o Arferion a Argymhellir ar gyfer Cyfrifon ac Adroddiadau Elusennau (SORP) diwygiedig 2019 a bod y cyfrifon hefyd yn cydymffurfio â'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu a gyhoeddir (Atodiad 1).

Mae'r gyfraith sy'n gymwys i elusennau sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru a Lloegr a'r Alban yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen a'i symudiad net mewn cronfeydd ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi y cyfrifon hyn rhaid iddynt:

- cadw at y penderfyniad cyfrifon cymwys a gyhoeddir gan y Cyfrin Gyngor
- dewis polisiau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson
- cadw at y dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd y Cyngor yn parhau i weithredu
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol.

Mae'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir, sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Cyngor ac yn eu galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Deddf Elusennau a Buddsoddi Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006 a Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r Cyngor ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

Mae'r Cyfrin Gyngor wedi penodi'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cyfrifyddu, mae'n gyfrifol am gyflawni rhwymedigaethau'r Cyngor o dan adran 52 o'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (fel y'i diwygiwyd). Wrth wneud hynny, gofynnir iddi ystyried yr egwyddorion a nodir ym Mhennod 3 sy'n ymwneud â chyfrifoldebau Swyddogion Cyfrifyddu a'r canllawiau ehangach a geir yn Rheoli Arian Cyhoeddus (Trysorlys EF, 2013, ag atodiadau wedi'u diwygio ym mis Mawrth 2018).

Hyd y gwyddom, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr NMC yn ymwybodol ohoni. Rydym wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd i wneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr yr NMC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'i fod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Prif le busnes

Mae'r NMC yn gweithio ledled Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Ei phrif le busnes yw:

23 Portland Place
Llundain, W1B 1PZ

Cynghorwyr

Archwilydd Allanol Annibynnol:

HW Fisher LLP, Acre House
11-15 William Road
Llundain, NW1 3ER

Bancwyr:

HSBC Bank Plc Space One
Floor 2, 1 Beadon Road
Llundain W6 0EA

Archwilydd Statudol:

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria, Llundain, SW1W 9SP

Rheolwyr Buddsoddi:

Sarasin & Partners LLP, Juxon House
100 St Paul's Churchyard, Llundain
EC4M 8BU

Archwilydd Mewnol:

RSM Risk Assurance Services LLP
25 Farringdon Street,
Llundain, EC4A 4AB


Cyfreithwyr:

Capsticks Solicitors LLP
1 St Georges Road
Llundain, SW19 4DR

Mills & Reeve LLP
24 King William Street
Llundain, EC4R 9AT

Addleshaw Goddard LLP
60 Chiswell Street
Llundain, EC1Y 4AG

Trowers & Hamblins LLP
3 Bunhill Row
Llundain, EC1Y 8YZ




Datganiad llywodraethu blynyddol

Rydym yn gorff statudol annibynnol.

Mae ein cyfrifoldebau amcanion statudol wedi'u nodi yng Ngorchymyn Nyrso a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd (OS 2002/253), (y Gorchymyn).

Rydym hefyd yn elusen gofrestredig; cofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362). Mae ein hamcan elusennol yn adlewyrchu ein hamcan statudol trosfwaol: amddiffyn a diogelu iechyd a lles y cyhoedd. Mae'r Cyngor yn ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau (CC) a Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (OSCR) wrth wneud penderfyniadau; trwy gydol yr adroddiad hwn rydym yn esbonio sut mae ein gwaith yn dangos budd cyhoeddus.



Y Cyngor

Y Cyngor yw ein corff llywodraethu ac aelodau'r Cyngor yw'r ymddiriedolwyr elusen. Mae aelodau'r Cyngor ar y cyd yn gyfrifol am sicrhau bod yr NMC yn cael ei redeg yn dda, yn ddiddyled ac yn darparu budd cyhoeddus.

Cylch gwaith y Cyngor yw (a) gosod ein cyfeiriad strategol a'n hamcanion corfforaethol, yn unol â'n diben craidd; (b) sicrhau bod systemau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli perfformiad a risg; a (c) cynnal uniondeb wrth arfer ein swyddogaethau a'r defnydd o arian ac atebolrwydd cyhoeddus am hynny. Mae ein Cynllun Dirprwyo yn nodi pa faterion y gall y Cyngor yn unig benderfynu arnynt.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 12 aelod a rhaid i hanner ohonynt fod yn weithwyr proffesiynol ar ein cofrestr a hanner yn aelodau lleyg, fel y nodir yng **Ngorchymyn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Cyfansoddiad) (Diwygio) 2008 (OS 2008/2553)**. Mae aelodau lleyg yn bobl nad ydynt erioed wedi bod yn nyrs, bydwaig neu gydymaith nyrsio cofrestredig. Fel rheoleiddiwr y DU gyfan, rhaid i aelodaeth y Cyngor gynnwys o leiaf un aelod sy'n byw neu'n gweithio'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Fel y nodwyd yn yr adran adolygu perfformiad, mae diwygio rheoleiddio yn debygol o arwain at newidiadau sylweddol i gyfansoddiad y Cyngor, yn ogystal â pholisïau a phrosesau ategol.

Bydd pob newid yn rhan o raglen ddiwygio'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a bydd yn destun ymgynghoriad, ac ni ddisgwylir iddynt ddod i rym tan fis Ebrill 2025 ar y cynharaf. Er mwyn sicrhau ein bod wedi paratoi'n dda ar gyfer y newidiadau, yn ystod 2022-2023 rydym wedi symud ymlaen â gwaith paratoi i sicrhau y gellir gweithredu newidiadau posibl i'n strwythur llywodraethu a chyfansoddiad y Cyngor yn effeithiol.

Penodir Cadeirydd ac aelodau'r Cyngor gan y Cyfrin Gyngor, yn dilyn prosesau dethol agored a chystadleuol. Mae'r Cyfrin Gyngor yn cael sicrhwydd gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (PSA) ynghylch cadernid ein prosesau penodi neu ailbenodi.

Yn ystod 2022-2023, digwyddodd y penodiadau neu'r ailbenodiadau canlynol:

- Daeth Margaret McGuire i'w swydd fel aelod o Gyngor yr Alban ar 1 Mai 2022, gan gymryd lle Justine Craig a ymddiswyddodd o'i rôl ar 31 Rhagfyr 2021 yn dilyn ei phenodiad yn Brif Swyddog Bydwreigiaeth yr Alban.
- Ailbenodwyd Claire Johnston am ail dymor o 1 Mai 2022.
- Gadawodd Syr Hugh Bayley, Marta Phillips a Karen Cox y Cyngor pan ddaeth eu hail dymor i ben ar 30 Ebrill 2023. Daeth Lindsay Foyster a Nadine Pemberton Jn Baptiste yn eu swyddi ar 1 Mai 2023. Ni arweiniodd y broses dethol ar gyfer aelod cofrestredig o'r Cyngor at argymhelliad ar gyfer penodi. Bydd y broses yn cael ei hail-redeg yn 2023.

- Penodwyd Ruth Walker yn Is-Gadeirydd (cofrestrydd), yn dilyn ymadawiad Karen Cox. Mae Derek Pretty yn parhau i fod yn Is-Gadeirydd (lleyg).

Cynllun Aelodau Cyswllt y Cyngor

Sefydlodd y Cyngor gynllun Aelodau Cyswllt ym mis Gorffennaf 2020 (Rheolau Sefydlog, paragraff 3.7) i ddarparu cyfleoedd i unigolion sydd â'r potensial i ddatblygu'r sgiliau a'r arbenigedd sydd eu hangen i fod yn Gyfarwyddwyr Anweithredol. Mae Aelodau Cyswllt yn ymwneud â phob agwedd ar waith y Cyngor mewn ffordd debyg i aelodau penodedig y Cyngor ond nid ydynt yn ymddiriedolwyr. Gwneir y mwyafrif o benderfyniadau'r Cyngor drwy gonsensws ond ar yr achlysur prin y gwneir penderfyniad drwy bleidlais ffurfiol, nid yw Swyddogion Cyswllt yn cymryd rhan.

Er mwyn asesu ei effeithiolrwydd a nodi'r hyn a ddysgwyd, cynhaliwyd gwerthusiad graddol o iteriad cyntaf y cynllun. Bu'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn ystyried canfyddiadau ail gam y gwerthusiad ym mis Chwefror 2023, a ddaeth i'r casgliad bod y cynllun yn gweithredu'n dda ar y cyfan a bod rhai pwyntiau dysgu yn cael eu gweithredu.

Daeth tymor y ddau Aelod Cyswllt cyntaf, Dr Gloria Rowland a Tracey MacCormack i ben ar 31 Rhagfyr 2022. Yn dilyn proses benodi agored a chystadleuol, daeth Jabulani Chikore a Navjot Kaur Virk i'w swyddi fel Aelodau Cyswllt o 1 Mawrth 2023 am gyfnod o ddwy flynedd.

Presenoldeb Aelodau ac Aelodau Cyswilt y Cyngor rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023

Mae aelodaeth a phresenoldeb y Cyngor a'r Aelodau Cyswilt yn ystod 2022-2023 wedi'u nodi isod.

Aelod	Nifer y sesiynau a fynychwyd*	Nifer y sesiynau'n gymwys i'w mynychu*	% y sesiynau a fynychwyd
Syr David Warren (Cadeirydd)	14	14	100
Syr Hugh Bayley	12	14	86
Yr Athro Karen Cox	10	14	71
Claire Johnston	13	14	93
Dr Margaret McGuire OBE (o 1 Mai 2022)	14	14	100
Eileen McEaney MBE	11	14	79
Derek Pretty	14	14	100
Marta Phillips OBE	9	14	64
Anna Walker CB	14	14	100
Ruth Walker MBE	14	14	100
Sue Whelan Tracy	13	14	93
Dr Lynne Wigans OBE	12	14	86
Aelod Cyswilt			
Jabulani Chikore ³ (o 1 Mawrth 2023)	0	2	0
Tracey MacCormack (tan 31 Rhagfyr 2022)	9	10	90
Dr Gloria Rowland MBE (tan 31 Rhagfyr 2022)	8	10	80
Navjot Kaur Virk (o 1 Mawrth 2023)	2	2	100

* Yn cynnwys cyfarfodydd Agored a Chyfrinachol

³ Nid oedd Jabulani Chikore yn gallu mynychu ei gyfarfod cyntaf oherwydd ymrwymiad a oedd yn bodoli eisoes a ddatganwyd cyn ei benodi..

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn dryloyw ac mae'n ceisio cynnal cymaint o fusnes â phosibl mewn cyfarfodydd Agored y gall aelodau'r cyhoedd eu mynychu. Dim ond os ydynt yn dod o fewn yr eithriad a nodir yn Rheolau Sefydlog y Cyngor (paragraff 5.2.5) y gellir ystyried materion mewn cyfarfodydd Cyfrinachol.

Oherwydd y pandemig Covid-19, cynhaliwyd holl seminarau a chyfarfodydd y Cyngor rhwng Mawrth 2020 a Chwefror 2022 yn rhithwir, fel y caniateir o dan y Rheolau Sefydlog. Ers mis Mawrth 2022, roeddem yn falch o allu ailddechrau cyfarfodydd y Cyngor yn bersonol. Rydym yn cydnabod bod gweithio'n rhithwir wedi dod â manteision gan y gallai arsylwyr fynychu o bell ac rydym yn edrych i weld sut y gallwn wneud cyfarfodydd Agored mor hygyrch â phosibl i aelodau'r cyhoedd ledled y DU.

Yn ogystal â chyfarfodydd ffurfiol, mae aelodau'r Cyngor ac Aelodau Cyswllt yn mynychu seminarau misol, yn cynnal cynadleddau fideo ac yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys mynychu l Grwpiau Tasg amrywio, sesiynau briffio a gweminarau gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gweithwyr proffesiynol a chydweithwyr yr NMC. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu i sicrhau bod gan aelodau'r Cyngor y mewnwelediad sydd ei angen arnynt i ddwyn y Weithrediaeth i gyfrif a gwneud penderfyniadau gwybodus.

Effeithiolrwydd Llywodraethu

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynnal y safonau llywodraethu uchaf. Mae ein harfer yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Da Llywodraethu Corfforaethol Swyddfa'r Cabinet ar gyfer adrannau llywodraeth ganolog i'r graddau y mae'n berthnasol. Rydym hefyd yn ymdrechu i fodloni'r egwyddorion a'r arferion a argymhellir yn y Cod Llywodraethu Elusennau ac Egwyddorion Moesegol Elusennau Cyngor Cenedlaethol Sefydliadau Gwirfoddol. Mae'r Cyngor yn cynnal ei fusnes yn unol â'n gwerthoedd sefydliadol – teg, caredig, uchelgeisiol a chydweithredol – a saith egwyddor bywyd cyhoeddus: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

Mae aelodau'r Cyngor ac Aelodau Cyswllt yn cael cyfnod cynefino llawn pan gânt eu penodi ac yn cynnal gwerthusiadau unigol yn flynyddol. Mae'r rhain yn llywio datblygiad unigol a chyfunol yn y dyfodol, yn ogystal ag ystyried ailbenodiadau.

Yn unol â llywodraethu da, mae'r Cyngor yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'i effeithiolrwydd ei hun, gan gynnwys adolygiadau a hwylusir yn allanol. Yn ystod 2022-2023, comisiynwyd Campbell Tickell i gynnal adolygiad allanol o'n trefniadau llywodraethu yn dilyn proses dendro gystadleuol. Disgwyliwn i'w canfyddiadau gael eu hadrodd i'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2023. Un o feysydd allweddol yr adolygiad yw nodi'r ffordd orau i ni baratoi ein hunain ar gyfer effaith diwygio rheoleiddio, yn arbennig y symudiad posibl i fodel bwrdd unedol.

Pwyllgorau'r Cyngor

Mae'r Cyngor yn parhau i fod â Phwyllgor Archwilio, Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol, Bwrdd Penodiadau, Pwyllgor Buddsoddi a Phwyllgor Llety.

Mae penodi aelodau'r Cyngor i'r Pwyllgorau Archwilio, Cydnabyddiaeth Ariannol, Buddsoddi a Llety yn cael ei lywodraethu gan Reolau Sefydlog a Chynllun Dirprwyo'r Cyngor, ynghyd â set o egwyddorion a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2015. Adolygir aelodaeth Pwyllgorau'r Cyngor yn rheolaidd. Mae'r Cadeirydd yn aelod ex-officio o holl Bwyllgorau'r Cyngor, ac eithrio'r Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd Penodiadau.

Mae cylch gwaith, aelodaeth a chofnod presenoldeb pob Pwyllgor wedi'u nodi isod. Fe wnaeth y Pwyllgorau nifer o benderfyniadau hefyd drwy ohebiaeth y tu allan i'r cyfarfodydd a nodir isod, lle bo angen ac yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

Y Pwyllgor Archwilio

Cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio yw cefnogi'r Cyngor a'r rheolwyr drwy adolygu pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw'r sicrwydd ar lywodraethu, rheoli risg, yr amgylchedd rheoli a chywirdeb datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol.

Mae'r Pwyllgor wedi croesawu presenoldeb y Prif Weithredwr a Chofrestrydd, yr Archwilwyr Mewnol, yr Archwilwyr Allanol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) yn ei gyfarfodydd. Yn unol ag arfer da, mae'r Pwyllgor wedi cynnal cyfarfodydd preifat gyda'r archwilwyr ar adegau priodol yn ystod y flwyddyn.

Ceir crynodeb o weithgareddau allweddol y Pwyllgor yn 2022-2023 isod.

- Adolygu'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r Adroddiad Addasrwydd i Ymarfer Blynyddol ac argymhell cymeradwyo'r adroddiadau hynny i'r Cyngor. Adolygodd y Pwyllgor hefyd adroddiadau'r Archwilwyr Allanol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ac ymatebion y Bwrdd Gweithredol i argymhellion a wnaed gan yr archwilwyr.
- Adolygu'r polisiau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023.
- Adolygu trefniadau rheoli risg a sicrwydd, gan gynnwys cynnal adolygiadau cynhwysfawr o risgiau, mesurau lliniaru a ffynonellau sicrwydd ynghylch gwaith craidd.

- Cymeradwyo'r cynllun gwaith archwilio mewnol ar gyfer 2022-2023, adolygu canlyniadau adroddiadau archwilio mewnol a goruchwylio'r camau gweithredu i fwrw ymlaen â chau argymhellion archwilio mewnol sy'n weddill.
- Adolygu camau tendro unigol a cheisio sicrwydd bod y Pwyllgor Gwaith yn glynu at brosesau caffael priodol a bod modd cyfiawnhau unrhyw gamau tendro unigol.
- Monitro gweithrediad a defnydd polisiâu mewnol Chwythu'r Chwiban a Gwrth-dwyll, Caethwasiaeth Fodern, Llwgrwobrwyo, a Llygredd i fod yn sicr bod unrhyw faterion a godir yn cael eu hymchwilio'n gynhwysfawr a bod unrhyw gamau gweithredu a dysgu yn cael eu datblygu. Fel rhan o'r gwaith hwn, maent hefyd yn adolygu'r Datganiad Caethwasiaeth Fodern.

Roedd aelodaeth y Pwyllgor a phresenoldeb ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 fel a ganlyn:

Aelod	Nifer y sesiynau a fynychwyd	Nifer y sesiynau'n gymwys i'w mynychu	% y sesiynau a fynychwyd
Marta Phillips OBE (Cadeirydd)	5	5	100
Derek Pretty	5	5	100
Eileen McEaney MBE	5	5	100
Sue Whelan Tracy	4	5	80

Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol

Cylch gwaith y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yw sicrhau bod systemau priodol ar waith ar gyfer taliadau a chynllunio olyniaeth. Yn 2022-2023, roedd gweithgareddau allweddol yn cynnwys:

- cymeradwyo prosesau dethol ar gyfer tri aelod newydd o'r Cyngor, dau aelod cyswllt newydd ac aelod newydd o'r Bwrdd Penodiadau
- cytuno i argymell y dyfarniad cyflog blynyddol ar gyfer 2023-2024 i'r Cyngor ac adolygu'r cynnig cyfanswm gwobrwyo
- adolygu canfyddiadau'r Panel Annibynnol ar lwfansau'r Cyngor
- adolygu effeithiolrwydd y cynllun Cyswllt
- cytuno i argymell codiad cyflog untro i'r Cyngor i adlewyrchu'r cynnydd mewn costau byw
- adolygu gwobrwyo'r Weithrediaeth
- adolygu cynnydd ar y Cynllun Pobl ac agweddau mewnol y Cynllun EDI.

Mae aelodaeth y Pwyllgor a phresenoldeb ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 i'w gweld isod:

Aelod	Nifer y sesiynau a fynychwyd	Nifer y sesiynau'n gymwys i'w mynychu	% y sesiynau a fynychwyd
Ruth Walker MBE (Cadeirydd)	7	7	100
Syr Hugh Bayley	7	7	100
Dr Lynne Wiggins OBE	5	7	71
Anna Walker CB	7	7	100

Y Pwyllgor Buddsoddi

Cylch gwaith y Pwyllgor Buddsoddi yw gorchwyllo gweithrediad strategaeth fuddsoddi'r Cyngor a monitro portffolio buddsoddi'r Cyngor. Yn 2022–2023, roedd gweithgareddau allweddol yn cynnwys adolygu'r polisi buddsoddi, craffu ar ymateb

y rheolwyr buddsoddi i anweddolrwydd economaidd byd-eang, a gweithio gyda'n rheolwyr buddsoddi i sicrhau bod materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yn cael eu hystyried yn briodol wrth reoli'r portffolio.

Roedd aelodaeth y Pwyllgor a phresenoldeb ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 fel a ganlyn:

Aelod	Nifer y sesiynau a fynychwyd	Nifer y sesiynau'n gymwys i'w mynychu	% y sesiynau a fynychwyd
Derek Pretty (Cadeirydd)	2	2	100
Thomasina Findlay (Aelod partner)	2	2	100
Nick McLeod-Clarke (Aelod partner)	2	2	100
Claire Johnston	2	2	100
Sue Whelan Tracy	1	2	50

Y Pwyllgor Llety

Sefydlwyd y Pwyllgor Llety gan y Cyngor ym mis Mai 2020 i oruchwylio gweithrediad Cynllun Llety'r Cyngor o fewn y paramedrau ariannol a pharmedrau eraill a osodwyd gan y Cyngor.

Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod yn ôl yr angen. Yn 2022-2023, cyfarfu'r Pwyllgor unwaith i ystyried y cyfrif terfynol ar gyfer ein swyddfa newydd yng Nghaeredin ac i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect i adnewyddu 23 Portland Place.

Roedd aelodaeth y Pwyllgor ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 fel a ganlyn:

Aelod	Nifer y sesiynau a fynychwyd	Nifer y sesiynau'n gymwys i'w mynychu	% y sesiynau a fynychwyd
Derek Pretty (Cadeirydd)	1	1	100
Anna Walker CB	1	1	100
Dr Lynne Wiggins OBE	1	1	100

Y Bwrdd Penodiadau

Mae'r Bwrdd Penodiadau yn cynnwys aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor (Partner), a benodir yn dilyn prosesau recriwtio cystadleuol agored.

Cylch gwaith y Bwrdd Penodiadau yw cynorthwyo'r Cyngor mewn cysylltiad ag arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â phenodi Cadeiryddion paneli Addasrwydd i Ymarfer ac aelodau ac Aseswyr Cyfreithiol i'r Pwyllgorau Ymarfer (y Pwyllgor Ymchwilio a'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer) a phenodi aelodau panel Addasrwydd i Ymarfer i'r panel Apeliadau Cofrestru.

Roedd gweithgareddau allweddol yn 2022-2023 yn cynnwys: penodi Cadeiryddion Panel newydd yn dilyn proses ddethol a oedd yn agored i ymgeiswyr allanol; goruchwylio sefydlu a hyfforddi Cadeiryddion Panel newydd; ailbenodi Aelodau'r Panel ac Aseswyr Cyfreithiol; cymeradwyo rhaglen hyfforddi Aelodau'r Panel ar gyfer 2023; a pharatoi ar gyfer proses ddethol ar gyfer Aelodau Panel ac Aseswyr Cyfreithiol newydd i ddechrau yn 2023.

Mae aelodaeth y Pwyllgor a phresenoldeb ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 wedi'u nodi isod.

Aelod	Nifer y sesiynau a fynychwyd	Nifer y sesiynau'n gymwys i'w mynychu	% y sesiynau a fynychwyd
Jane Slatter (Cadeirydd)	4	4	100
Robert Allan	4	4	100
Angie Loveless	4	4	100
Frederick Psyk (tan 31 Awst 2022)	2	2	100
Clare Salters	4	4	100

Rôl y Weithrediaeth

Penodir y Prif Weithredwr a Chofrestrydd gan y Cyngor ac mae'n atebol iddo. Rôl y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yw arwain a rheoli materion rheoleiddio, proffesiynol, busnes ac ariannol yr NMC o fewn y fframwaith strategol a sefydlwyd gan y Cyngor.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, mae gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd gyfrifoldeb personol dros faterion sy'n ymwneud â phriodoldeb a rheoleidd-dra ariannol; cadw cyfrif priodol o faterion ariannol; osgoi gwastraff ac afradlondeb; a defnydd effeithiol o adnoddau.

Y Bwrdd Gweithredol yw'r corff rheoli allweddol sy'n gwneud penderfyniadau. Mae aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r holl Gyfarwyddwyr Gweithredol. Mae'r Cwnsler Cyffredinol yn mynychu hefyd. Mae'r Bwrdd yn gweithio gyda'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd i ddatblygu a gweithredu strategaethau, polisiau, cynlluniau busnes a chyllidebau; sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau, cyllid a phobl; a nodi a rheoli risg.

Mae'r Bwrdd yn cynghori neu'n gwneud argymhellion i'r Cyngor ar y materion hynny y bydd y Cyngor yn penderfynu arnynt yn y pen draw. Wrth wneud hynny, mae'r Bwrdd a'r Cyngor yn cydweithio mewn ysbryd o gydweithio, gonestrwydd a didwylledd.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn myfyrio'n rheolaidd ar ei weithrediad ei hun a sut mae busnes yn cael ei gynnal, yn ystod 2022-2023 roedd yn cyfarfod yn wythnosol.

Goruchwyliaeth ar awdurdod safonau proffesiynol

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA) yn goruchwyllo ac yn adrodd i'r Senedd ar ein gwaith, yn ogystal â gwaith y rheoleiddwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol eraill. Ym mis Medi 2022, cyhoeddodd y PSA ei adolygiad blynyddol o'n perfformiad ar gyfer 2021-2022, yn cwmpasu'r cyfnod Ebrill 2021 i Fehefin 2022.

Fe ganfu ein bod wedi bodloni 17 o'r 18 Safon Rheoleiddio Da ond nad oeddem wedi bodloni Safon 15 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni ymdrin ag achosion addasrwydd i ymarfer mor gyflym ag sy'n gyson â datrysiad teg i'r achos. O dan ei broses adolygu perfformiad, cychwynnodd y PSA ei broses uwchgyfeirio ar gyfer rheoleiddwyr sy'n methu â bodloni'r un Safon am dri chylch adolygu perfformiad olynol ac yn unol â hynny ysgrifennodd at yr Ysgrifennydd Gwladol a gweinidogion yn y gweinyddiaethau datganoledig i amlygu hyn. Roeddem wedi bod yn briffio gweinidogion a swyddogion perthnasol y llywodraeth yn rheolaidd ac wedi rhoi diweddariad pellach mewn perthynas â gwaith parhaus i fynd i'r afael â'r llwyth achosion addasrwydd i ymarfer. Fel yr amlinellwyd yn adran adolygu perfformiad yr adroddiad hwn, ein prif flaenoriaeth gorfforaethol o hyd yw lleihau'r llwyth achosion addasrwydd i ymarfer yn gyflym ac yn ddiogel. Mae cynnydd yn cael ei wneud drwy nifer o fentrau - gan gynnwys rhaglen Gwella Addasrwydd i Ymarfer bwrpasol, cymorth allanol i symleiddio nifer o'n prosesau allweddol a chynnydd mewn adnoddau.

Gan dybio na fydd atgyfeiriadau sy'n dod i mewn yn cynyddu, rydym yn rhagweld y bydd cyflawni'r mentrau a amlinellwyd yn gweld y llwyth achosion yn lleihau i 4,000 o achosion erbyn mis Mawrth 2024 a bydd atgyfeiriadau newydd yn cael eu trin ar lefelau cyn-bandemig. Disgwyliwn gyflawni'r lefelau gorau posibl o lwyth achosion ac amseroldeb ar draws y broses addasrwydd i ymarfer erbyn mis Mawrth 2026.

Roedd y PSA yn cydnabod y gwelliannau a wnaed ers yr adolygiad perfformiad diwethaf. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys adborth cadarnhaol ar gynllun gweithredu Cynhwysiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (EDI) yr NMC ar gyfer 2022-2025, ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid, gan nodi lansiad ein Fforwm Llais y Cyhoedd, yr adolygiad o'n safonau addysg cyn cofrestru a'r camau rydym wedi'u cymryd i wella tryloywder ein proses apeliadau cofrestru. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn adolygu cynnydd o ran gweithredu'r hyn a ddysgwyd o adolygiadau PSA yn rheolaidd.

Monitro perfformiad ac ansawdd data

Mae'r Cyngor yn monitro ein cynnydd yn ôl ein strategaeth, cynllun corfforaethol a chyllideb drwy adroddiadau perfformiad chwarterol a gyflwynir mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Mae'r rhain yn darparu diweddariadau yn ôl ein 22 o ymrwymadau corfforaethol, dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs), ein cyllideb a buddsoddiadau, ac amlygiad risg corfforaethol. Mewn cydweithrediad â'r tîm Gweithredol, mae'r Cyngor yn penderfynu pa wybodaeth a data perfformiad y mae am eu hadolygu fel y gall wneud penderfyniadau effeithiol am ein perfformiad a'n hamlygiad i risg. Mae'r Cyngor yn ystyried ansawdd a chynnwys adroddiadau perfformiad yn flynyddol trwy gynllunio busnes.

Yn ystod 2022-2023, fe wnaethom gryfhau ein hadroddiadau misol i'r Bwrdd Gweithredol gan gynnwys yr adroddiadau presennol ar gyllidebau, dangosyddion perfformiad allweddol, a monitro risg. Cyflwynwyd adroddiad cyfannol newydd gennym sy'n cael ei adolygu'n fisol, gan gynnwys cerdyn sgorio perfformiad corfforaethol newydd sy'n canolbwyntio ar faterion allweddol sy'n gofyn am benderfyniadau a chamau gweithredu gan y Bwrdd Gweithredol.

Rheoli risg a rheolaeth fewnol

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sefydlu a chynnal system gadarn o reoli risg a rheolaeth fewnol. Cynlluniwyd ein system rheolaeth fewnol i reoli, yn hytrach na dileu risg, a rhoi sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor ynghylch gweithrediad y system rheolaeth fewnol a rheoli risg. Mae'r Cyngor yn ystyried amlygiad i risg gorfforaethol mewn cyfarfodydd Agored bob chwarter a'r gofrestr risg gorfforaethol lawn unwaith y flwyddyn.

Mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am alluogi system effeithiol o reoli risg a rheolaeth fewnol, ac ynghyd â'r Cyfarwyddwyr Gweithredol, am sicrhau bod y system yn ei lle ac yn effeithiol ar draws y sefydliad. Mae'r Weithrediaeth yn gyfrifol am nodi a gwerthuso risgiau, rhoi mesurau lliniaru priodol ar waith, a monitro ac adrodd ar gynnydd. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn adolygu amlygiad i risg gorfforaethol bob mis.

Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo a diweddarau'r fframwaith rheoli risg yn 2021. Rydym wedi parhau i ymwreiddio'r fframwaith drwy gydol 2022-2023 gan ddefnyddio sesiynau hyfforddi pwrpasol ar gyfer y sefydliad cyfan a gweithdai wedi'u teilwra, ac ymgysylltu misol rhwng cydgysylltwyr risg a'r tîm risg a pherfformiad corfforaethol. Adolygodd ein harchwilwyr mewnol ein lefel aeddfedrwydd risg yn ystod 2022-2023 a barnwyd ein bod wedi gwneud cynnydd mewn sawl maes. Symudodd hyn ni o asesiad 'datblygu' tuag at asesiad 'aeddfedu', gan ddangos bod rheoli risg yn rhan annatod o arferion busnes arferol.

Sicrwydd

Mae ein system rheolaeth fewnol yn cynnwys yr elfennau hyn:

- Hyfforddiant (pwrpasol a gorfodol), cynefino (corfforaethol a lleol), gwerthusiadau a hyfforddiant i helpu i roi'r sgiliau a'r profiad priodol i'n cydweithwyr ar gyfer eu rolau.
- Perthnasoedd strategol rhwng gwasanaethau corfforaethol ac arweinwyr busnes sy'n meithrin cydweithio, arfer gorau, a her gefnogol. Mae partneriaid busnes yn eu lle ar gyfer Gwasanaethau Pobl (adnoddau dynol, recriwtio, dysgu a datblygu), cyllid, risg a pherfformiad, technoleg, a chaffael.
- Mekanweithiau rheoli a chynllunio mewnol, megis cynlluniau dirprwyo manwl ar gyfer gwneud penderfyniadau, polisiâu dogfenedig a gweithdrefnau gweithredu safonol, cytundebau lefel gwasanaeth, mynediad cyfyngedig i systemau, dyletswyddau ar wahân, adrodd ar ddigwyddiadau, cynllunio parhad busnes, cynllunio busnes, achosion busnes ag opsiynau gwerthuso, fframweithiau rhaglen a phrosiect, gosod amcanion personol a chynlluniau gwella.
- Monitro ac adrodd eang i olrhain ein perfformiad a dangosyddion perfformiad allweddol, rheolaeth ariannol (cyllidebau, rhagolygon, adroddiadau misol), amlygiad i risg, ansawdd, data a mewnwelediad, gwybodaeth rheoli gweithredol a rheoli pobl.
- Mae rheoli sicrwydd ganolog yn cynnwys archwiliadau mewnol ac allanol, adolygiadau annibynnol a gwiriadau iechyd, adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol, sganio'r gorwel cyfreithiol, dysgu o adborth cwsmeriaid, a'n tîm Newid a Gwelliant Parhaus newydd sy'n cefnogi gwneud gwelliannau i'n prosesau. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnal adolygiadau sicrwydd cynhwysfawr rheolaidd wedi'u targedu i ymchwilio'n ddyfnach i broblemau risg penodol neu fecanweithiau sicrwydd.
- Bwrdd Newid, sy'n darparu goruchwyliaeth ar ein prosiectau a'n rhaglenni newid.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am:

- sicrhau bod y cynllun gwaith archwilio mewnol blynyddol a gwaith sicrhau ansawdd mewnol arall yn gyflenwol ac yn canolbwyntio ar feysydd lle ceir gwendidau posibl o ran rheolaeth fewnol
- adolygu perfformiad ein portffolio newid strategol ochr yn ochr â'n cofrestr risg gorfforaethol bob mis
- cynnal asesiad blynyddol o effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg a rheolaeth fewnol ar gyfer pob cyfarwyddiaeth.

Rydym yn cynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ein hamgylchedd rheolaeth fewnol a rheoli risg. Daeth adolygiad 2022-2023 i'r casgliad, yn gyffredinol, fod gennym sicrwydd rhesymol bod ein hamgylchedd rheolaeth fewnol yn gweithredu'n ddigonol ar lefel gorfforaethol a chyfarwyddiaethol.

Fe wnaethom asesu pob cyfarwyddiaeth yn ôl set o feini prawf allweddol ac adolygu tystiolaeth sampl i sicrhau bod ein hamgylchedd rheolaeth fewnol yn adlewyrchu'r safonau a nodir yn ein polisi a'n canllawiau. Mae nifer fach o feysydd lle mae angen gweithredu y byddwn yn bwrw ymlaen â hwy yn ystod 2023-2024.

Mae ein haeddfedrwydd rheoli risg wedi parhau i wella yn ystod 2022-2023, gyda phob cyfarwyddiaeth yn gallu dangos bod ganddynt:

- cydgysylltwyr risg cyfarwyddiaethau sy'n ymgysylltu'n fisol â'r tîm risg a pherfformiad corfforaethol ynghylch risgiau ar lefelau cyfarwyddiaeth a chorfforaethol
- rheolaeth risg wedi'i hymwreiddio o fewn raglenni a phrosiectau gwaith sylweddol y maent yn eu harwain
- gwell ystyriaeth o reolaethau rheoli.

Roedd pedair o chwe chyfarwyddiaeth hefyd yn gallu dangos trafodaethau risg rheolaidd a chofrestrau cyfredol. Mae dwy gyfarwyddiaeth wedi dechrau ar y gwaith o ddiweddarau eu cofrestrau risg a disgwyliwn eu cwblhau yn rhan gyntaf 2023-2024.

Mae gennym hefyd:

- goruchwyliaeth ar risgiau technoleg gan y Prif Swyddog Gwybodaeth
- goruchwyliaeth ar risgiau cyllid gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau a Gwasanaethau Technoleg
- goruchwyliaeth gan y Bwrdd Newid ar brosiectau a rhaglenni newid i sicrhau ein bod yn canolbwyntio'n gyfannol ar y meysydd blaenoriaeth uchaf i gyflawni ein strategaeth 2022-2025.

Mae mecanweithiau rheoli mewnol yn parhau i fod yn debyg i 2021-2022. Mae pob cyfarwyddiaeth yn cadw at y gofynion disgwyliedig ar gyfer cynllunio gan gynnwys cyllidebau a dangosyddion perfformiad allweddol. Mae cynlluniau busnes a chyllidebau, prosiectau a rhaglenni y cytunwyd arnynt yn cael eu cymeradwyo o ran achos busnes ac yn cadw at lefelau cymeradwyo dirprwyedig. Rydym yn parhau i ymgorffori lefelau sylweddol o arian parod sy'n gwireddu arbedion mewn cyllidebau ac yn rhagweld arbedion pellach wrth i ni ddatblygu achosion busnes ar gyfer datblygiadau technoleg. Mae ein harchwilwyr mewnol wedi amlygu rhai meysydd i'w gwella sydd wedi llywio ein Cynllun Gwaith Archwilio Mewnol ar gyfer 2023-2024.

Materion a risgiau allweddol

Llwyth achosion addasrwydd i ymarfer

Ein her fwyaf o hyd yw rheoli llwyth achosion addasrwydd i ymarfer uchel a dyfodd o ganlyniad i heriau ynghylch symud achosion yn eu blaenau mewn modd amserol, a achoswyd yn rhannol gan effaith y pandemig. Mae oedi yn peri gofid i bawb sy'n ymwneud ag achosion addasrwydd i ymarfer a rhaid i ni wella faint o amser y mae'n ei gymryd i brosesu achos hyd at gasgliad diogel.

Yn ystod 2022-2023, fe wnaethom leihau'r llwyth achosion 14 y cant i 5,577, gyda'r gostyngiad yn cyflymu yn ystod hanner olaf y flwyddyn wrth i fentrau gwella gael eu cyflawni. Fodd bynnag, roedd ein cynnydd yn arafach nag y byddem wedi dymuno ac nid oeddem yn gallu cyrraedd ein targed o lwyth achosion cyffredinol o 5,000 o achosion erbyn mis Mawrth 2023.

Lliniaru yn 2023-2024

Yn 2023-2024, byddwn yn:

- adeiladu ar y gwelliannau a wnaethom y llynedd o fewn y cam sgrinio i wella ein gallu prosesu, prosesu achosion yn fwy effeithlon a chau achosion ar y cyfle priodol cynharaf
- cynyddu ein gallu ar adegau allweddol i gynyddu ein hallbwn
- parhau i adeiladu gwybodaeth yn y sector i leihau nifer yr atgyfeiriadau a gawn nad ydynt yn cyrraedd ein trothwy.

Drwy'r camau gweithredu hyn, ein nod yw lleihau'r llwyth achosion yn ddiogel ac yn gyflym i darged o 4,000 erbyn mis Mawrth 2024 a byddwn yn parhau i ddarparu adroddiadau tryloyw ar ein cynnydd yng nghyfarfodydd agored y Cyngor.

Rheoli heriau economaidd, gwleidyddol a hinsawdd

Fel pob sefydliad, rydym yn parhau i weithredu mewn amgylchedd anodd gyda llawer o ffactorau i'w hystyried. Mae chwyddiant yn parhau ar ei uchaf ers blynyddoedd lawer sy'n rhoi pwysau ar ein costau; effaith weddilliol y pandemig a Brexit ar y gadwyn gyflenwi fyd-eang, a'r gwrthdaro yn yr Wcrain dros y 15 mis diwethaf yn parhau i roi pwysau ar gyflenwadau bwyd ac ynni, ac mae bygythiad seibr-ymosodiadau yn cynyddu wrth i'r ymosodiadau ddod yn fwy soffistigedig. Mae angen i ni hefyd chwarae ein rhan i liniaru effeithiau newid hinsawdd.

Mesurau lliniaru ar gyfer 2023-2024

Yn 2023-2024, byddwn yn:

- rhoi cyfrif am gostau ychwanegol yn ein cynllun a'n cyllideb ar gyfer 2023-2026 gan ddefnyddio dadansoddiadau a chymryd ymagwedd ofalus tuag at reolaeth ariannol, wedi'i ategu gan ffocws cynyddol ar reoli costau'n effeithiol
- rhyddhau cyllid ar gyfer rhaglenni a phrosiectau mawr fesul cam a chadw cyllidebau dan adolygiad parhaus. Mae gennym reolaethau penodol i reoli gwariant ychwanegol o fewn addasrwydd i ymarfer er mwyn lleihau'r llwyth achosion
- defnyddio mewnwelediad o adolygiad annibynnol o seiberddiogelwch i gryfhau rhagofalon lle bo modd
- parhau i fonitro'r amgylchedd allanol ac addasu yn ôl yr angen. Gan ddefnyddio arbenigedd allanol, byddwn yn dechrau gwaith i ddatblygu ein cynlluniau cynaliadwyedd ac amgylcheddol.

Pryderon yn ymwneud â gofal mamolaeth

Mae ein ffocws ar ddiogelwch mamolaeth yn parhau, wedi'i lywio gan ein mewnwelediad ein hunain ac adroddiadau allanol cyhoeddus. Amlygodd canfyddiadau'r ymchwiliad annibynnol i wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Prifysgol Dwyrain Caint wendidau systemig mewn gofal mamolaeth. Amlygodd adroddiadau annibynnol gan Birthrights, Healthwatch England a Muslim Women's Network yn benodol yr anghydraddoldeb hiliol sy'n bodoli mewn gwasanaethau mamolaeth.

Mae hyn yn ychwanegol at y pryderon a godwyd yn 2022 drwy adroddiad Ockenden ym mis Mawrth a'r adroddiad gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Gorffennaf 2022.

Mae themâu allweddol sy'n codi o'r adroddiadau hyn yn cynnwys arweinyddiaeth, gwrando ar fenywod, gweithio amlddisgyblaethol, a diwylliannau gweithle sy'n cefnogi siarad.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweithio i gryfhau'r cysylltiad rhwng ein safonau hyfedredd ac ailddilysu, wedi gwneud gwelliannau i'r ffordd y mae bydwagedd dan hyfforddiant yn cael eu haddysgu, ac wedi ceisio deall profiadau myfyrwyr yn well trwy ein gwaith sicrhau ansawdd.

Mesurau Iliniaru yn 2023-2024

Yn 2023-2024, byddwn yn:

- cynllunio i gomisiynu adolygiad allanol, annibynnol o'n safonau, yn dilyn cyhoeddi'r Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Mamolaeth yn Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Prifysgol Nottingham
- parhau i ddefnyddio mewnwelediad ein Panel Bydwreigiaeth ar sut y gallwn gefnogi diogelwch mewn gwasanaethau mamolaeth ymhellach
- archwilio sut y gallwn gael mewnwelediad gwell yn uniongyrchol gan fyfyrwyr bydwreigiaeth er mwyn llywio ein sicrwydd ansawdd a'n mewnwelediad
- parhau i weithio mewn partneriaeth â rheoleiddwyr ac arweinwyr systemau eraill i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau mamolaeth

- parhau i sicrhau bod rhaglenni addysg bydwreigiaeth yn bodloni ein safonau addysg ac yn paratoi myfyrwyr yn addas ar gyfer ymuno â chofrestr yr NMC a darparu gofal o ansawdd i'r cyhoedd. Mewn perthynas â phryderon ym Mhrifysgol Eglwys Crist Caergaint, fe wnaethom gyfarfod â'r brifysgol ar 2 Mai 2023 i'w hysbysu o'n penderfyniad terfynol i dynnu cymeradwyaeth yn ôl ar gyfer ei rhaglen gradd bydwreigiaeth. Ein pryderon oedd nad oedd y brifysgol, mewn partneriaeth ag ymddiriedolaethau'r GIG sy'n darparu lleoliadau i'w myfyrwyr, yn galluogi myfyrwyr bydwreigiaeth i fodloni ein safonau. Mae hynny'n golygu ein bod yn pryderu y gallai myfyrwyr raddio heb allu darparu gofal bydwreigiaeth diogel i fenywod, babanod a theuluoedd. Byddwn yn gweithio gyda'r brifysgol a GIG Lloegr ar gynlluniau i gefnogi'r myfyrwyr yr effeithir arnynt i barhau â'u haddysg.

Recriwtio a chadw

Fe wnaethom brofi rhywfaint o welliant yn y maes hwn yn ystod 2022-2023. Fodd bynnag, fe fu cynnydd yn ein cyfradd trosiant o 11.8 y cant ym mis Mawrth 2022 i 12.8 y cant ym mis Mawrth 2023, gan ei gymryd ychydig yn uwch na'n targed o 12.5 y cant ar gyfer 2022-2023. Er bod rhai heriau o ran denu a chadw talent wedi parhau yn ystod 2022-2023, yn arbennig mewn meysydd fel sgrinio ac ymchwiliadau, rydym yn parhau i gymryd camau i leihau bylchau capasiti'r gweithlu yn 2023-2024.

Mesurau lliniaru yn 2023–2024

Yn 2023–2024, byddwn yn:

- Gweithredu, ar ôl ymgysylltu â chydweithwyr ac ymgynghori â'n hundeb llafur cydnabyddedig Unsain, ein cynigion cyflog a graddio ar waith gyda'r nod o wella tryloywder a chysondeb yn ein strwythur cyflog a'n dilyniant cyflog
- codi ymwybyddiaeth o'n pecyn gwobrau cyfan i arddangos cyflog a buddion er mwyn cadw a denu cydweithwyr newydd megis gweithio hyblyg, polisïau teulu, a buddion pensiwn
- parhau i ymgorffori ein technoleg recriwtio a dethol ymgeiswyr i wella profiad ymgeiswyr, hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch wrth ddod o hyd i ymgeiswyr a'u dethol a monitro amrywiaeth yr ymgeiswyr
- parhau â chymau gweithredu wedi'u targedu o fewn ein cyfarwyddiaeth Rheoleiddio Proffesiynol i lenwi rolau rydym wedi'i chael yn anodd eu recriwtio
- newid ein hymagwedd at recriwtio, gweithredu rhestr o gyflenwyr a reolir sy'n gweithredu fel partneriaid arbenigol yn y sector a helpu i sicrhau ein bod yn recriwtio cydweithwyr o safon uchel sydd â'r sgiliau a'r profiad cywir
- gweithredu ein hyfforddiant hanfodion rheoli newydd, gwerthusiadau uchelgeisiol, a pharhau i dyfu ein cynllun mentora Codi Gyda'n Gilydd.

Diwygio rheoleiddiol

Bydd deddfwriaeth fodern a hyblyg yn ein galluogi i ddarparu rheoleiddio cymesur a mwy diogel i'r cyhoedd a rhoi gwell cymorth i'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr. Yn ystod 2022–2023, fe wnaethom barhau â'n paratodau ar gyfer diwygio rheoleiddiol drwy wneud gwaith cynllunio manwl ynghylch graddfa'r hyn y bydd ei angen a pharatoi deddfwriaeth ddrafft ar gyfer ymgynghoriad.

Rydym yn parhau i reoli ansicrwydd ynghylch yr amserlen ar gyfer diwygio, a bennir gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) ac a allai fod yn destun newid yng nghyd-destun y rhaglen ddiwygio ehangach a phwysau deddfwriaethol eraill.

Mesurau lliniaru yn 2023–2024

Er mwyn sicrhau y gallwn ddylanwadu ar ddiwygiadau i'n deddfwriaeth mor effeithiol â phosibl, byddwn yn parhau i ymgysylltu'n rhagweithiol â'r DHSC a'r gweinyddiaethau datganoledig ac yn gweithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid i nodi'r newidiadau rydym am eu gwneud.

Byddwn yn parhau i reoli ansicrwydd – megis dibyniaeth ar raglenni mewol mawr eraill (fel moderneiddio ein gwasanaethau technoleg) ac ymgysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid – drwy gynllunio manwl sy'n cynnwys arbenigwyr pwnc mewol.

Technoleg

Rydym yn parhau i wella ein technoleg i ddarparu offer a fydd yn cynyddu effeithlonrwydd a chynhyrchiant cydweithwyr. Dechreuwyd ar ein rhaglen Moderneiddio Gwasanaethau Technoleg am y tro cyntaf yn 2018 a chafwyd heriau o ran bwrw ymlaen â'r gwelliannau mor gyflym ag yr oeddem wedi gobeithio. Ers 2020, rydym wedi sefydlu adolygiad allanol parhaus o'r rhaglen. Mae hyn, ynghyd ag adolygiad o'r adnoddau a ddyrannwyd, wedi ein galluogi i newid ein dull cyflawni yn parhaus, ac mae'r rhaglen bellach yn mynd rhagddi ac yn sicrhau manteision yn unol â'n cynllun diwygiedig.

Er ein bod yn darparu rhaglenni newid sylweddol sy'n cael eu llywio gan dechnoleg, rydym yn rheoli sawl risg sy'n ymwneud â systemau etifeddol, meithrin gallu a chapasiti ar gyfer y dyfodol, a rheoli rhediad systemau deuol wrth i ni fudo'n ddiogel ar draws ein prosesau craidd.

Disgwyliwn ysgwyddo'r risg hon am nifer o flynyddoedd tra byddwn yn darparu rhaglenni aml-flwyddyn i wella ein seilwaith technoleg; darparu caledwedd newydd, dileu systemau etifeddol; diweddarau ein galluoedd data; a darparu technoleg a fydd yn cefnogi diwygio rheoleiddiol.

Mesurau Iliniaru yn 2023-2024

Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn gwella ein technoleg drwy gyflwyno ein dwy raglen dechnoleg fawr.

Rydym wedi cyflwyno sicrwydd allanol parhaus ar ein rhaglen Moderneiddio Gwasanaethau Technoleg a fydd yn parhau hyd at ddiwedd trydydd cam mawr y rhaglen.

Byddwn yn parhau i adeiladu ein gallu mewnol o ran rheoli newid, data, pensaernïaeth, a datblygu TG i adeiladu ein gallu ein hunain a lleihau dibyniaeth ar gyflenwyr allanol.

Pwysau yn y sector iechyd a chymdeithasol

Fe wnaeth nifer o bwysau barhau i effeithio ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol; adferiad ar ôl Covid-19, pwysau ar y gweithlu megis swyddi gweigion, cadw, gweithredu diwydiannol gan rai gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr ac eraill o ran tâl ac amodau gwaith, a mwy o bwysau oherwydd rhestrau aros cynyddol. Fe wnaeth hyn ein harwain at wneud y penderfyniad i deilwra ein cyfathrebiadau i atal gorlwytho gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid.

Ym mis Mai 2022, fe wnaethom arolygu pum cynulleidfa allweddol o fewn y sector, a phob un yn adleisio'r pwysau ym maes iechyd a gofal. Fe wnaethom benderfynu canolbwyntio ein cyfathrebiadau ar faterion argyfwng yn hytrach na busnes fel arfer. Fe wnaethom ystyried y materion hyn yn ofalus yn ein cynllun corfforaethol, monitro gyda phwy yr oedd angen i ni gydweithio, a newid ein cynlluniau i atal gorlwytho grwpiau penodol o randdeiliaid.

Mesurau Iliniaru yn 2023-2024

Byddwn yn parhau i fonitro tirwedd y sector ac ystyried y pwysau drwy gydol y flwyddyn. Byddwn yn ystyried ein pwyntiau pwysau mewnol a, lle y gallwn, yn symud terfynau amser i atal ychwanegu straen a gwaith i'r sector. Byddwn yn parhau i gefnogi nyrsys, bydwagedd, cymdeithion nyrsio a myfyrwyr sy'n wynebu heriau, ac yn edrych ar sut y gallwn ymdopi o fewn yr amgylchedd cymdeithasol ac economaidd cynyddol gymhleth rydym yn gweithredu ynddo.

Budd y cyhoedd (chwythu'r chwiban)

Mae ein polisi Chwythu'r Chwiban yn annog cydweithwyr ac eraill sy'n gweithio i ni, neu gyda ni, i godi eu llais os ydynt yn gweld rhywbeth o'i le. Rydym yn adolygu'r polisi'n rheolaidd ac wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o'r polisi a'r canllawiau cysylltiedig drwy ei hyrwyddo drwy neges wythnosol y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a chyfathrebiadau mewnol eraill.

Ym mis Hydref 2022, fe wnaethom gynnal ymarfer ymgysylltu mewnol fel rhan o fis Codi Llais- menter yn Lloegr i hyrwyddo pwysigrwydd chwythu'r chwiban ac annog pawb i godi eu llais. Roedd hwn yn gyfle i atgoffa ein holl gydweithwyr, ble bynnag y maent wedi'u lleoli, am ein polisi a chanllawiau Chwythu'r Chwiban, rhannu enghreifftiau o bryd y gallai fod yn briodol i godi pryderon, ac amlinellu pa gamau y gallent ddisgwyl iddynt gael eu cymryd o ganlyniad.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn adroddiad ar chwythu'r chwiban ym mhob cyfarfod. Roedd un achlysur pan ddefnyddiodd pobl y polisi Chwythu'r Chwiban i godi pryderon yn 2022-2023 (2021-2022: tri). Mae'r pryder hwn yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd. Hyd yma rydym wedi derbyn un pryder chwythu'r chwiban yn 2023-2024 sy'n destun ymchwiliad ar hyn o bryd.

Diogelu ac amddiffyn pobl

Trwy ein gwaith rydym yn ymgysylltu ag ystod eang o bobl, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'n prosesau rheoleiddio, ein rhanddeiliaid, a'n cydweithwyr. Rydym yn cydnabod y gall fod gan lawer o bobl sy'n ymgysylltu â ni anghenion cymhleth neu y gallant fod mewn perygl o niwed. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn amddiffyn pobl rhag niwed ac yn dilyn y gweithdrefnau diogelu priodol pan fydd angen cymorth ar rywun. Mae ein polisi Diogelu ac Amddiffyn Pobl rhag Niwed yn nodi ein cyfrifoldebau a'r camau y byddwn yn eu cymryd pan ydym yn nodi pryder diogelu, gan gynnwys sefydlu dull wedi'i deilwra i gefnogi'r unigolyn dan sylw.

Ym mis Hydref 2022, fe wnaethom recriwtio Arweinydd Diogelu Strategol, a'i rôl yw ymwreiddio cyfrifoldebau diogelu a dyletswydd gofal yn y sefydliad. Ers eu recriwtio, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y pryderon diogelu a gofnodwyd, gyda chyfanswm o 144 o bryderon diogelu wedi'u cofnodi yn 2022-2023. Mae hyn 132 y cant (82 o bryderon) yn fwy nag a adroddwyd yn 2021-2022, lle cofnodwyd 62 o bryderon. Credwn fod y cynnydd hwn yn bennaf oherwydd ein gwaith codi ymwybyddiaeth gyda chydweithwyr, sydd wedi arwain at gydweithwyr yn cofnodi mwy o bryderon. Os oes gan berson anghenion ychwanegol, bydd angen i ni wneud atgyfeiriad i asiantaeth allanol. At ei gilydd, roedd 30 o atgyfeiriadau at asiantaethau allanol, gan gynnwys atgyfeiriadau at yr heddlu, timau iechyd meddwl a diogelu.

Fel elusen gofrestredig mae rhwymedigaeth arnom i wneud adroddiadau i'r Comisiwn Elusennau os yw digwyddiad wedi arwain at neu wedi peri risg o niwed difrifol. Eleni fe wnaethom ddau atgyfeiriad yn ymwneud â diogelu i'r Comisiwn Elusennau. Ym mis Ebrill 2023 fe wnaethom roi gwybod i'r Comisiwn Elusennau am un digwyddiad difrifol arall yn deillio o faterion diogelu. Mae ein hymchwiliad mewnol i un o'r achosion wedi dod i ben yn ddiweddar ac mae'r canlyniad wedi'i ddarparu i'r Comisiwn, y maent wedi'i nodi. Roedd y Comisiwn Elusennau yn fodlon bod yr achosion eraill wedi cael eu trin yn briodol ac yn gyfrifol. Gan ein bod wedi cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau nid yw'n ofynnol i ni adrodd am ddigwyddiadau i Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (OSCR). Fodd bynnag, yn unol â'n hymrwymiad i atebolrwydd pedair gwlad, rydym yn adrodd am bob digwyddiad i'r OSCR hefyd.

Yn ystod 2022-2023, rydym wedi gweithio i sicrhau bod diogelu wedi'i ymwreiddio'n strategol ar draws yr NMC cyfan. Amlinellir rhai o'r camau rydym wedi'u cymryd isod.

- Fe wnaethom adnewyddu ein protocol hunanladdiad a hunan-niwed a darparu hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o sut i nodi a chefnogi pobl sy'n profi syniadaeth hunanladdol.
- Fe wnaethom adolygu risgiau diogelu ar draws yr NMC cyfan a dechrau gweithredu cynllun i fynd i'r afael â'r risgiau hyn.
- Mabwysiadwyd proses ddiogelu ar gyfer ein llinell gymorth atgyfeirio i gefnogi cydweithwyr i godi pryderon diogelu.
- Ymgorfforwyd diogelu yn ein prosesau cyfathrebu allanol.
- Fe wnaethom gynnal adolygiad sicrwydd ansawdd o'n cymorth i dystion bregus.

Byddwn yn parhau i gryfhau ein hymagwedd at ddiogelu yn 2023-2024, gan gynnwys ymwreiddio prosesau diogelu pwrpasol yn ein system rheoli achosion addasrwydd i ymarfer er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn nodi cymorth diogelu ar y cam cynharaf posibl.

Llywodraethu gwybodaeth a methiannau o ran diogelwch amddiffynnol

Yn ystod 2022-2023, fe wnaethom barhau i alinio ein rheolaeth diogelwch gwybodaeth ag ISO 27001, y safon diogelwch gwybodaeth ryngwladol.

Caiff digwyddiadau eu hadrodd, eu rheoli a'u hymchwilio yn unol â'n proses Adrodd ar Ddigwyddiadau Difrifol (SER) lle nodir gwersi ac argymhellion ar gyfer gwella.

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o nifer y digwyddiadau diogelwch gwybodaeth a adroddwyd yn fewnol yn 2022-2023, a dangosir ffigurau 2021-2022 er mwyn eu cymharu. O'r 82 o ddigwyddiadau diogelwch gwybodaeth a gofnodwyd yn 2022-2023 (83 yn 2021-2022), roedd 53 (65 y cant) yn datgelu data heb awdurdod (toriadau data).

	2022-2023	2021-2022
Difrifol	0	0
Mawr	7	1
Cymedrol	20	23
Bach	55	59
Cydanswm	82	83

Yn 2022-2023 fe wnaethom adrodd am ddau doriad data personol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (un yn 2021-2022). Nid yw wedi cymryd unrhyw gamau rheoleiddio mewn perthynas â'r toriadau.

Gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd

Ni chanfuwyd unrhyw achosion o dwyll, llwgrwobrwyo na llygredd gwirioneddol neu a amheuyd yn 2022-2023 (2021-2022: dim).

Mae un achos o dwyll a amheuir wedi'i ganfod yn 2023-2024, sy'n ymwneud â gweithrediad yr elfen prawf cyfrifiadurol o'n Prawf Cymhwysedd. Ceir rhagor o wybodaeth am yr achos a'r camau a gymerwyd mewn ymateb iddo yn adran adolygu perfformiad yr adroddiad hwn.

Mae hyfforddiant gwrth-dwyll a llwgrwobrwyo yn orfodol i bob gweithiwr newydd. Mae pob cydweithiwr yn dilyn hyfforddiant gloymi bob dwy flynedd.

Yn 2022-2023 fe wnaethom barhau i ymwreiddio ein polisi Buddiannau Personol a Phenodiadau Allanol ar gyfer cydweithwyr sy'n esbonio sut rydym yn delio â gwrthdaro buddiannau ac yn ei gwneud yn ofynnol i bob cydweithiwr ddatgan unrhyw fuddiannau y tu allan i'r NMC.

Mae pob achos posibl o wrthdaro buddiannau yn destun adolygiad gan reolwyr llinell a fydd yn ymgynghori â chydweithwyr arbenigol priodol lle bo angen.

Mae polisi Rhoddion a Lletygarwch ar waith ar gyfer aelodau'r Cyngor, Aelodau Cyswllt, aelodau Partner a chydweithwyr, sy'n cefnogi arfer dda yn y maes hwn. Mae'r polisi'n cael ei adolygu o bryd i'w gilydd i sicrhau ei fod yn adlewyrchu arfer da a chafodd ei adolygu a'i gymeradwyo'n fwyaf diweddar gan y Cyngor ym mis Tachwedd 2021.

Cyhoeddir nodiadau atgoffa rheolaidd ynghylch pwysigrwydd cadw at y polisi. Cedwir cofrestr o'r holl roddion a lletygarwch a dderbynnir neu a wrthodir.

Caethwasiaeth fodern

Nid oes unrhyw faterion caethwasiaeth fodern wedi'u nodi yn ystod y flwyddyn hyd yma (2021 - 2022: dim un).

Yn unol â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, fe wnaethom ddiweddarau a chyhoeddi ein Datganiad Caethwasiaeth Fodern ym mis Mehefin 2022 a bydd datganiad eleni yn cael ei gyhoeddi ar ôl ei gymeradwyo ym mis Mehefin 2023.

Mae gan bob cydweithiwr fynediad i'n modiwl e-ddysgu caethwasiaeth fodern, sy'n codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ar draws y sefydliad.

Rydym yn parhau i ymwreiddio ein polisi caffael, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni ddefnyddio cytundebau fframwaith cenedlaethol sydd wedi'u hen sefydlu lle bynnag y bo modd. Mae cyflenwyr ar y fframweithiau hyn wedi bod yn destun gwiriadau diwydrwydd dyladwy trwyadl. Yn ogystal, mae gennym ein proses sicrwydd cyflenwyr ein hunain ar waith sy'n ei gwneud yn ofynnol i'n cyflenwyr ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â'u sefyllfa caethwasiaeth fodern ac sy'n cael ei hasesu o ran risg yn unol â hynny.

Er na wnaethom nodi unrhyw gaethwasiaeth fodern yn ein sefydliad ein hunain, trwy ein prosesau rheoleiddio, fe'n gwnaed yn ymwybodol o dri phryder ynghylch caethwasiaeth fodern y tu allan i'r NMC.

Fe wnaethom rannu gwybodaeth am yr achosion hyn â chyrrff priodol, gan gynnwys yr Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur, adran fewnfudo'r Swyddfa Gartref a'r Arolygiaeth Safonau Asiantaethau Cyflogaeth.

Adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol

Fel rheoleiddiwr gweithwyr proffesiynol sy'n darparu iechyd a gofal cymdeithasol, a'r gweithgareddau rydym yn eu gwneud i gyflawni ein cyfrifoldebau, byddem yn disgwyl gweld adroddiadau am ddigwyddiadau neu ddigwyddiadau fu bron â digwydd. Mae pob un o'r digwyddiadau hyn yn rhoi cyfleoedd i ddysgu ac yn cael eu hymchwilio o dan ein proses Adolygu Digwyddiadau Difrifol. Yn nodweddiadol, mae'r dysgu yn nodi camau gweithredu i wella ein prosesau ac atal hyn rhag digwydd eto. O dan ein proses adrodd am ddigwyddiadau, rydym yn gwahaniaethu rhwng Digwyddiadau Niweidiol (AIs) a Digwyddiadau Difrifol (SEs) yn seiliedig ar ddifrifoldeb y digwyddiad. Mae digwyddiadau'n cael eu dosbarthu fel AIs pan ydynt yn cael effaith fach iawn ar ein sefydliad a'n gwaith, er eu bod yn dal i ddarparu dysgu gwerthfawr. Mae SEs yn ddigwyddiadau sy'n effeithio, mewn gwirionedd neu o bosibl, yn fwy difrifol ar ein sefydliad a'n gwaith. Adroddir am themâu gwarsi o SERs i'r Bwrdd Gweithredol a chyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio bob chwe mis.

Yn ystod 2022-2023, adroddwyd am gyfanswm o 160 o ddigwyddiadau corfforaethol a digwyddiadau fu bron â digwydd o gymharu â 172 ar gyfer 2021-2022. O'r 160 o ddigwyddiadau corfforaethol a adroddwyd yn 2022-2023, dosbarthwyd 65 yn SEs (o gymharu â 54 yn 2021-2022), ac roedd y 95 arall yn AIs (o gymharu â 118 yn 2021-2022). Digwyddodd mwyafrif y Digwyddiadau Difrifol (89 y cant ar gyfer 2022-2023) o fewn y Gyfarwyddiaeth Rheoleiddio Proffesiynol. Sbardun y cynnydd mewn Digwyddiadau Difrifol oedd nifer y digwyddiadau yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth a gynyddodd o 21 yn 2021-2022 i 27 yn 2022-2023. Rydym yn treialu dull newydd o ddysgu corfforaethol ac un o flaenoriaethau allweddol y gwaith hwn yw diogelwch gwybodaeth.

Mae adrodd am SERs a dysgu oddi wrthynt yn allweddol i wella ein perfformiad fel Rheoleiddiwr. Rydym am gryfhau ein diwylliant i un o ddysgu a bod yn agored, ac yn annog adrodd ar bob lefel yn y sefydliad. Yn ystod 2023-2024, byddwn yn adnewyddu ein polisi SER, ac yn hyrwyddo adrodd a dysgu, gan gynnwys ei gwneud yn haws adrodd am ddigwyddiadau trwy ein cronfa ddata newydd (a lansiwyd ym mis Chwefror 2023), dadansoddi tueddiadau ac olrhain camau a gymerwyd i atal hyn rhag digwydd eto. Mae hyn yn adeiladu ar argymhellion o archwiliad mewnol o'n proses SER ym mis Hydref 2022, a roddodd ganlyniad o sicrwydd rhannol. Wrth i faint o weithgarwch sydd ar y gweill i leihau ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer gynyddu, byddem yn disgwyl i nifer y digwyddiadau corfforaethol godi. O fewn hynny, hoffem weld cynnydd mewn adrodd am Ddigwyddiadau Niweidiol ag effaith lai er mwyn galluogi dysgu i atal Digwyddiadau Difrifol rhag digwydd.

Adrodd am ddigwyddiadau difrifol/digwyddiadau hysbysadwy

Mae materion y mae angen adrodd amdanynt i'r Comisiwn Elusennau yn cael eu nodi trwy sawl llwybr, gan gynnwys y polisi a'r broses Adolygu Digwyddiadau Difrifol, a thrwy'r Chwythu'r Chwiban; Gwrthdwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd; a Pholisïau a phrosesau diogelu. Yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau (CC) a Swyddfa Cofrestr Elusennau'r Alban (OSCR), pan ydym yn nodi mater, gofynnir am ganiatâd y Cyngor, fel ymddiriedolwyr, i adrodd i'r Comisiwn Elusennau. Os oes angen adrodd yn gyflymach, rydym yn gofyn am ganiatâd y Cadeirydd a hysbysir y Cyngor cyn gynted â phosibl.

Yn ystod 2022-2023, fe wnaethom hysbysu'r Comisiwn Elusennau am ddau ddigwyddiad difrifol yn deillio o faterion diogelu. Ym mis Ebrill 2023, fe wnaethom hysbysu'r Comisiwn Elusennau am un digwyddiad difrifol yn deillio o faterion diogelu. Mae ein hymchwiliad mewnol i un o'r achosion wedi dod i ben yn ddiweddar ac mae'r canlyniad wedi'i ddarparu i'r Comisiwn, y maent wedi'i nodi. Roedd y Comisiwn Elusennau yn fodlon bod yr achosion eraill wedi cael eu trin yn briodol ac yn gyfrifol. Fel y nodwyd yn adran diogelu'r adroddiad hwn, rydym yn bwrw ymlaen â chymau i gryfhau ein hymagwedd at ddiogelu ymhellach, dan arweiniad ein Harweinydd Diogelu Strategol a recriwtiwyd gennym ym mis Hydref 2022

Ym mis Mai 2023 rhoesom wybod i'r Comisiwn Elusennau am ddigwyddiad yn ymwneud â gweithredu'r elfen prawf cyfrifiadurol o'n Prawf Cymhwysedd. Mewn ymateb, rydym wedi cymryd camau i gynnal cywirdeb y gofrestr, gan gynnwys rhoi'r gorau i brofi yn y ganolfan lle canfuwyd y data anghyson. Ceir rhagor o wybodaeth am y camau a gymerwyd gennym yn yr adran adolygu perfformiad. Roedd y Comisiwn Elusennau yn fodlon bod yr achos yn cael ei drin yn briodol ac yn gyfrifol.

Gan ein bod wedi cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau, nid yw'n ofynnol i ni adrodd am ddigwyddiadau i Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (OSCR) hefyd. Fodd bynnag, yn unol â'n hymrwymiad i atebolrwydd i'r pedair gwlad, rydym yn adrodd am bob digwyddiad i'r OSCR a'r Comisiwn Elusennau.

Barn flynyddol yr archwilio mewnol 2022-2023

Mae ein Pwyllgor Archwilio yn cytuno ar ein rhaglen archwilio mewnol flynyddol ac yn ei goruchwyllo. Roedd y rhaglen ar gyfer 2022-2023 yn cynnwys naw archwiliad mewnol a gwblhawyd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Aseiniad Archwilio Mewnol	Asesiad
Ymgynghoriadau	Sicrwydd Sylweddol
Gwybodaeth y Cyngor a'r Bwrdd Gweithredol	
Systemau Ariannol Craidd	
Prosiectau a Rhaglenni - Canlyniad a Gwireddiad	Sicrwydd Rhesymol
Arfarniadau	
Caffael	
Cŵynion ac Adolygiadau o Digwyddiadau Difrifol	Sicrwydd Rhannol
Gwobr Caffael Uniongyrchol - Ymwreiddio'r camau gweithredu	Ddim yn Berthnasol gan mai cynghorol oedd yr aseiniad
Adolygiad Aeddfedrwydd Risg	

Nododd yr archwiliad o Gŵynion ac Adolygiadau o Ddigwyddiadau Difrifol (SER) y gallem fod yn nodi ac yn ymwreiddio dysgu yn fwy effeithiol ar draws y sefydliad. Fel y nodwyd yn adran SER yr adroddiad hwn, rydym yn bwrw ymlaen â chamau gweithredu i wella'r meysydd hyn.

Mae ein harchwilwyr mewnol yn adolygu gweithrediad argymhellion archwilio ac yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio. Y llynedd fe wnaethom adrodd y bu oedi wrth weithredu naw argymhelliad archwilio mewnol yn ein swyddogaeth Gwasanaethau Pobl. Roedd y rhain ym meysydd cychwynwyr, cynefino a chadw.

Roedd yr oedi hwn oherwydd heriau yn deillio o newidiadau mewn uwch arweinyddiaeth, diffygion systemau a marchnad recriwtio yr un mor heriol o ran adnoddau. Rhoddwyd blaenoriaeth i'r camau hyn ac mae pob un ond dau bellach wedi'u cwblhau. Mae'r holl argymhellion eraill o archwiliadau, lle mae'r camau sydd i'w cymryd yn ystod y cyfnod, wedi'u rhoi ar waith.

Barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yw:

“Mae gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Fodd bynnag, mae ein gwaith wedi nodi gwelliannau pellach i'r fframwaith rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddigonol ac yn effeithiol.”

Asesiad cyffredinol o effeithiolrwydd llywodraethu a sicrwydd

Fel Cadeirydd y Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu, rydym wedi adolygu effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol.


Wrth gyrraedd ein hasesiad, rydym wedi dibynnu ar ystod o dystiolaeth, gan gynnwys barn ac adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol, yr asesiad corfforaethol o ansawdd rheolaethau a sicrwydd sydd ar waith mewn cyfarwyddiaethau a'r adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd risg.

Rydym hefyd wedi dibynnu ar Adroddiad Barn a Chanfyddiadau Archwilio ein harchwilwyr allanol; ac Adroddiad Cwblhau Archwiliad a Llythyr Rheoli'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Yn gyffredinol, rydym o'r farn bod sicrwydd rhesymol bod trefniadau digonol ar waith ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth. Rydym yn cydnabod yr angen i gynnal lefel uchel o graffu ar adfer ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer a chynnydd y rhaglen Moderneiddio Gwasanaethau Technoleg a'r gwelliannau a ddaw yn sgil systemau TG mwy effeithiol a mwy o ddefnydd o systemau awtomataidd.

Syr David Warren
Cadeirydd
10 Gorffennaf
2023

Andrea Sutcliffe
Prif Weithredwr
a Chofrestrydd
10 Gorffennaf
2023



**Adroddiad yr
archwilydd
annibynnol i
ymddiriedolwyr
y Cyngor Nyrso
a Bydwreigiaeth**

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (yr 'elusen') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 sy'n cynnwys y datganiad gweithgareddau ariannol, y fantolen, y datganiad llifau arian parod a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys polisiâu cyfrifyddu pwysig. Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi ei gymhwyso wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS 102) Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r elusen ar 31 Mawrth 2023 ynghyd â'r adnoddau a ddaeth i mewn a'r ffordd y defnyddiwyd adnoddau, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011, Deddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 a rheoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'u diwygiwyd).

Sail y farn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) a chyfraith gymwys. Caiff ein cyfrifoldebau o dan y safonau hyn eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r adran datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar yr elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol yr FRC ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio rydym wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'n barn.

Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, daethom i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennym, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol o ran digwyddiadau nac amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Disgrifir ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'n hadroddiad archwilydd arnynt. Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall a geir yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw ein barn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac ni fynegwn unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Ein cyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu fel arall yr ymddengys ei bod wedi'i cham-ddatgan yn berthnasol. Os nodwn y cyfryw anghysondebau perthnasol neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i ni bennu p'un a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os down i'r casgliad, ar sail ein gwaith, fod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, rhaid i ni nodi hynny.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w nodi yn hyn o beth.

Materion y mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennym unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 a Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'u diwygiwyd), mewn perthynas â hwy, yn ei gwneud yn ofynnol inni

gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn ein barn ni:

- mae'r wybodaeth a roddir yn y datganiadau ariannol yn anghyson mewn unrhyw ffordd berthnasol ag adroddiad yr ymddiriedolwyr; neu
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol na phriodol; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nid ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Fel yr eglurir yn fanylach yn y datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor, mae'r Cyngor (sef yr Ymddiriedolwyr) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac am y fath reolaeth fewnol ag sy'n angenrheidiol ym marn yr ymddiriedolwyr i allu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel sy'n gymwys, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni fydd yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu rhoi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddynt opsiwn amgen realistig ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Rydym wedi cael ein penodi'n archwilydd o dan adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac adran 44(1)(c) o Ddeddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 ac yn cyflwyno adroddiadau yn unol â'r Deddfau a rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n weithredol o dan y ddeddf honno.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad yr archwilwyr sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Rydym yn llunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a nodwyd uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Nodir isod i ba raddau y gall ein gweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Fel rhan o'n proses gynllunio:

- Gwnaethom holi'r rheolwyr am y systemau a'r rheolaethau y mae'r elusennau wedi'u rhoi ar waith a'r rhannau o'r datganiadau ariannol sydd fwyaf agored i'r risg o afreoleidd-dra a thwyll a gofyn iddynt a oedd unrhyw achosion hysbys, honedig neu a amheuir o dwyll. Ni wnaeth yr elusen ein hysbysu am unrhyw achosion hysbys, honedig neu a amheuir o dwyll.
- Gwnaethom feithrin dealltwriaeth o'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol sy'n gymwys i'r elusen. Penderfynwyd mai'r canlynol oedd y rhai mwyaf perthnasol: y SORP Elusennau, Safon Adrodd Ariannol 102, Deddf Elusennau 2011, Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 a dyfarniad y Cyfrin Gyngor a roddwyd o dan y gorchymyn hwnnw a gofynion yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Gwnaethom ystyried y cymhellion a'r cyfleoedd sy'n bodoli yn yr elusen, gan gynnwys graddau tuedd rheolwyr, sy'n cynnig y potensial i afreoleidd-dra a thwyll barhau, a theilwra ein hasesiad risg yn unol â hynny.
- Gan ddefnyddio ein gwybodaeth am y sefydliad, ynghyd â'r trafodaethau a gynhaliwyd gyda'r elusen ar y cam cynllunio, daethom i gasgliad ynglŷn â'r risg o gamddatganiadau oherwydd afreoleidd-dra gan gynnwys twyll a theilwra ein gweithdrefnau yn unol â'r asesiad risg hwn.

Roedd y gweithdrefnau allweddol a gyflawnwyd gennym er mwyn canfod afreoleidd-dra gan gynnwys twyll yn ystod yr archwiliad yn cynnwys:

- Nodi a phrofi cofnodion mewn dyddlyfrau a'r cofnodion cyfrifyddu yn gyffredinol, yn arbennig y rhai a oedd yn arwyddocaol ac yn anarferol.
- Adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phenderfynu a yw polisiau cyfrifyddu wedi'u cynhwysu'n briodol.
- Adolygu a herio'r tybiaethau a'r dyfarniadau a ddefnyddiwyd gan reolwyr yn eu hamcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol, yn enwedig mewn perthynas â rhwymedigaeth y pensiwn budd diffiniedig a darpariaeth y panelwyr.
- Asesu graddau'r gydymffurfiaeth, neu ddiffyg cydymffurfiaeth, â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol.
- Profi llinellau incwm allweddol, yn enwedig torbwyntiau, er mwyn canfod tystiolaeth o duedd rheolwyr.
- Asesu dilysrwydd y broses o ddsbarthu incwm, gwariant, asedau a rhwymedigaethau rhwng cronfeydd anghyfyngedig a chyfyngedig.
- Dilysu asedau allweddol yn ffisegol.
- Cael cadarnhad trydydd parti o falansau banc a buddsoddiad perthnasol.
- Dogfennu a gwirio pob balans a thrafodiad parti cysylltiedig sylweddol.
- Adolygu dogfennaeth megis cofnodion cyfarfodydd bwrdd yr elusen i weld a oeddent yn cyfeirio at drafodaethau ynghylch afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliad, mae risg, na ellir ei hosgoi, na fyddwn wedi canfod rhai camdatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol er ein bod wedi cynllunio a chynnal ein harchwiliad yn briodol yn unol â safonau cyfrifyddu. Ymddiriedolwyr yr elusen sy'n bennaf cyfrifol am atal a chanfod afreoleidd-dra a thwyll.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad fel archwilydd.

Defnyddio ein hadroddiad

Cyflwynir yr adroddiad hwn i ymddiriedolwyr yr elusen, fel corff, yn unig, yn unol â rhan 4 o Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 a rheoliad 10 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006. Cyflawnwyd ein gwaith archwilio fel y gallwn ddatgan i ymddiriedolwyr yr elusen y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddo mewn adroddiad archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un arall heblaw am yr elusen ac ymddiriedolwyr yr elusen fel corff, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.


Y Cyfieithiad Cymraeg

Rydym wedi adrodd ar y datganiadau ariannol hyn ar eu ffurf wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol yw'r fersiwn hon. Y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth sy'n gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiadau hyn.

HW Fisher LLP

Cyfrifwyr Siartedig
Archwilydd Statudol
10 Gorffennaf 2023

Acre House
11-15 William Road
London
NW1 3ER
United Kingdom



**Tystysgrif ac
Adroddiad y rheolwr
ac archwilydd
cyffredinol i
ymddiriedolwyr
y Cyngor Nyrso
a Bydwreigiaeth
a'r senedd**

Barn ar ddatganiadau ariannol

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2023 o dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys:

- Mantolen fel ar 31 Mawrth 2023;
- Datganiad Gweithgareddau Ariannol a Llif Arian Parod am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- y nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig gan gynnwys Safonau Adrodd Ariannol (SAA) 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Ymarfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig) yw'r fframwaith adrodd cyllidol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar 31 Mawrth 2023 a'i adnoddau yn dyfod i mewn a'i ddefnydd o adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 a phenderfyniadau'r Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno; ac

- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Elusennau a Buddsoddi gan Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 a rheoliad 8 Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006, Deddf Elusennau 2011.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Sail ar gyfer barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) (SARh DU), y gyfraith berthnasol a Nodyn Ymarfer 10 *Archwilio Datganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2022)*. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran *Cyfrifoldebau'r Archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol* fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â *Safon Foesebol Ddiwygiedig 2019* y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwy'n annibynnol ar Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio sydd wedi dod i law yn ddigonol ac yn briodol i roi sail ar gyfer fy marn.

Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi casglu bod defnydd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o gyfrifo ar sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol ynghylch digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid y datganiadau ariannol fy nhystysgrif archwilio wedi hynny. Y Cyngor a'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel

arall yn benodol yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, o wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson â'r datganiadau ariannol neu a yw'n ymddangos bod fy ngwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu fel arall yn cael ei chamddatgan yn sylweddol.

Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae gofyn i fi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i fi adrodd am y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r penderfyniadau'r Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd o dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'n unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Materion yr wyf yn adrodd arnynt fel eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol rwyf yn adrodd wrthy ch os, yn fy marn i:

- mae'r wybodaeth a roddir yn y datganiadau ariannol yn anghyson mewn unrhyw ffordd berthnasol â'r Adroddiad Blynyddol; neu
- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol a phriodol wedi'u cadw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- na wnaed datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth ariannol a bennir yn Neddf Elusennau a Buddsoddi gan Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006 (fel y'i diwygiwyd) neu Ddeddf Elusennau 2011, neu fel sy'n ofynnol gan y penderfyniadau a wnaed gan y Cyfrin Gyngor o dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 neu nad yw rhannau o'r Adroddiad Ar Gydabyddiaeth sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu y cydymffurfiwyd â chanllawiau Trysorlys EM.

Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr esbonir yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd mewn perthynas â'r cyfrifon, y Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac ar gyfer unrhyw reolaeth fewnol y mae'r Cyngor yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag camddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyngor yn gyfrifol am asesu gallu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai bod y Cyngor naill ai'n bwriadu rhoi'r gorau i weithrediadau, neu nad oes ganddo ddewis realistig ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd wrth archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd rhag camddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellir disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â fy nghyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Mae'r graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, i'w gweld isod.

Fel rhan o fy mhroses gynllunio:

- Holais reolwyr am y systemau a'r rheolaethau sydd ar waith gan yr elusen, meysydd y datganiadau ariannol sydd fwyaf agored i'r risg o afreoleidd-dra a thwyll, ac a oedd unrhyw dwyll hysbys, amheus neu honedig. Ni wnaeth yr elusen roi gwybod i fi am unrhyw dwyll hysbys, amheus neu honedig.
- Cefais ddealltwriaeth o'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddio sy'n berthnasol i'r elusen. Penderfynais fod y canlynol yn fwyaf perthnasol: y SORP Elusennau, FRS 102, Deddf Elusennau 2011, Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 a phenderfyniad y Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd o dan hynny a gofynion yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Ystyriais y cymhellion a'r cyfleoedd sy'n bodoli yn yr elusen, gan gynnwys graddau'r duedd reoli, sy'n peri potensial i afreoleidd-dra a thwyll barhau, a theilwra fy asesiad risg yn unol â hynny.
- Gan ddefnyddio fy ngwybodaeth am yr elusen, ynghyd â'r trafodaethau a gynhaliwyd gyda'r elusen yn ystod y cam cynllunio, ffurfiais farn ar y risg o gamddatgan oherwydd afreoleidd-dra gan gynnwys twyll a theilwriais fy ngweithdrefnau yn unol â'r asesiad risg hwn.

Cefais ddealltwriaeth hefyd o fframwaith awdurdod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn gweithredu ynddynt. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd

effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennyf yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'u diwygiwyd) a'r Elusennau ac Ymddiriedolwyr. Deddf Buddsoddi (yr Alban) 2005.

Roedd y gweithdrefnau allweddol a ddilynais i ganfod afreoleidd-dra gan gynnwys twyll yn ystod yr archwiliad yn cynnwys:

- Nodi a phrofi cofnodion yn y cofnodion cyfrifyddu cyffredinol, yn enwedig y rhai a oedd yn arwyddocaol ac yn anarferol.
- Adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phenderfynu a oedd polisiâu cyfrifyddu wedi'u cymhwyso'n briodol.
- Adolygu a herio'r tybiaethau a'r farn a ddefnyddiwyd gan y rheolwyr yn eu hamcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol, yn enwedig mewn perthynas â'r rhwymedigaeth pensiwn buddion diffiniedig a'r ddarpariaeth panelwyr.
- Asesu i ba raddau y cydymffurfiwyd, neu na chydymffurfiwyd, â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol.
- Profi llinellau incwm allweddol, yn enwedig torbwyntiau, am dystiolaeth o ragfarn reoli.
- Asesu dilysrwydd dosbarthu incwm, gwariant, asedau a rhwymedigaethau rhwng cronfeydd anghyfyngedig a chronfeydd cyfyngedig.
- Cyflawni gwiriad ffisegol o asedau allweddol.
- Cael cadarnhad trydydd parti o falansau banc a buddsoddi materol.
- Dogfennu a gwirio holl falansau a thrafodion partiön cysylltiedig arwyddocaol.
- Adolygu dogfennau fel cofnodion bwrdd yr elusen ar gyfer trafodaethau am afreoleidd-dra gan gynnwys twyll.
- Drwy fy sicrwydd ynghylch rheoleidd-dra, gan ystyried unrhyw daliadau arbennig a wnaed yn ystod y flwyddyn, unrhyw drefniadau oddi ar y gyflogres, adolygiad o bapurau a chofnodion y Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio ac adolygiad cymharol cyffredinol o'r flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol.

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliad, mae risg anochel nad wyf efallai wedi canfod rhai camdatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol er fy mod wedi cynllunio a pherfformio fy archwiliad yn briodol yn unol â safonau archwilio. Ymddiriedolwyr yr elusen sy'n bennaf gyfrifol am atal a chanfod afreoleidd-dra a thwyll.

Ceir disgrifiad pellach o fy nghyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy nhystysgrif.

Mae gofyn i fi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant a adroddwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwysu at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.


Cyfieithiad Cymraeg

Rwyf wedi ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol hyn yn eu ffurf wreiddiol. Mae'r fersiwn hon yn gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol. Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hyn.

Gareth Davies

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
12 Gorffennaf 2023

Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP



**Datganiadau
ariannol ar
gyfer y
flwyddyn a
ddaeth i ben
31 Mawrth
2023**

Datganiad gweithgareddau ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 March 2023	Cronfeydd Anghyfyngedig		Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	Cronfeydd Anghyfyngedig		Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022	
	Nodyn	£'000		£'000	£'000		£'000
Incwm o:							
weithgareddau eludennol:							
Ffioedd	2	100,433	-	100,433	96,787	-	96,787
Grantiau	3	-	199	199	-	2,609	2,609
Incwm arall	3	172	-	172	79	-	79
Cyfanswm		100,605	199	100,804	96,866	2,609	99,475
Incwm buddsoddiadau:	3	2,081	-	2,081	923	-	923
Cyfanswm incwm		102,686	199	102,885	97,789	2,609	100,398
Gwariant ar:							
Codi arian	4	(166)	-	(166)	(157)	-	(157)
Gweithgareddau elusennol	5	(97,736)	(199)	(97,935)	(90,165)	(2,609)	(92,774)
Cyfanswm		(97,902)	(199)	(98,101)	(90,322)	(2,609)	(92,931)
Incwm net cyn enillion net/(colledion) ar fuddsoddiadau		4,784	-	4,784	7,467	-	7,467
Ennill/(colli) ar fuddsoddiadau	14	(1,855)	-	(1,855)	1,024	-	1,024
Incwm net		2,929	-	2,929	8,491	-	8,491
Enillion/(colledion) cydnabyddedig eraill:							
Ennill actiwaraid ar gynllun pensiwn buddion diffiniedig ac ased addasiad uchafbris	19	(2,458)	-	(2,458)	(1,453)	-	(1,453)
Symudiad net mewn cronfeydd		471	-	471	7,038	-	7,038
Cysoni arian:							
Cyfanswm yr arian a ddygwyd ymlaen		76,311	-	76,311	69,273	-	69,273
Cyfanswm yr arian a gariwyd ymlaen		76,782	-	76,782	76,311	-	76,311

Mae'r holl gronfeydd a ddygir ac a ddygir ymlaen yn anghyfyngedig yn y blynyddoedd ariannol presennol a blaenorol. Deilliodd yr holl weithgareddau a adlewyrchwyd yn y ddau gyfnod uchod o weithrediadau parhaol. Mae pob ennill a cholli cydnabyddedig wedi'u cynnwys yn y datganiad uchod.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 129 i 154 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Mantolen ar 31 Mawrth 2023	Ar 31 Mawrth 2023		Ar 31 Mawrth 2022
	Nodyn	£'000	£'000
Asedau sefydlog			
Asedau annirweddol	11	14,169	10,515
Asedau dirweddol	12	18,152	18,163
Buddsoddiadau	14	34,676	32,838
Cyfanswm asedau sefydlog		66,997	61,516
Asedau Presennol			
Dyledwyr	15	3,770	3,306
Buddsoddiadau	14	29,612	48,125
Arian yn y banc ac mewn llaw		37,631	21,881
Cyfanswm asedau presennol		71,013	73,312
Dyledion:			
Credydwyr: symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn	16	(58,006)	(55,173)
Cyfanswm dyledion presennol		(58,006)	(55,173)
Asedau net presennol		13,007	18,139
Cyfanswm asedau llai dyledion presennol		80,004	79,655
Credydwyr: symiau sy'n syrthio'n ddyledus ar ôl mwy nac un	17	(18)	(76)
Darpariaethau ar gyfer dyledion	18	(3,204)	(3,268)
Cyfanswm asedau net		76,782	76,311
Cronfeydd yr NMC			
Cronfeydd anghyfyngedig		76,782	76,311
Cyfanswm cronfeydd		76,782	76,311

Mae'r nodiadau ar dudalennau 129 i 154 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Cymeradwyodd y Cyngor y cyfrifon ar 5 Gorffennaf 2023 ac fe'u llofnodir ar eu rhan gan:

Syr David Warren
Cadeirydd
10 Gorffennaf
2023

Andrea Sutcliffe
Prif Weithredwr a
Chofrestrydd
10 Gorffennaf
2023

**Datganiad llifau arian ar gyfer
y flwyddyn a ddaeth i ben
31 March 2023**

**Blwyddyn a
ddaeth i ben
31 Mawrth 2023**

**Blwyddyn a
ddaeth i ben
31 Mawrth 2022**

	Nodyn	£'000	£'000
Llifau arian o weithgareddau gweithredol			
Arian net a ddarparwyd gan weithgareddau gweithredol		5,821	8,317
Llifau arian o weithgareddau buddsoddi			
Llog a enillwyd o adneuron banc	3	1,222	233
Tynnu arian (buddsoddiad)/tynnu - adneuron tymor hir		18,513	(19,763)
Buddsoddiad arian - buddsoddiadau asedau sefydlog	14	(3,000)	-
Prynu eiddo, offer ac offer	11 & 12	(6,806)	(6,456)
Arian net a ddarparwyd gan/ (a ddefnyddiwyd mewn) gweithgareddau buddsoddi		9,929	(25,986)
Newid mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn y cyfnod adrodd		15,750	(17,669)
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn		21,881	39,550
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn		37,631	21,881

Mae'r nodiadau ar dudalennau 129 i 154 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Cysoni incwm net i lif arian net o weithgareddau gweithredol	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022
	£'000	£'000
Incwm net o'r cyfnod adrodd (un unol â datganiad gweithgareddau ariannol)	2,929	8,491
Llog a fagwyd o adneuon banc	(1,222)	(233)
Difidendau a llog a enillwyd ar bortffolio buddsoddiad sefydlog	(859)	(690)
(Ennill)/colli ar fuddsoddiadau	1,855	(1,024)
Taliad rheoli buddsoddiad	166	157
Taliadau dibrisiant ac amorteiddiad	3,163	5,508
(Cynnydd)/gostyngiad mewn dyledwyr	(464)	716
Cynnydd mewn credydwyr a darpariaethau	2,711	-
Newid mewn dyled cynllun pensiwn	-	(3,155)
Addasiadau cynllun pensiwn	(2,458)	(1,453)
Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol	5,821	8,317

Dadansoddiad o arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022
	£'000	£'000
Arian yn y banc ac mewn llaw	9,845	20,874
Buddsoddiadau tymor byr ⁴	27,786	1,007
	37,631	21,881

Dadansoddiad o newidiadau mewn dyled net

Nid oedd gan y Cyngor unrhyw ddyled yn ystod y flwyddyn.

Yn unol â'r SORP Elusennau, FRS 102:

Yn y fantolen, mae arian yn y banc ac mewn llaw yn golygu cyfrifon banc a mynediad ar unwaith neu fuddsoddiadau yn aeddfedu o fewn tri mis o ddyddiad y fantolen. Mae buddsoddiadau ag aeddfedrwyddau o rhwng tri a ddeuddeg mis yn cael eu dosbarthu fel buddsoddiadau asedau cyfredol.

Yn y dadansoddiad uchod o arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian, mae arian yn y banc ac mewn llaw yn golygu cyfrifon banc a mynediad ar unwaith tra bo buddsoddiadau yn aeddfedu o fewn tri mis o ddyddiad y fantolen yn cael eu dosbarthu fel buddsoddiadau tymor byr.

Yn nodyn 14, mae buddsoddiadau ag aeddfedrwyddau o rhwng tri a deuddeg mis wedi cael eu dosbarthu fel adneuon tymor byr.

Nid yw'r NMC yn dal unrhyw arian corfforol.

⁴ Gweler buddsoddiadau nodyn 14

Nodiadau i'r cyfrifon

1. Sail paratoi a pholisïau cyfrifeg

Rydym yn paratoi ein cyfrifon yn unol â'r SORP Elusennau (FRS 102). Fel yr amlinellir yn ein Cyfarwyddyd Cyfrifon gan y Cyfrin Gyngor, sydd wedi'i atgynhyrchu yn Atodiad 1, rydym hefyd yn ystyried Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FRoM), i'r graddau bod gofynion y FRoM yn egluro neu'n adeiladu ar ofynion y SORP Elusennau.

Rydym yn ateb y diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS 102.

Mae'r prif bolisïau cyfrifeg a fabwysiadwyd, dyfarniadau a phrif ffynonellau ansicrwydd amcangyfrif ym mharatoi'r cyfrifon fel a ganlyn:

a) Busnes gweithredol

Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol.

Ein hamcan yw diogelu'r cyhoedd trwy reoleiddio nyrsys a bydwragedd yn Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a nyrsys cyswllt yn Lloegr. Rydym yn cael ein cyllido gan y ffioedd cofrestru sy'n cael eu talu gan nyrsys, bydwragedd a nyrsys cyswllt. Gan ystyried ein ffynhonnell gymharol ddiogel o incwm a'n harian sylweddol wrth gefn, mae'r Cyngor wedi adolygu ein hamgylchiadau, cynlluniau gwaith, cyllidebau, rhagolygon llif arian a'n lefelau arian wrth gefn presennol ac a ragwelir ac mae'n gyfforddus â chyllidebau diffyg yn y tymor canolig (3-5 mlynedd) wrth inni adfer o effaith Covid-19 a chyllido rhaglenni buddsoddi sylweddol.

Roedd yr ymgynghoriad diweddar gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar fodel y DU o reoleiddio ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn eglur ar y rhagdybiaeth o'r angen parhaol i'r dyfodol am ein swyddogaethau rheoleiddiol.

O ystyried yr angen parhaol am ein swyddogaethau rheoleiddiol a'n sefyllfa ariannol a amlinellwyd uchod, mae'r Cyngor yn ystyried bod adnoddau digonol yn parhau i fod ar gael i gyllido ein gweithgareddau am y dyfodol rhagweladwy ac nad oes ansicrwyddau materol am allu'r NMC i barhau fel busnes gweithredol.

b) Confensiwn cyfrifeg

Rydym yn paratoi ein cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol. Mae asedau a dyledion yn cael eu hadnabod yn y lle cyntaf ar gost hanesyddol neu werth trafodiad oni bai y datgenir fel arall ar y nodiadau polisi cyfrifeg perthnasol.

c) Dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifeg hanfodol a phrif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif

Yng nghymhwysiad y polisïau cyfrifeg hyn, mae'n ofynnol inni wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a rhagdybiaethau am werth cludo asedau a dyledion sydd ddim yn amlwg ar unwaith o ffynonellau eraill.

Mae amcangyfrifon a dyfarniadau yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill gan gynnwys disgwyliadau digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau. Gall canlyniadau gwirioneddol fod yn whanaol yn y pen draw i'r amcangyfrifon hynny.

- Dibrisiant/Amorteiddiad:

Mae bywydau defnyddiol economaidd asedau sefydlog yn seiliedig ar ddyfarnu a phrofiad rheolwyr.

- Pensiynau:

Y prif ragdybiaethau a ddefnyddir i gyfrifo'r gwaged yn y cynllun pensiwn buddion diffiniedig yw'r rheini fel yr amlinellir yn nodyn 19. Mae uchafswm ased wedi cael ei gymhwyso i ddod â'r safle net i ddim byd, gan gydnabod nad oes gan yr NMC hawl ddiamedod i warged.

- Darpariaeth panelydd:

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer costau panelydd ychwanegol posibl yn adlewyrchu ein hamcangyfrif pwylllog o effaith ehangach bosibl hawliad unigol i dribiwnlys cyflogaeth am symiau ychwanegol gan banelydd addasrwydd i ymarfer.

d) Incwm

Mae'r holl incwm yn cael ei gydnabod cyn gynted â bod gan yr NMC hawl i'r incwm, Mae'n debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn a gall y swm gael ei fesur yn ddibynadwy.

- Incwm o weithgareddau elusennol:

Mae'n rhaid i nyrsys, bydwagedd a nyrsys cyswllt dalu ffi cofrestru blynyddol i fod yn gofrestredig â'r NMC ac i allu ymarfer. Mae ffioedd cofrestru yn cael eu talu naill ai'n flynyddol ymlaen llaw neu'n chwarterol ymlaen llaw. Rydym yn cydnabod y ffioedd fel incwm yn fisol ar draws y flwyddyn y mae'r ffi cofrestru yn gymwys iddi.

Y swm incwm gohiriedig o fewn ein credydwyr yw gwerth y ffioedd rydym wedi eu derbyn ar bob dyddiad mantolen sy'n ymwneud â blwyddyn ariannol i'r dyfodol. Mae ffioedd eraill gan gynnwys ffioedd dilysu yn cael eu credydu i incwm ar ddyddiad eu derbyn.

- Incwm Buddosddi:

Cyfrifir incwm buddsoddi pan fydd yn cael ei dderbyn.

- Grantiau Llywodraeth:

Cydnabyddir incwm grant cyn gynted â bod gan yr NMC hawl i'r incwm, Mae'n debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn a gall y swm gael ei fesur yn ddibynadwy. Ar gyfer grantiau'n berthynol i berfformiad, mae hawl i'r incwm yn cynnwys ateb yr amodau perthynol i berfformiad.

e) Gwariant

- Gweithgareddau elusennol:

Mae gwariant ar weithgareddau elusennol yn cynnwys yr holl wariant sy'n berthynol i amcanion yr elusen sy'n cynnwys: hyrwyddo safonau a datblygu polisi, addysg, cynnal y gofrestr, addasrwydd i ymarfer, a chyfathrebu ac ymgysylltu cyhoeddus. Gweler nodyn 5.

- Costau cymorth:

Costau cymorth yw costau ein swyddogaethau corfforaethol gan gynnwys adeiladau, TG, cyllid ac adnoddau dynol. Mae'n nhw'n cael eu dosrannu i'r swyddogaethau rheoleiddiol ar sail niferoedd y cyflogaeth yn y swyddogaethau rheoleiddiol.

f) Cyfrifeg cronfeydd

Mae'r holl gronfeydd ar hyn o bryd yn anghyfyngedig ac yn cael eu hadrodd felly yn y datganiadau ariannol. Maen nhw ar gael i'w defnyddio wrth ddisgresiwn y Cyngor i gefnogi amcanion cyffredinol yr NMC.

Rydym wedi derbyn cyllid grant cyfyngedig ac mae'r cronfeydd hyn wedi cael eu defnyddio yn unol â'r cyfyngiadau penodol a osodwyd.

g) Asedau wedi'u prydlesu

Mae rhentiadau sy'n gymwys i brydlesau gweithredol, lle mae holl fuddion a risgiau perchnogaeth o ran sylwedd yn aros â'r prydleswr, yn cael eu gwneud yn daladwy i'r datganiad o weithgareddau ariannol mewn symiau cydradd dros gyfnodau'r prydlesau.

h) Buddion cyflogeion

- Tâl gwyliau

Mae tâl gwyliau yn cael ei gydnabod fel traul yn y cyfnod mae'r gwasanaeth yn cael ei dderbyn ynddo.

- Buddion terfynu

Mae buddion terfynu yn cael eu cydnabod ar unwaith fel traul pan fydd yr elusen wedi ymrwymo'n amlwg i derfynu cyflogaeth cyflogai neu i ddarparu buddion terfynu.

- Costau pensiwn

Mae buddion ymddeol yn cael eu darparu gan gynllun buddion diffiniedig a chynllun cyfraniadau diffiniedig. Mae taliadau yn cael eu gwneud i ymddiriedolaethau pensiwn, sydd ar wahân yn ariannol o'r NMC.

Cafodd y cynllun buddion diffiniedig ei gau i groniad buddion i'r dyfodol yn dod i rym o 1 Gorffennaf 2021 ac, o ganlyniad i'r adolygiad tair blynedd ar 31 Mawrth 2022 yn dangos gwarged, hyd yn oed o dan ragdybiaethau gofalus iawn wedi'u cynllunio i sicrhau bod gan y cynllun 'ddibyniaeth isel' ar y cyflogwr, nid oes taliadau cynllun adfer yn ofynnol ar hyn o bryd.

Mae'r gwahaniaeth rhwng gwerth marchnad asedau'r gronfa bensiwn a gwerth presennol dyledion pensiwn cronedig yn cael ei ddangos fel ased neu ddyled ar y fantolen, ac eithrio bod ased yn cael ei chydnabod yn unig lle nad oes gan yr Elusen hawl ddiamedod i'r gwarged hwnnw. Gan nad oes gan yr NMC hawl ddiamedod i warged, mae addasiad uchafswm asedau wedi cael ei gymhwyso i ddod â'r safle net ar y fantolen i ddim byd, â'r ennill actiwaraid yn ogystal â'r addasiad uchafswm asedau yn cael ei wneud yn daladwy gan yr SoFA.

Dynodir cost gwasanaeth darparu pensiwn yn ymwneud â'r cyfnod, ynghyd â chostau unrhyw fuddion perthynol i wasanaeth yn y gorffennol a chost ariannu pensiwn, sy'n daliad cydradd â'r cynnydd yng ngwerth presennol dyledion y Gronfa Bensiwn ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol, llai'r hyn sy'n cyfateb i gredyd ar asedau i'r SoFA.

Mae taliadau i'r cynllun cyfraniadau diffiniedig yn cael eu gwneud ar sail cyfraniadau canran gosodedig gan yr NMC a chyflogeion, ac mae'r costau yn cael eu gwneud yn daladwy gan y Datganiad Gweithgareddau Ariannol (SoFA) fel y cânt eu cynhyrchu.

i) Asedau sefydlog

Mae gwariant yn cael ei gyfalafu yn unig lle mae cost ased neu grŵp o asedau yn fwy na £5,000. Mae dibrisiant/amorteiddiad yn cael ei ddarparu ar asedau sefydlog i'w hysgrifennu i lawr i werth enwol o £1 dros eu hoesau defnyddiol amcangyfrifedig mewn rhandaliadau cydradd fel a ganlyn:

Adeiliad Prydles Hir - 23 Portland Place ⁵	50 mlynedd
Gosod ac adnewyddu'r swyddfa ased	Cyfnod y brydles neu oes ddefnyddiol economaidd yr
Dodrefn	10 mlynedd
Prosiectau TG	3-10 mlynedd
Meddalwedd	3-5 mlynedd
Cyfarpar	3-5 mlynedd

Fe wnaethom ailbriso 23 Portland Place yn ystod 2013-14 ac ar fabwysiadu FRS 102 gyntaf fe wnaethom ddewis i ddefnyddio'r prisiad hwn fel cost a ystyriwyd wrth symud ymlaen. Yn ystod y flwyddyn cafodd oes ddefnyddiol amcangyfrifedig asedau prosiectau TG ei newid o 3-5 mlynedd i 3-10 mlynedd, i adlewyrchu'r amser y disgwylir i'r asedau gael eu defnyddio drosto yn well.

Mae Asedau Sefydlog yn cael eu hasesu ar bob dyddiad adrodd ar gyfer unrhyw ddangosyddion o amharu. Os oes unrhyw awgrym o'r fath yn bodoli, amcangyfrifir swm adferadwy'r ased.

Mae costau mewnol a achosir yn uniongyrchol ar ddatblygu meddalwedd yn cael eu cyfalafu fel rhan o'r prosiect maen nhw'n berthynol iddo.

j) Buddsoddiadau

Mae buddsoddiadau asedau sefydlog yn cael eu cyfalafu yn y lle cyntaf ar gost ac yn cael eu cydnabod wedyn ar werth marchnad ar ddyddiad y fantolen.

Mae enillion a cholledion ar fuddsoddiadau yn cael eu cyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng cyfansymiau gwerthiannau a'u gwerth marchnad ar ddechrau'r flwyddyn, neu eu cost os cawsant eu caffael yn ystod y flwyddyn, ac maen nhw'n cael eu codi neu eu credydu i ddatganiad y gweithgareddau ariannol ym flwyddyn y defnydd.

Mae'r symudiad mewn gwerthoedd marchnad yn ystod y flwyddyn ar gyfer asedau a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei gredu neu ei wneud yn daladwy gan y datganiad gweithgareddau ariannol yn seiliedig ar werth y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae buddsoddiadau asedau presennol yn fuddsoddiadau ag aeddfedrwyddau o rhwng tri a deuddeg mis.

k) Dyledwyr

Mae dyledwyr ac incwm cronedig yn cael eu cydnabod yn y swm dyledus ar ddiwedd y flwyddyn. Mae rhagdaliadau yn cael eu prisio ar y swm a ragdelir.

⁵ Gweler Nodyn 12.1

l) Arian yn y banc ac mewn llaw

Mae arian yn y banc ac mewn llaw yn cynnwys arian a buddsoddiadau hylifol iawn tymor byr ag aeddfedrwydd o dri mis neu lai ar ddyddiad y fantolen.

m) Credydwy'r a darpariaethau

Mae credydwy'r a darpariaethau yn cael eu cydnabod lle mae gennym rwymedigaeth bresennol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol fydd yn debygol o arwain at drosglwyddo cyllid i drydydd parti a gellir mesur y swm sy'n ddyledus i dalu am y rhwymedigaeth neu ei amcangyfrif yn ddibynadwy. Cydnabyddir credydwy'r a darpariaethau fel arfer ar eu swm talu ar ôl caniatáu am unrhyw ostyngiadau masnach.

n) Offer ariannol

Mae offer ariannol sylfaenol yn cael eu cydnabod yn y lle cyntaf ar werth trafodiad ac wedyn yn cael eu mesur ar gost amorteiddiedig. Mae asedau ariannol a ddelir ar gost amorteiddiedig o falansau arian, buddsoddiadau, masnach a dyledwy'r eraill. Mae buddsoddiadau yn y farchnad stoc yn cael eu dal ar werth marchnad. Mae dyledion ariannol a ddelir ar gost amorteiddiedig yn cynnwys credydwy'r masnach, credydwy'r eraill a chroniadau.

2. Incwm ffioedd

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022
	£'000	£'000
Ffioedd cofrestru	92,828	89,749
Ffioedd eraill a delir gan weithwyr cofrestredig	7,605	7,038
Cyfanswm	100,433	96,787

3. Buddsoddiad, grant ac incwm arall

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022
	£'000	£'000
Llog a fagwyd o adneuron banc	1,222	233
Difidendau a llog a fagwyd yn ein hased sefydlog portffolio buddsoddi	859	690
Incwm buddsoddi	2,081	923
Incwm Grantiau	199	2,609
Incwm arall	172	79
Cyfanswm	2,452	3,611

Cafodd £0.199 miliwn o incwm grant cyfyngedig ei dderbyn o'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol am waith a gafodd ei wneud gan yr NMC i gynyddu cyflymder prosesu ceisiadau rhyngwladol i ymuno â'r gofrestr (2021-2022: £2.609 miliwn). Cafodd £0.195 miliwn (2021-2022: £2.4 miliwn) o'r cyllid hwn ei drosglwyddo'n uniongyrchol i'r ganolfan brawf sy'n darparu'r profion i ymgeiswyr rhyngwladol.

Cafodd £0.110 miliwn o incwm arall ei dderbyn o dan gontract â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol am waith a gafodd ei wneud gan yr NMC i sefydlu cofrestr dros dro mewn ymateb i'r pandemig Coronafeirws (2021-2022: £0.062 miliwn).

4. Dadansoddiad o wariant ar godi arian

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022
	£'000	£'000
Taliad rheoli buddsoddiad	166	157

5. Dadansoddiad o wariant ar weithgareddau elusennol

	Hyrwyddo safonau a datblygu polisi	Addysg	Cynnal y gofrestr	Addasrwydd i ymarferctise	Cyfathrebiadau ac ymgysylltu cyhoeddus	Cyfanswm 2022-2023
Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gweithgareddau yr ymgwymerwyd â nhw yn uniongyrchol						
Costau cyflogaion	6,188	1,053	5,124	28,525	2,637	43,527
Costau eraill	1,818	18	345	19,428	543	22,152
Costau cymorth						
Costau cyflogaion	1,275	211	2,157	9,984	709	14,336
Costau eraill	1,305	217	2,209	13,463	726	17,920
Cyfanswm	10,586	1,499	9,835	71,400	4,615	97,935

Cafodd £0.199 miliwn o incwm grant cyfyngedig ei dderbyn oddi wrth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol am waith a gafodd ei wneud gan yr NMC i gynyddu cyflymder prosesu ceisiadau rhyngwladol i ymuno â'r gofrestr (2021-2022: £2.609 miliwn). Cafodd £0.195 miliwn (2021-2022: £2.4 miliwn) o'r cyllid hwn ei drosglwyddo'n uniongyrchol i'r ganolfan brawf sy'n darparu'r profion i ymgeiswyr rhyngwladol.

	Hyrwyddo safonau a datblygu polisi	Addysg	Cynnal y gofrestr	Addasrwydd i ymarferctise	Cyfathrebiadau ac ymgysylltu cyhoeddus	Cyfanswm 2021-2022
Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gweithgareddau yr ymgwymerwyd â nhw yn uniongyrchol						
Costau cyflogaion	5,430	889	5,757	26,864	2,408	41,348
Costau eraill	1,778	42	2,520	15,519	597	20,456
Costau cymorth						
Costau cyflogaion	1,086	142	1,866	7,824	549	11,467
Costau eraill	1,590	207	2,730	14,172	804	19,503
Cyfanswm	9,884	1,280	12,873	64,379	4,358	92,774

Er mwyn cynorthwyo cymhariaeth â ffigurau 31 Mawrth 2023, sy'n adlewyrchu strwythur presennol yr NMC, mae'r ffigurau uchod wedi cael eu hailddadansoddi. Mae hyn wedi arwain at £0.6 miliwn o wariant yn cael ei drosglwyddo i hyrwyddo safonau a datblygu polisi o'r penawdau eraill i gyd (gan gynnwys £0.1m o Gynnal y gofrestr a £0.5m o Addasrwydd i Ymarfer) am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022.

6. Dadansoddiad o gostau cymorth

	Hyrwyddo safonau a datblygu polisi	Addysg	Cynnal y gofrestr	Addasrwydd i ymarfer	Cyfathrebiadau ac ymgysylltu cyhoeddus	Cyfanswm 2022-2023
Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyfleusterau	160	26	271	4,492	89	5,038
Cyllid a Chaffael	274	45	464	2,148	153	3,084
AD	643	107	1,088	5,036	354	7,232
TGC	745	124	1,260	5,833	414	8,376
Llywodraethiant	324	54	548	2,536	180	3,642
Cyfreithiol	153	25	259	1,199	85	1,721
Dibrisiant	281	47	476	2,203	156	3,163
Addasiad Pensiwn	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm	2,580	428	4,366	23,447	1,435	32,256

	Hyrwyddo safonau a datblygu polisi	Addysg	Cynnal y gofrestr	Addasrwydd i ymarfer	Cyfathrebiadau ac ymgysylltu cyhoeddus	Cyfanswm 2021-2022
Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyfleusterau	228	30	392	4,368	116	5,134
Cyllid a Chaffael	298	39	512	2,149	151	3,149
AD	437	57	749	3,144	221	4,607
TGC	943	123	1,620	6,794	477	9,957
Llywodraethiant	394	51	678	2,838	199	4,160
Cyfreithiol	123	16	212	887	62	1,300
Dibrisiant	522	68	896	3,757	263	5,506
Addasiad Pensiwn	(269)	(35)	(463)	(1,941)	(136)	(2,844)
Cyfanswm	2,676	349	4,596	21,996	1,353	30,970

Er mwyn cynorthwyo cymhariaeth â ffigurau 31 Mawrth 2023, sy'n adlewyrchu strwythur presennol yr NMC mae'r ffigurau uchod wedi cael eu hailddadansoddi. Mae hyn wedi arwain at £0.7 miliwn o wariant yn cael ei drosglwyddo allan o gostau Cymorth (gan gynnwys £498k o Addasrwydd i ymarfer) i gostau Uniongyrchol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022.

7. Costau Llywodraethiant

Y dadansoddiad o gostau llywodraethiant (a gynhwysir o fewn costau cymorth) yw:

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022
	£'000	£'000
Lwfansau aelodau'r Cyngor, yswiriant cenedlaethol, teithio a chynhaliaeth	400	300
Tâl archwilwyr am wasanaethau archwilio: HW Fisher LLP	73	46
Tal archwilwyr am wasanaethau archwilio: NAO	17	13
Ffi blynyddol yr Awdurdod Safonau Proffesiynol	1,998	1,982
Costau gweithredu (gan gynnwys cyflogau)	1,154	1,819
Cyfanswm	3,642	4,160

O ffi archwilio £73,000 HW Fisher am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023, mae £7,000 yn ymwneud â ffi ychwanegol am archwiliad 2022 na chafodd ei ychwanegu yn y flwyddyn flaenorol.

O'r ffi archwilio NAO £17k am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023, mae £1k yn ymwneud â ffi ychwanegol na chafodd ei ychwanegu yn y flwyddyn flaenorol.

8. Cyfanswm adnoddau a wariwyd fesul categori cost

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022
	£'000	£'000
Cyflogau a chostau cysylltiedig	57,393	52,815
Costau perthynol i addasrwydd i ymarfer	19,428	14,602
Datblygiad a chymorth TG	4,922	4,707
Ffioedd proffesiynol	3,940	7,169
Rhent yn daladwy ar brydlesau swyddfeydd	2,077	2,290
Costau adeiladau eraill	2,009	1,888
Costau eraill perthynol i gyflogeion	1,614	1,464
Sicrwydd ansawdd addysg	1,047	1,258
Dibrisiant	3,163	5,508
Argraffu, postio a deunyddiau swyddfa	129	132
Costau cyllid ac yswiriant ⁶	921	833
Costau Cyngor a phwyllgorau	458	265
Cyfanswm	98,101	92,931

Gwariant ar ymgynghoriaeth

Y diffiniad o ymgynghoriaeth yw'r ddarpariaeth i reolwyr o gyngor gwrthrychol yn ymwneud â strategaeth, strwythur, rheolaeth neu weithrediadau sefydliad, wrth ddilyn ei ddibenion a'i amcanion. Bydd cyngor o'r fath yn cael ei ddarparu y tu allan i'r amgylchedd 'busnes-fel-arfer' pan nad yw sgiliau o fewn y sefydliad

ar gael a bydd yn gyfyngedig gan amser. Gall ymgynghoriaeth gynnwys adnabod opsiynau ag argymhellion, neu gymorth â (ond heb ddarparu) gweithredu'r datrysiadau. Ar y sail hwn mae costau ymgynghoriaeth wedi cael eu hadnabod megis isod. Mae'r costau hyn wedi cael eu cynnwys yn bennaf yn y categori ffioedd Proffesiynol, a hefyd yn natblygiad a chymorth TG.

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022
	£'000	£'000
Ymgynghoriaeth	758	775

⁶ Mae'n cynnwys yswiriant indemniad ymddiriedolwyr

9. Gwybodaeth ynghylch cyflogeion

Cyflogau a chostau cysylltiedig	Swyddogion gweithredo	Cyflogeion eraill	31 Mawrth 2023	31 Mawrth 2022
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyflogau	1,130	45,645	46,775	42,544
Costau nawdd cymdeithasol (Cyfraniadau YG Cyflogwr a lefi Prentisiaeth)	148	4,943	5,091	4,612
Costau pensiwn buddion diffiniedig ⁷	-	-	-	(2,292)
Costau pensiwn cyfraniadau diffiniedig - cyflogeion presennol	136	5,063	5,199	5,023
Gweithwyr dros dro a chontrat	-	2,688	2,688	2,548
Taliadau terfynu ⁸	-	177	177	380
Cyfanswm	1,414	58,516	59,930	52,815
Costau staff wedi'u cyfalafu	-	(1,537)	(1,537)	-
Cyfanswm	1,414	56,979	58,393	52,815

⁷ Gellir canfod rhagor o wybodaeth am gynlluniau pensiwn cyflogeion yr NMC yn nodyn 19.

⁸ Mae hyn yn cynnwys £23,000 o dalaiadau cytundebol ychwanegol, taliadau diswyddo o £105,000 a thaliadau yn lle rhybudd o £49,000 (2020-21: taliadau cyrundebol ychwanegol o £183,000, taliadau diswyddo o £92,000 a thaliadau yn lle rhybudd o £105,000).

Gwybodaeth ynghylch cyflogeion ar gyflogau uwch (gan gynnwys Swyddogion Gweithredol)

Roedd 175 (2021-2022: 143) o gyflogeion (gan gynnwys aelodau o'r Weithrediaeth am y cyfnod) y syrthiodd eu cydnabyddiaeth yn y bandiau canlynol:

Bandiau cydnabyddiaeth (£)	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022
	Nifer y cyflogeion	Nifer y cyflogeionw
60,001-70,000	76	62
70,001-80,000	58	43
80,001-90,000	15	20
90,001-100,000	11	5
100,001-110,000	5	5
110,001-120,000	3	1
120,001-130,000	2	-
130,001-140,000	2	2
140,001-150,000	1	1
150,001-160,000	1	-
160,001-170,000	-	2
170,001-180,000	1	1
300,001-310,000	-	1

Mae rheolwyr allweddol yn cynnwys y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a chyfarwyddwyr Gweithredol. Cyfanswm buddion y prif reolwyr, gan gynnwys yswiriant cenedlaethol cyflogeion a chyfraniadau pensiwn oedd £1,461,000 (2021-2022: £1,737,000) Mae'r tabl uchod yn cynnwys 8 cyfarwyddwr Gweithredol a dderbyniodd fwy na £60,000 yn y flwyddyn. Roedd pump o aelodau gweithredol mewn swydd am ran o'r flwyddyn â'u henillion o dan £60,000. Am ragor o wybodaeth ar gydnabyddiaeth Gweithrediaeth yn y flwyddyn, gweler yr Adroddiad Cydnabyddiaeth.

Yn 2022-2023, roedd un cyflogai yn y band £100,000-£110,000 yn cynnwys pecyn ymadael o £53,000, un cyflogai â chydabyddiaeth yn y band £90,000-£100,000 yn cynnwys pecyn ymadael o £31,000 ac un cyflogai â chydabyddiaeth yn y band £60,000-£70,000 yn gweld pecyn ymadael o £22,000.

Yn 2021-2022, mae'r tabl yn dangos un cyflogai â chydabyddiaeth yn y band £300,000-£310,000, a neb yn y band hwnnw yn 2022-2023. Roedd cydnabyddiaeth y cyflogai hwnnw yn cynnwys pecyn ymadael o £170,000. Hefyd yn 2021-2022, roedd cydnabyddiaeth un cyflogai yn y band £160,000-£170,000 yn cynnwys pecyn

ymadael o £91,000, cydnabyddiaeth un cyflogai yn y band £100,000-£110,000 yn cynnwys pecyn ymadael o £56,000 a, chydabyddiaeth dau gyflogai yn y band £60,000-£70,000 yn gweld pecynnau ymadael o £18,000 a £43,000 yn eu tro.

Roedd pob symudiad arall mewn bandiau trwy gynnydd tâl blynyddol safonol 2022-2023.

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022
	Nifer y cyflogeion	Nifer y cyflogeionw
Nifer o gyflogeion contract parhaol a thymor sefydlog ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn:		
Gweithrediaeth	13	8
Cyflogeion eraill	1,017	999
Nifer ar gyfartaledd o staff asiantaeth dros dro a chontractwyr yn ystod y flwyddyn	65	69
Cyfanswm	1,095	1,076

10. Statws elusennol

Rydym yn gofrestredig fel elusen yng Nghymru a Lloegr â'r Comisiwn Elusennau (rhif elusen 1091434) ac yn yr Alban â Swyddfa'r Rheoleiddiwr Elusennau Albanaidd (rhif elusen SC038362).

Oherwydd ein statws elusennol nid ydym yn atebol am dreth gorfforaethol ar ein gweithgareddau elusennol nac ar ein hincwm ac enillion buddsoddi. Rydym hefyd yn derbyn rhyddhad treth elusennol gan Ddinas Westminster, Bwrdeistref Newham yn Llundain a Chyngor Dinas Caeredin.

11. Asedau sefydlog annirweddol i'w defnyddio gan yr elusen

	Meddalwedd	Prosiectau TG	Gwaith Cyfalaf yn Mynd Rhagddo	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost:				
01 Ebrill 2022	6,632	18,971	556	26,159
Ychwanegiadau	-	1,725	3,668	5,393
Gwarediadau	(4,523)	-	-	(4,523)
Trosglwyddiadau	-	(70)	(93)	(163)
31 Mawrth 2023	2,109	20,626	4,131	26,866
Amorteiddiad:				
01 Ebrill 2022	6,632	9,012	-	15,644
Taliad amorteiddiad am y flwyddyn	-	1,630	-	1,630
Gwarediadau	(4,523)	-	-	(4,523)
Trosglwyddiadau	-	(54)	-	(54)
31 Mawrth 2023	2,109	10,588	-	12,697
Gwerth Llyfr Net:				
31 Mawrth 2022	-	9,959	556	10,515
31 Mawrth 2023	-	10,038	4,131	14,169

Mae prosiectau gwaith cyfalaf yn mynd rhagddynt yn cael eu hychwanegu at y gofrestr asedau sefydlog ac yn cael eu hamorteiddio pan fyddant yn cael eu rhoi ar waith.

Mae Asedau Sefydlog yn cael eu hasesu ar bod dyddiad adrodd am unrhyw ddangosyddion o amharu. Os oes unrhyw ddangosydd o'r fath yn bodoli, mae swm adferadwy'r ased yn cael ei amcangyfrif.

Roedd y trosglwyddiad o £70,000 allan o brosiectau TG yn ystod y flwyddyn oherwydd £163,000 o gyfarpar TG yn cael ei drosglwyddo i asedau dirweddol (Cyfarpar), tra cafodd £93,000 o waith yn mynd rhagddo ynghylch ein rhaglen Moderneiddio Gwasanaethau Technegol (MoTS) yn cael eu rhoi ar waith. Cafodd £1.725 arall o ychwanegiadau ynghylch y rhaglen MoTS eu cyfalafu hefyd yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn cafodd oes ddefnyddiol amcangyfrifedig prosiectau TG eu newid o 3-5 mlynedd i 3-10 mlynedd, i adlewyrchu'r amser y disgwylir i'r asedau fod ynddo yn well. O ganlyniad, gostyngodd yr amorteiddiad a godwyd yn y flwyddyn o £4,889,000 i £966,000.

Cafodd meddalwedd wedi'i dibrisio'n llawn, oedd yn costio £4,523,000 yn wreiddiol ei symud o'r gofrestr yn ystod y flwyddyn

11.1 Gwaith cyfalaf yn mynd rhagddo

Prosiectau yw'r rhain i greu asedau cyfalaf i'w defnyddio yn y busnes lle mae gwariant wedi cael ei achosi ar ddiwedd y cyfnod ond nad yw'r asedau wedi cael eu cwblhau eto na'u rhoi ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys y prosiect Moderneiddio Technoleg a'r prosiect rheoli Prawf Cymhwyster.

12. Asedau dirweddol sefydlog i'w defnyddio gan yr elusen

	23 Portland Place adeilad pryddles hir ⁹	Adnewyddu adeiladau	Dodrefn	Cyfarpar	Gwaith Cyfalaf yn Mynd Rhagddo ¹⁰	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost:						
01 Ebrill 2022	15,448	14,267	517	3,795	119	34,146
Ychwanegiadau	-	17	-	1,394	2	1,413
Gwarediadau	-	(713)	(336)	(3,122)	-	(4,171)
Trosglwyddiadau	-	-	-	-	-	-
Ailddilysu	-	-	-	183	(20)	163
31 Mawrth 2023	15,448	13,571	181	2,250	101	31,551
Dibrisiant:						
01 Ebrill 2022	2,778	8,953	457	3,795	-	15,983
Taliad dibrisiant am y flwyddyn	354	772	18	389	-	1,533
Gwarediadau	-	(713)	(336)	(3,122)	-	(4,171)
Trosglwyddiadau	-	-	-	-	-	-
Ailddilysu	-	-	-	54	-	54
31 Mawrth 2023	3,132	9,012	139	1,116	-	13,399
Gwerth Llyfr Net:						
31 Mawrth 2022	12,670	5,314	60	-	119	18,163
31 Mawrth 2023	12,316	4,559	42	1,134	101	18,152

Mae prosiectau cyfalaf yn mynd rhagddynt yn cael eu hychwanegu at y gofrestr asedau sefydlog ac yn cael eu dibrisio pan gychwynir eu defnyddio.

Mae Asedau Sefydlog yn cael eu hasesu ar bob dyddiad adrodd am unrhyw ddangosyddion o amharu. Os oes unrhyw ddangosydd o'r fath yn bodoli, mae swm adferadwy'r ased yn cael ei amcangyfrif.

Roedd y trosglwyddiad £183,000 i Gyfarpar oherwydd £20,000 o waith yn mynd rhagddo ynglŷn â gliniaduron yn cael eu dwyn i ddefnydd a throsglwyddiad o £163,000 o gyfarpar TG arall yn cael ei drosglwyddo o brosiectau TG.

Cafodd £17,000 ychwanegol perthynol i adnewyddu ein swyddfa yng Nghaeredin a £1,394,000 perthynol i'n rhaglen disodli gliniaduron eu cyfalafu hefyd.

⁹ Gweler Nodyn 12.1

¹⁰ Gweler 12.2

12.1 Adeilad pryddles hir

Cymerodd yr UKCC (y corff oedd yn rhaglaenu'r NMC) fuddiant y bryddles yn 23 Portland Place, Llundain W1B 1PZ oddi wrth Gyngor Nyrsio Cyffredinol Lloegr a Chymru ar ddim cost. Mae gan y bryddles rent isel o £250 y flwyddyn ac mae'n dod i ben yn 2933. Cafodd y bryddles ei phrisio ar 31 Mawrth 2014 ar sail defnydd presennol, gan y priswyr allanol, ar £17.185 miliwn. Mae cyfamod cyfyngol ar y bryddles sy'n cyfyngu defnydd a deiliadaeth yr eiddo i'r NMC.

12.2 Gwaith cyfalaf yn mynd rhagddo

Mae'r rhain yn brosiectau i greu asedau cyfalaf i'w defnyddio yn y busnes lle mae gwariant wedi cael ei achosi ar ddiwedd y cyfnod ond nid yw'r asedau wedi cael eu cwblhau eto na'u cyflwyno i ddefnydd, gan gynnwys y rhaglen Seilwaith.

13. Trafodiadau partïon perthynol

Rydym yn atebol i'r Senedd trwy'r Cyfrin Gyngor. Mae'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 yn amlinellu natur ein perthynas â'r Cyfrin Gyngor a'r mecanweithiau adrodd gofynnol. Er nad yn atebol i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae gennym gysylltiad rheolaidd â'r Adran ar bolisi a materion eraill.

Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023, cyfanswm y taliadau a dalwyd i'r Cadeirydd presennol oedd £78,000 (2021-2022: £60,667), a lwfansau, teithio a chynhaliaeth a threuliau hyfforddiant a dalwyd i, neu a achoswyd mewn perthynas ag aelodau o'r Cyngor oedd £309,918 (2021-2022: £246,402). Mae aelodau'r Cyngor yn cael eu talu'n uniongyrchol trwy gyflogres yr NMC.

Mae manylion am symiau a dalwyd i aelodau unigol o'r Cyngor a'r Weithrediaeth yn cael eu hamlinellu yn yr adroddiad cydnabyddiaeth.

Yn ystod y flwyddyn, ymgysylltodd yr NMC â gwasanaethau TG gan Gartner UK Limited. Partner Matthew McClelland, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Mewnwelediad, yw Is-lywydd Rhanbarthol Datblygu Busnes (Mentrau Mawr) yn Gartner UK Limited. Fe dalodd yr NMC gyfanswm o £37,280 i Gartner UK Limited yn ystod y flwyddyn (2021-2022: £Dim). Nid oedd unrhyw falansau'n ddyledus gyda phartïon cysylltiedig ar ddiwedd y flwyddyn. Nid yw Matthew McClelland wedi chwarae unrhyw ran yn y broses o gaffael na rheoli gwasanaethau Gartner UK.

14. Buddsoddiadau

Buddsoddiadau asedau sefydlog	Ar	Ar
	31 Mawrth 2023	31 Mawrth 2022
	£'000	£'000
Gwerth marchnad ar 1 Ebrill	32,838	31,281
Cyfalaf newydd wedi'i fuddsoddi	3,000	-
Difidendau a llog a dderbyniwyd ac a gadwyd mewn cronfa	859	690
Ffioedd rheoli a godir wrth ffynhonnell	(166)	(157)
(colled)/ennill net ar ailbrisio	(1,855)	1,024
Gwerth marchnad ar 31 Mawrth	34,676	32,838

Yn cynnwys y canlynol:

Adneuoedd incwm sefydlog	5,082	3,112
Ecwitiau	23,204	22,929
Cronfeydd Eiddo	1,445	1,864
Cronfeydd buddsoddi amgen	4,249	4,219
	33,980	32,124
Arian	696	714
Gwerth marchnad ar 31 Mawrth	34,676	32,838

Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023, cafodd £3,000,000 o gyllid ychwanegol ei fuddsoddi yn y farchnad stoc gan ddefnyddio ein rheolwyr buddsoddi Sarasin & Partners (2021-2022: £Nil).

Buddsoddiadau asedau presennol

Buddsoddiadau asedau presennol	Ar	Ar
	31 Mawrth 2023	31 Mawrth 2022
	£'000	£'000
Adneuoedd tymor byr (aeddffedrwydd o fwy na 3 mis ond llai na 12 mis)	29,612	48,125

15. Dyledwyr

	Ar	Ar
	31 Mawrth 2023	31 Mawrth 2022
	£'000	£'000
Dyledwyr	100	91
Rhagdaliadau ac incwm cronodig	3,670	3,215
Cyfanswm	3,770	3,306

16. Credydwy'r (Symiau sy'n syrthio'n ddyledus o fewn un flwyddyn)

	Ar 31 Mawrth 2023	Ar 31 Mawrth 2022
	£'000	£'000
Credydwy'r a chroniadau	15,791	13,478
Trethi eraill a nawdd cymdeithasol	1,423	1,437
Incwm gohiriedig	40,792	40,258
Cyfanswm	58,006	55,173

Incwm gohiriedig yw gwerth y ffioedd Cofrestru a dderbyniwyd ar ddyddiad pob mantolen sy'n berthynol i flwyddyn ariannol yn y dyfodol. Cafodd £40,258,000 a ohiriwyd ar 31 Mawrth 2022 ei ryddhau yn y flwyddyn a chafodd £40,792,000 ei ohirio ar 31 Mawrth 2023.

17. Credydwy'r (Symiau sy'n syrthio'n ddyledus ar ôl mwy nac un flwyddyn)

	Ar 31 Mawrth 2023	Ar 31 Mawrth 2022
	£'000	£'000
Premiwm y brydles	18	76
Cyfanswm	18	76

18. Darpariaethau

	Dadfeiliadau ¹¹	Pensiwn - Ymddeoliad Cynnar ¹²	Panelwyr ¹³	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
Ar 1 Ebrill 2022	(746)	(22)	(2,500)	(3,268)
Ychwanegiadau	(123)	-	-	(123)
Defnyddiwyd yn y flwyddyn	158	22	-	180
Rhyddhadau	7	-	-	7
Ar 31 Mawrth 2023	(704)	-	(2,500)	(3,204)

¹¹ Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dadfeiliadau yn cynrychioli ein hamcangyfrif pwylllog o gostau rhoi ein hadeiladau a brydlesir yn ôl i'r cyflwr roeddent ynddo cyn inni ddechrau ein prydlesau.

¹² Adlewyrchodd y ddarpariaeth ar gyfer ymddeoliad cynnar pensiwn gost aelod o'r cynllun pensiwn buddion diffiniedig yn ymddeol yn gynnar oherwydd anallu. Cafodd y gost ychwanegol ei thalu yn fisol hyd Mehefin 2022.

¹³ Mae'r ddarpariaeth ar gyfer costau panelwyr ychwanegol posibl yn adlewyrchu ein hamcangyfrif pwylllog o effaith ehangach bosibl hawliad unigol i dribynlys cyflogaeth am symiau ychwanegol gan banelydd Addasrwydd i Ymarfer. Mae panelwyr yn gontractwyr annibynnol sy'n eistedd ar ein panelau Addasrwydd i Ymarfer. Mae achosion cyfreithiol ynghylch hyn yn parhau. Mae'r ddarpariaeth bresennol yn adlewyrchu'r cyngor cyfreithiol diweddaraf ynglŷn â graddau tebygol y rhwymedigaeth bosibl. Gan fod y ddarpariaeth yn cynnwys swm yn ymwneud â chyfraniadau pensiwn cyflogwr heb eu talu, rhoddwyd gwybod i'r Rheoleiddiwr Pensiynau.

19. Ymrwymiadau pensiwn

Rydym yn gweithredu dau gynllun pensiwn: cynllun cyfraniadau diffiniedig a chynllun buddion diffiniedig.

Y cynllun cyfraniadau diffiniedig

Mae ein prif gynllun pensiwn yn gynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig a weithredir gan Bensiwn y Bobl. Yr isafswm lefel cyfraniad yw fod cyflogeion yn cyfrannu 1 y cant o'u

cyflog pensiynadwy ac mae'r NMC yn cyfrannu 8 y cant (2021-2022: 8 y cant). Gall cyflogeion wneud cyfraniadau ychwanegol sy'n cael eu cyfateb gan yr NMC hyd at uchafswm cyfraniad cyflogwr o 14 y cant. Ar 31 Mawrth 2023, roedd 94 y cant o gyflogeion yn aelodau o'r cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Mae gan gyflogeion hefyd yr opsiwn o wneud eu cyfraniadau trwy gynllun aberthu cyflog a gyflwynwyd ar ddechrau 2021-2022.

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022
	£'000	£'000
Cyfraniadau cynllun cyfraniadau diffiniedig NMC (cyflogwr) a gafodd eu gwneud yn y flwyddyn	5,199	5,023
	%	%
Cynllun cyfraniad sylfaenol cynllun cyfraniadau diffiniedig NMC (cyflogwr)	8.00%	8.00%
Cynllun cyfraniad sylfaenol cyfraniadau diffiniedig y cyflogai	1.00%	1.00%

Y cynllun budd diffiniedig

Roedd cyflogeion a ymunodd â'r NMC cyn Tachwedd 2013 yn gallu ymuno â'n cynllun pensiwn buddion diffiniedig, Cynllun Pensiwn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a Chyflogwyr Cysylltiedig, rhif cofrestru'r cynllun 101652586. Mae'n gynllun aml gyflogwr wedi'i gyllido â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, wedi'i weinyddu gan Premier Pensions Management Limited. Tynnodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a GIG Addysg yr Alban, y cyfranogwyr blaenorol, yn ôl o'r cynllun yn ystod 2013 a 2015 yn eu tro.

Ym Mawrth 2021, yn dilyn ymgynghoriad ag aelodau gweithredol y Cynllun, penderfynodd y Cyngor gau'r cynllun buddion diffiniedig i gronni buddion i'r dyfodol mewn grym o 1 Gorffennaf 2021. Felly, ar 31 Mawrth 2023, nid yw cyflogeion yn aelodau gweithredol o'r cynllun.

Mae cyfraniadau at y cynllun yn cael eu pennu gan actiwari cymwys ar sail prisiadau pob tair blynedd. Mae cyfraniadau wedi cael eu gwneud yn daladwy gan Ddatganiad y Gweithgareddau Ariannol (SoFA) er mwyn lledaenu'r gost o bensiynau dros fywydau gwaith cyflogeion.

Cafodd y prisiad diweddaraf wedi'i gwblhau o'r cynllun ei gyflawni ar ran ymddiriedolwyr y pensiwn gan Premier Pensions Management Limited ar 31 Mawrth 2022, gan ddefnyddio ymagwedd cromlin arenillion llawn. Ar ddyddiad y prisiad, roedd gwerth adran yr NMC o asedau'r cynllun ar sail dibyniaeth isel yn £74.4 miliwn. Cynrychiolodd gwerth yr asedau 107 y cant o werth y buddion, oedd wedi cronni i aelodau ar ôl caniatáu am gynnydd disgwylidig yn y dyfodol mewn enillion

Pe byddai'r cynllun wedi cael ei ddirwyn i ben ar ddyddiad y prisio (31 Mawrth 2022), byddai'r asedau wedi bod tua 86 y cant o'r swm angenrheidiol i brynu contractau yswiriant i ateb y buddion cronedig ar gyfer aelodau gweithredol ac ymadawyr y gorffennol a'r buddion presennol i bensiynwyr. Byddai'r diffyg amcangyfrifedig wedi bod yn £12.4 miliwn.

O ganlyniad i'r adolygiad pob tair blynedd yn dangos gwagedd, mae'r ymddiriedolwyr pensiwn annibynnol wedi cytuno nad yw taliadau adfer cynllun yn ofynnol mwyach. Gwerth y taliadau adfer cynllun yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 oedd £1,928,000 (31 Mawrth 2022: £1,860,000). Gwerth taliadau cynllun heb fod yn un adfer eraill, yn y flwyddyn oedd £530,000 (2021-2022: £676,000).

Bydd y prisiad pob tair blynedd nesaf ar 31 Mawrth 2025.

Mae'r prisiad FRS 102 yn seiliedig ar asesiad llawn o ddyledion y cynllun ar 31 Mawrth 2023. Er bod y prisiad hwn yn dangos gwagedd, cafodd cyngor cyfreithiol ei gadarnhau nad oes gan yr NMC hawl ddiamod i'r gwagedd hwnnw. Mae FRS 102 yn datgan "y bydd endid yn adnabod gwagedd cynllun fel ased cynllun buddion diffiniedig dim ond i'r graddau ei fod yn gallu adfer y gwagedd" ac felly mae addasiad uchafswm ased wedi cael ei gymhwyso i ddod â'r safle net i ddim byd.

Symiau a gafodd eu hadnabod yn y Fantolen

	Ar 31 Mawrth 2023	Ar 31 Mawrth 2022
	£'000	£'000
Asedau ar werth teg	75,706	101,836
Gwerth presennol rhwymedigaeth buddion diffiniedig	(60,450)	(96,036)
Gwagedd/(Diffyg)	15,256	5,800
Addasiad uchafswm ased	(15,256)	(5,800)
Rhwymedigaeth net	-	-

Symiau a gafodd eu hadnabod yn SoFA	Ar	Ar
	31 Mawrth 2023	31 Mawrth 2022
	£'000	£'000
Cost gwasanaeth presennol	-	(587)
Cost gwasanaeth yn y gorffennol	-	-
Elw disgwylidig ar asedau'r cynllun	2,656	1,848
Cwtogiad	-	2,495
Llog ar rwymedigaeth pensiwn	(2,656)	(1,889)
Swm net a adnabyddir yn SoFA	-	1,867

Symiau a adnabyddir mewn Incwm Cyfun Arall	Ar	Ar
	31 Mawrth 2023	31 Mawrth 2022
	£'000	£'000
Elw ar asedau cynllun dros incwm llog	29,384	(2,845)
Colled/(ennill) actiwaraidd ar ragdybiaethau demograffig	756	-
Colled/(ennill) actiwraiadd ar ragdybiaethau ariannol	(38,287)	(5,849)
Colled/(ennill) actiwaraidd ar addasiad profiad	1,332	4,347
Newid yn uchafswm yr ased ac eithrio llog	9,273	5,800
Cyfanswm colled/(ennill)	2,458	1,453
	%	%
Cynllun cyfraniad NMC (cyflogwr) buddion diffiniedig	39.30%	39.30%
Cynllun cyfraniad cyflogai buddion diffiniedig	0.00%	6.00%

Cysoni gwerth presennol rhwymedigaeth buddion diffiniedig	Ar	Ar
	31 Mawrth 2023	31 Mawrth 2022
	£'000	£'000
Balans agoriadol ar 1 Ebrill 2022	96,036	100,498
Cost gwasanaeth presennol	-	587
Cwtogiad	-	(2,495)
Cost llog	2,473	1,889
Cyfraniad cyflogai	-	92
(Ennill)/colledion actiwaraidd	(36,199)	(1,502)
Buddion a dalwyd	(1,860)	(3,033)
Balans cau ar 31 Mawrth 2023	60,450	96,036

Cysoni gwerth teg asedau cynllun	Ar	Ar
	31 Mawrth 2023	31 Mawrth 2022
	£'000	£'000
Balans agoriadol ar 1 Ebrill 2022	101,836	97,343
Elw disgwylidig ar asedau	2,656	1,848
Ennill/(colledion) actiwaraidd	(29,384)	2,845
Cyfraniad cyflogwr	2,458	2,741
Cyfraniad cyflogai	-	92
Buddion a dalwyd	(1,860)	(3,033)
Balans cau ar 31 Mawrth 2023	75,706	101,836

Nenfwd asedau	Blwyddyn a ddaeth i ben	Blwyddyn a ddaeth i ben
	31 Mawrth 2023	31 Mawrth 2022
	£'000	£'000
Uchafswm asedau ar ddechrau'r cyfnod	(5,800)	-
Llog ar y nenfwd asedau	(183)	-
Newid mewn uchafswm asedau heb ei gynnwys mewn datganiad incwm	(9,273)	5,800
Uchafswm asedau ar ddiwedd y cyfnod	(15,256)	(5,800)

Cysoni newid mewn statws wedi'i gyllido	Cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	Cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022
	£'000	£'000
Balans agoriadol ar 1 Ebrill 2022	-	(3,155)
Traul pensiwn	-	1,867
Ennill/(colledion) actiwaraid	6,815	4,347
Cyfraniad cyflogwr	2,458	2,741
Addasiad uchafswm asedau	(9,273)	(5,800)
Balans cau ar 31 Mawrth 2023	-	-
Elw gwirioneddol ar asedau cynllun	(26,728)	4,693

Hanes addasiadau profiad	Cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020
	£'000	£'000	£'000	£'000
Rhwymedigaeth buddion diffiniedig	(60,450)	(96,036)	(100,498)	(78,626)
Asedau'r cynllun	75,706	101,836	97,343	67,004
Gwarged/(Diffyg)	15,256	5,800	(3,155)	(11,622)
Addasiadau profiad ar rwymedigaeth cynllun - ennill/(colli)	(1,332)	(4,347)	731	5,226
Addasiadau profiad ar asedau'r cynllun	(29,384)	2,845	20,119	(13,789)

Cyfraniad disgwylid yn y cyfnod dilynol	Ar 31 Mawrth 2023
	£'000
Cyflogwr (gan gynnwys ffioedd)	-
Cyflogai	-
Cyfanswm	-

Prif ragdybiaethau	Ar 31 Mawrth 2023	Ar 31 Mawrth 2022
Graddfa gostyngiad	4.70%	2.60%
Chwyddiant pris manwerthu	3.40%	3.70%
Chwyddiant pris defnyddwyr	2.95%	3.25%
Cynnydd pensiwn	3.00%	3.65%
Elw disgwylidig ar asedau	4.70%	2.60%
Disgwyliad oes ar oedran 60	Blynyddoedd	Blynyddoedd
Dynion a anwyd 1962	26.6	26.6
Menywod a anwyd 1962	29.3	29.2
Dynion a anwyd 1982	28.2	28.1
Menywod a anwyd 1982	30.7	30.7

Asedau'r cynllun	Ar 31 Mawrth 2023	Ar 31 Mawrth 2022
	£'000	£'000
Cronfeydd twf	18,945	51,361
Bondiau	6,606	6,993
Giltiau	16,466	-
Buddosoddiadau wedi'u gyrru gan rywmedigaeth	11,909	19,984
Arian	6,022	2,384
Blwydd-daliadau wedi'u hyswirio	15,758	21,114
Cyfanswm	75,706	101,836

20. Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2023, mae gwariant cyfalaf £0.6 miliwn ar gyfer Prawf Cofrestru ac Ailddilysu Prawf Cymhwysyter, £2.6 miliwn Moderneiddio Gwasanaethau Technegol a £0.1 miliwn rhaglen Gwella Technoleg wedi cael ei contractio ar ei gyfer ond nid yw wedi cael ei ddarparu ar ei gyfer yn y datganiadau ariannol.

Roedd y gwariant cyfalaf canlynol wedi cael ei gymeradwyo ond ni chontractiwyd ar ei gyfer:

	Ar 31 Mawrth 2023	Ar 31 Mawrth 2022
	£'000	£'000
Moderneiddio Gwasanaethau Technegol	6,881	1,200
Rhaglen Lety	1,800	763
Gweithle Modern i Mi	100	100
Cyfanswm	8,781	2,063

21. Ymrwymiadau prydlesau gweithredol

Ar 31 Mawrth 2023 roedd gennym yr isafswm taliadau prydles gweithredol i'r dyfodol canlynol:

	Tir ac adeiladau	
	Ar 31 Mawrth 2023	Ar 31 Mawrth 2022
	£'000	£'000
Prydlesau sy'n dod i ben:		
O fewn un flwyddyn	1,888	1,816
Rhwng un a phum mlynedd	4,530	5,723
Mwy na phum mlynedd	757	4,226
Cyfanswm	7,175	11,765

Rydym yn prydlesu adeilad yn 2 Stratford Place, Llundain, am y cyfnod hyd 21 Gorffennaf 2024; 1 Westfield Avenue, Llundain, am y cyfnod hyd 6 Chwefror 2029 a 10 George Street, Caeredin am y cyfnod hyd 17 Mai 2026.

22. Offer ariannol

Mae offer ariannol yn chwarae rôl fwy cyfyngedig mewn creu a rheoli risg nac a fyddai'n gymwys i sefydliad masnachol.

	Ar 31 Mawrth 2023	Ar 31 Mawrth 2022
	£'000	£'000
Asedau ariannol	105,689	106,150
Rhwymedigaethau ariannol	(17,214)	(14,915)

Mae asedau ariannol yn cynnwys balansau arian £37.631 miliwn (2021-2022: £21.881 miliwn), buddsoddiadau mewn adneuon banc tymor sefydlog £29.612 miliwn (2021-2022: £48.125 million) a dyledwyr £3.770 miliwn (2021-2022: £3.306 miliwn) a ddelir ar gost amorteiddiedig a buddsoddiadau yn y farchnad stoc (trwy reolwyr buddsoddi) £34.676 miliwn (2021-2022: £32.838 miliwn) a ddelir ar werth marchnad. Rhwymedigaethau ariannol a ddelir ar gost amorteiddiedig yn cynnwys credydwyr a chroniadau £15.791 miliwn (2021-2022: £13.478 miliwn) a threthi eraill a nawdd cymdeithasol £1.423 million (2021-2022: £1.437 miliwn).

23. Datganiad cymharol o weithgareddau ariannol

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 cafodd £2.609 miliwn o incwm grant cyfyngedig ei osod fel treuliau yn llawn, a dim balansau cyfyngedig wedi'u dwyn ymlaen. Gweler nodyn 3 am ragor o fanylion.

24. Taliadau y tu allan i gontract

Roedd un taliad y tu allan i gontract yn y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023: £23,500 (31 Mawrth 2022: £182,804). Gellir canfod rhagor o fanylion yn yr adroddiad cydnabyddiaeth.

25. Asedau amodol a rhwymedigaethau amodol

Ar 31 Mawrth 2023 nid oedd asedau na rhwymedigaethau amodol.

26. Digwyddiadau ar ôl taflen mantolen

Nid oes digwyddiadau wedi bod ar ôl dyddiad y daflen mantolen sy'n gofyn am addasiad neu ddatgeliad yn y datganiadau ariannol hyn.

Mae'r adroddiad a chyfrifon blynyddol wedi cael eu hawdurdodi i'w cyhoeddi ar y dyddiad y cafodd y cyfrifon eu hardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Atodiad 1



Penderfyniad Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (Ffurflen Cyfrifon) 2010

Mae eu Harglwyddiaethau yn gwneud y penderfyniad a ganlyn drwy arfer pwerau a roddir gan erthygl 52(1) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001.

Daw'r penderfyniad hwn i rym o 23 Chwefror 2010.

Dehongliad

1. Yn y Penderfyniad hwn-

“ystyr “y cyfrifon” yw'r cyfrifon y mae'n ddyletswydd ar y Cyngor eu cadw a'u paratoi o dan erthygl 52(1) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2010 a blynyddoedd ariannol dilynol;

ystyr “SoRP Elusennau” yw “Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Arferion Cymeradwy 2005 a baratowyd gan y Comisiwn Elusennau neu unrhyw argraffiad wedi'i ddiweddarau sydd mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol.

ystyr “y Cyngor” yw'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth;

ystyr “y FReM” yw Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF sydd mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol

Penderfyniad

- 2.** Rhaid i'r cyfrifon-
 - a.** bod yn barod i roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cyngor ar 31 Mawrth yn y flwyddyn ariannol dan sylw ac o'r adnoddau sy'n dod i mewn a'r defnydd o adnoddau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol honno; a
 - b.** datgelu unrhyw adnoddau sylweddol sy'n dod i mewn neu'n mynd allan nad ydynt wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd neu drafodion perthnasol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.
- 3.** Yn ddarostyngedig i baragraff 4, er mwyn cydymffurfio â pharagraff 2(a), rhaid paratoi'r cyfrifon -
 - a.** i gydymffurfio â'r egwyddorion cyfrifyddu a'r gofynion datgelu sydd wedi'u cynnwys yn y SoRP Elusennau; ac
 - b.** ystyried gofynion y FReM i'r graddau y mae'r gofynion hynny'n egluro, neu'n adeiladu ar, ofynion y SORP Elusennau.
- 4.** Lle mae presenoldeb amgylchiadau eithriadol yn golygu y byddai cydymffurfio â gofynion y SORP Elusennau neu FReM yn arwain at baratoi cyfrifon a oedd yn anghyson â'r gofyniad ym mharagraff 2(b), dylid gwyro oddi wrth y gofynion hynny dim ond i'r graddau angenrheidiol i roi darlun cywir a theg o'r sefyllfa hono.
- 5.** Mewn achosion y cyfeirir atynt ym mharagraff 4, dylid defnyddio barn wybodus a diduedd i ddyfeisio triniaeth amgen briodol sy'n gyson â nodweddion economaidd yr amgylchiadau dan sylw ac ysbryd SORP yr Elusennau a'r FReM.
- 6.** Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei atgynhyrchu fel atodiad i'r cyfrifon cyhoeddedig.

Arwyddwyd gan awdurdod y Cyfrin Gyngor
Dyddiedig: 18 Gorffennaf 2011



23 Portland Place,
Llundain W1B 1PZ

T +44 20 7333 9333

nmc.org.uk

© Hawlfraint y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth 2023

Rheoleiddiwr nyrso a bydwreigiaeth Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon Elusen
gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).
©NMC 2022-2025

E02921917

978-1-5286-4234-7